

**Cymru
Wrth-hiliol**



**An Anti-Racist
Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru Wrth-hiliol

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb
Hiliol i Gymru

**Gweledigaeth, Diben, Gwerthoedd
a Dyfodol a Ragwelir erbyn 2030**

Cynnwys

Adran 1

- 04** 1. Rhagair gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
- 05** 2. Rhagair gan y Cyd-gadeiryddion
- 06** 3. Cydnabyddiaethau
- 07** 4. Hiliaeth: dyfyniadau gan bartneriaid
- 08** 5. Cefndir
- 10** 6. Yr hyn a gynigir gennym
- 12** 7. Y sefyllfa bresennol
- 13** 8. Yr achos dros newid
- 15** 9. Camau allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn
- 19** 10. Ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r Nodau

Adran 2

- 22** 11. Y Weledigaeth Ddatblygol, Diben, Gwerthoedd a'r Dyfodol a Ragwelir hyd at 2030
- 26** 12. Trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu
- 28** 13. Nodau polisi, camau gweithredu, terfynau amser a chanlyniadau

Adran 3

- 128** 14. Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym?
- 137** 15. Asesiad Effaith o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Adran 4

- 139** Atodiad 1: Grŵp Llywio'r CGCH – Cylch Gorchwyl
- 141** Atodiad 2: Terminoleg
- 142** Atodiad 3: Perchenogion adroddiadau'r Grant Cymunedol
- 143** Atodiad 4: Mentoriaid Cymunedol

Adran 1

1. Rhagair y Gweinidog

I lawer ohonom, mae mynd i'r afael â hiliaeth a hybu cydraddoldeb hiliol bob amser wedi bod yn flaenoriaethau pwysig. Ond yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi'i ysgogi gan y dicter dealladwy mewn perthynas â llofruddiaeth George Floyd yn yr Unol Daleithiau, a rhaniadau cynyddol yn ein cymdeithas ni ein hunain, rydym wedi dod i sylweddoli bod y mater hwn yn bwysicach nag erioed. Mae'n amser i newid, ac yn gyfle i newid. Nid oes unrhyw esgus pam na ddylai llywodraethau, cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau weithredu.

Rydym yn cydweithio tuag at gyflawni nodau llesiant Cymru, sy'n cynnwys y nod unedig o greu 'Cymru Fwy Cyfartal'. Ein gweledigaeth i Gymru yw gwlad sy'n falch ei bod yn wrth-hiliaeth, lle y caiff pawb eu trin fel dinasyddion cydradd. Ein diben yw creu newid ystyrion i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rydym am wneud hyn mewn ffordd dryloyw ac agored, ac mewn ffordd sy'n cydnabod bod gennym boblogaeth amrywiol sy'n gwneud cyfraniad gweithredol nawr ac a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol, i'n heconomi, ym maes iechyd ac o fewn pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddinasyddion cydradd yng Nghymru, a dyma etifeddiaeth y mae'n rhaid i ni ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn parhau i geisio deall safbwynt pobl sydd â phrofiad bywyd a bod profiadau unigolion a chymunedau yn rhan greiddiol o'n holl ystyriaethau. Dim ond drwy wrando a gweithredu y gallwn gyflawni newid go iawn.

Rydym yn bwriadu llunio cynllun ymarferol, gan amlinellu'r camau gweithredu penodol i'w cymryd ym mhob maes polisi allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein gwaith cyd-awduro. Ar ôl cwblhau'r fersiwn derfynol o'r cynllun, bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig iddo ac yn atebol amdano.

Y newyddion da yw bod gennym hanes da o roi newidiadau diriaethol a blaengar ar waith ar gyfer grwpiau gwarchoddedig eraill, er enghraifft, ein gwaith ar rywedd. Ond nawr, rydym yn canolbwyntio ar hil ac yn gwneud hynny gan gydnabod mai dyma'r mater mwyaf heriol i ni yn y gwasanaethau cyhoeddus yn bersonol ac fel sefydliad ond gan gydnabod hefyd, os byddwn yn llwyddo i gyflawni newid yn y maes hwn, y bydd hynny o fudd nid yn unig i bob grŵp gwarchoddedig arall ond hefyd i'r gymdeithas gyfan. Gall ein cyflawniadau yn y maes hwn bennu safon a chynnig arferion da ar gyfer gwaith arall ym maes cydraddoldeb.

Caiff y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (y Cynllun) ei ddatblygu ar y cyd. Rydym yn ddiolchgar am yr ymdrech a wnaed gan lawer o bobl a sefydliadau ledled Cymru i 'gyd-greu' y fersiwn ddrafft hon. Rydym wedi cynnal digwyddiadau ledled y wlad er mwyn gwrandao ar brofiadau pobl, ac wedi gweithio'n galed i gynnwys yr hyn y mae cymunedau, a'r dystiolaeth academaidd, wedi'i ddweud wrthym.

Mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i'r gwaith hwn, felly hefyd y grwpiau a'r unigolion niferus sydd wedi ein helpu hyd yn hyn. Ond mae angen eich mewnbwn amom o hyd. Mae'n rhaid i ni fod yn siŵr ein bod wedi cynnwys y blaenoriaethau cywir, a bod yn glir ynghylch sut y cânt eu gweithredu.

Felly, hoffem eich gwahodd i edrych ar y drafft hwn a mynd ati, yn ystod yr wythnosau nesaf, i'n herio, a'n helpu i fireinio'r cynllun. Edrychwn ymlaen at gael eich mewnbwn erbyn 17 Mehefin 2021, ac at symud ymlaen i roi'r fersiwn derfynol ar waith yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

Mae'n amser i newid, a rhaid i ni gynnwys cymaint o bobl â phosibl i'n helpu i lywio'r newid hwnnw a bod y rheini sy'n dewis arsylwi yn ein hysgogi.



Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

Mark Drakeford



Jane Hutt AS
Dirprwy Weinidog
a'r Prif Chwip

Jane Hutt

2. Rhagair y Cyd-gadeiryddion

Mae'n deg dweud, fel cymdeithas gyfan, ein bod yn poeni am hiliaeth. Fodd bynnag, ers gormod o amser, rydym wedi credu y bydd anghydraddoldeb hiliol yn diflannu heb ymdrechion parhaus i'w herio a'i ddileu. Mewn sawl ffordd, rydym wedi dod i arfer â byw gydag anghydraddoldeb hiliol mewn ffordd sydd wedi gwneud yr anghydraddoldeb hwnnw yn agwedd hunanbarhaus ar realiti a fu'n bla ar fywydau aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt fel lleiafrifoedd ethnig o hyn ymlaen) o'n cymdeithas.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (y Cynllun) yn adeiladu ar fentrau blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hiliol. Tynnwyd sylw amlwg a dwys at y ffaith bod angen cyflwyno'r Cynllun ar fyrder oherwydd effaith pandemig COVID-19, ac efallai yn fwy na hynny, amlygrwydd ac ymateb digynsail y byd i lofruddiaeth George Floyd yn UDA. O ganlyniad i'r ddau ddigwyddiad hyn, daeth cantyniadau enbyd hiliaeth yn amlwg i'r byd a phwysleisiwyd yr angen i gymryd camau gweithredu parhaus er mwyn dileu achosion o wahaniaethu ar sail hil.

Mae'r Cynllun yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar COVID-19 a chymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru, ac mae'n cynnwys tair nodwedd ryng-gysylltiedig amlwg. Yn gyntaf, mae'r Cynllun yn seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth. Mae hyn yn golygu bod yr awydd i greu gwlad lle na chaiff unrhyw fath o hiliaeth ei goddef yn thema gyffredin sydd i'w gweld ym mhob pennod. Roeddem o'r farn bod hyn yn bwysig oherwydd er bod y rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas yn anhiliol, mae effeithiau andwyol hiliaeth wedi parhau gan nad yw bod yn anhiliol yn gyflwr sy'n ysgogi camau gweithredu. Yn wir, yn aml caiff pobl sy'n categoreiddio eu hunain fel pobl anhiliol eu hamlygu i stereoteipiau hiliol negyddol o grwpiau ethnig lleiafrifol, ac yn aml, gall y stereoteipiau hyn gael eu gweithredu mewn ffyrdd sy'n dylanwadu ar eu hymddygiad, hyd yn oed os na fyddant yn ymwybodol o hynny. I'r gwrthwyneb, mae gwrth-hiliaeth yn agwedd ymwybodol lle mae unigolion, mudiadau a sefydliadau yn ymrwymo i feddwl yn weithredol ac ymateb i effeithiau posibl eu strwythurau, eu prosesau, eu polisiau a'u harferion cyfredol ar leiafrifoedd hiliol ac ethnig. Mae ymddygiad rhagweithiol o'r fath yn helpu i leihau achosion o wahaniaethu ar sail hil ac yn symud baich hiliaeth oddi ar ddiodefwyr gweithredoedd o'r fath ac yn ei osod ar bawb mewn cymdeithas.

Yr ail ffactor sy'n arbennig am y Cynllun yw ein bod wedi dilyn egwyddorion cyd-greu yn yr ystyr bod y Cynllun yn deillio o ddeialogau agored, beirniadol a dynamig o fewn grwpiau a rhwng grwpiau, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, academyddion, actifyddion a gweithwyr hil/ethnigrwydd, Undebau Llafur a TUC Cymru, swyddogion o lywodraeth leol a sefydliadau anlywodraethol, arweinwyr grwpiau cymunedol, arweinwyr crefyddol ac, yn bwysig, aelodau unigol o'r cymunedau lluosog sy'n rhan o'r grwpiau lleiafrifoedd hiliol ac ethnig yng Nghymru. Yn sgil y cydweithredu hwn, lluniwyd Cynllun sy'n cynrychioli safbwyntiau pob rhanddeiliad.

Y nodwedd olaf sy'n arbennig am y Cynllun hwn yw'r pwyslais ar gau'r bwlch gweithredu. Wrth ddatblygu'r Cynllun, cafodd aelodau'r Grŵp Llywio eu harwain gan y ffaith na lwyddodd Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol blaenorol â bwriadau cadarnhaol i esgor ar welliannau ystyrion i fywydau grwpiau ethnig lleiafrifol. Roeddem hefyd yn ymwybodol bod problemau gweithredu wedi cael effaith andwyol ar effeithiolrwydd y fframwaith deddfwriaethol (Deddf Cydraddoldeb 2010) a gynlluniwyd i ddileu achosion o wahaniaethu ar sail hil mewn cymdeithas. Credwn y bydd gweithredu'r Cynllun hwn yn llwyddiannus o fudd i bob dinesydd, nawr ac yn y dyfodol.

Egwyddor ganllaw'r Cynllun hwn yw y dylid troi'r 'rhetreg' ar gydraddoldeb hiliol yn gamau gweithredu ystyrion, ac y dylai mudiadau a sefydliadau fod yn atebol am roi'r camau hyn ar waith fel y gwneir ar gyfer meysydd polisi pwysig eraill. Felly mae'r Cynllun yn nodi bod 'nodau, 'camau gweithredu', 'terfynau amser', 'canlyniadau' a rôl y Grŵp Atebolrwydd a fydd yn goruchwyllo'r trefniadau llywodraethu yn hollbwysig er mwyn ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Credwn y bydd pob dinesydd ar eu hennill o weithredu'r Cynllun hwn yn llwyddiannus. Bydd marchnad gyflogaeth sy'n cynyddu'r cyfranogiad lleiafrifoedd hiliol ac ethnig yn gwella cynhyrchiant a thwf cyffredinol economi Cymru, a fydd o fantais i bawb. Bydd system addysg a hyfforddiant decach yn harneisio potensial pawb yng Nghymru, yn enwedig aelodau o gymunedau lleiafrifoedd hiliol ac ethnig y mae eu poblogaethau'n cael eu hystumio tuag at y grwpiau oedran iau ac y bydd eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u galluoedd yn cyfrannu at oresgyn effeithiau tebygol poblogaeth sy'n heneiddio. Yn olaf, bydd cydraddoli cyfleoedd a chanlyniadau mewn gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill yn helpu i leihau'r baich ar y wladwriaeth ac unigolion ac yn helpu i hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol. Yn hyn o beth, mae'r rhesymau dros weithredu'r Cynllun hwn yn llawn yn deillio nid yn unig o'r gofynion moesgol a chyfreithiol, ond hefyd o'r ffaith y bydd y canlyniadau o fudd i bawb: bydd pob un ohonom yn elwa ar gydraddoldeb hiliol.



**Yr Athro
Emmanuel Ogbonna**

Prifysgol Caerdydd



**Y Fonesig
Shan Morgan**

Ysgrifennydd Parhaol,
Llywodraeth Cymru

3. Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r Cynllun hwn wedi bod yn bosibl heb ymdrechion llawer o bobl. Dylem ddechrau drwy gydnabod cymorth aelodau'r Grŵp Llywio, Fforwm Hil Cymru a grŵp ac is-grwpiau Cyngorol Iechyd Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19 a'n mentoriaid cymunedol, sydd wedi rhoi cymaint o'u hamser, ac a ddarparodd arbenigedd a chymorth eithriadol drwy gydol y broses.

Roedd yr adolygiadau cyflym o'r dystiolaeth bresennol a ddarparwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a'r academyddion sy'n gweithio yn y ganolfan hefyd o fudd i'r Cynllun. Rydym hefyd yn ddiolchgar am yr help a'r cymorth hwyluso a ddarparwyd gan Dim Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST) wrth gynnal digwyddiadau pennu gweledigaeth. Rydym yn cydnabod cyfraniadau unigolion a sefydliadau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a weithiodd yn ddi-baid i gasglu a choladu cyfraniadau gan y gymuned ehangach, gan gyflwyno lleisiau newydd i ni er mwyn helpu i lywio ein gwaith. Yn olaf, mae ein dyled yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr amrywiol ddigwyddiadau pennu gweledigaeth a chmau casglu tystiolaeth y gwaith hwn. Gwelsom y baich emosiynol y mae llawer yn ei wynebu o ganlyniad i hiliaeth a gwahaniaethu, ac rydym yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â thrafod rhai o'r profiadau trawmatig y mae unigolion wedi eu hwynebu. Rydym yn gadarn o'r farn y bydd llwyddiant y Cynllun hwn yn golygu na fydd yn ofynnol mwyach i unigolion sôn am brofiadau mor ofnadwy yn y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar i Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru a'u cydweithwyr, sydd wedi gweithio'n ddi-baid i fodloni'r terfynau amser caeth. Hoffem hefyd ddiolch i'r Undebau Llafur a TUC Cymru am weithio gyda ni mewn partneriaeth gymdeithasol, gan gydymffurfio ag egwyddorion pwysig cydweithredu, parch ac ymddiriedaeth. Hoffem hefyd ddiolch i'r tîm eithriadol o swyddogion a wnaeth reoli'r broses gyfan a arweiniodd at ddatblygu'r Cynllun.

Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru

Jane Hutt, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

**Yr Athro Emmanuel Ogbonna,
Prifysgol Caerdydd**

**Y Fonesig Shan Morgan, Ysgrifennydd
Parhaol, Llywodraeth Cymru**

4. Hiliaeth: dyfyniadau gan bartneriaid

"Mae hiliaeth yn gwrth-ddweud ei hun, mae hiliaeth yn afresymegol, mae hiliaeth yn ffars er mwyn gwrthod hawliau dynol pobl ac fel y cyfryw, wrthod yr hawl iddynt fyw eu bywydau ag urddas, gwrthod yr hawl iddynt gael yr un breintiau â phawb arall, gwrthod yr hawl iddynt wneud bywoliaeth a gwrthod yr hawl sylfaenol a phleserus iddynt ddiuno ar ddiwrnod newydd â gobaith".

Cindy Ikie,
Mae Bywydau Du yn Bwysig Cymru 2020

"Ers 30 mlynedd, wynebais wahaniaethu a hiliaeth am fy mod yn gwisgo fy Hijab; Fe'm galwyd yn enwau, nad wyf am eu hailadrodd, dywedwyd wrthyf am ddychwelyd at fy ngwlad fy hun. Siaradwyd â mi fel na phetawn yn deall Saesneg ac fel dinesydd ail ddothbarth...(yn y pen draw) penderfynais dynnu fy Hijab gan fy mod yn ofni y byddai fy merch a'm hwyrion yn cael eu sarhau hefyd pan fyddwn yn mynd allan gyda nhw, neu'n waeth, y byddai rhywun yn ymosod arnynt..."

"Weithiau, bydd car yn mynd heibio, a byddant yn gweiddi 'terfysgwr' neu 'cer adref' a phethau tebyg. Felly, rydych yn arfer â hynny. Am weddill eich oes, rydych yn byw yma, rydych yn arfer â hiliaeth ac wedyn yn meddwl ei bod yn normal, sbo".

Diverse Cymru

"Mae'r heddlu... yn rhy gyflym i farnu ac maent yn gwahaniaethu yn ein herbyn (Sipsiwn a Theithwyr), oni bai eu bod yn ein hadnabod yn bersonol. O ddifrif, does dim parch gen i tuag at yr heddlu o ganlyniad i'r ffordd y cefais fy nhrin yn y gorffennol".

TGP Cymru

"Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gwrthod dod i'r safle oni fydd yr heddlu yn bresennol. Ddown nhw ddim yma o gwbl. Byddwch yn ffonio ambiwlans, ac mae'n cymryd 2 neu 3 awr cyn y bydd yr heddlu yn cyrraedd. Ni fu erioed problem yn hynny o beth – does dim angen".

Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani

"Bu'n digwydd ers 10 mlynedd. Mae'r dyn ar y llawr isaf mor sarhaus ac ymosodgar. Mae'r heddlu yn gwybod amdano...rwyf wedi rhoi gwybod am y peth cymaint o weithiau ond does dim byd yn cael ei wneud – felly rhoddais y gorau i roi gwybod am y digwyddiadau ac wedyn dywedwyd wrthyf nad wyf yn rhoi gwybod iddynt ddigon....mae ei gegyn wrth ymyl mynedfa ein hadeilad; mae'n gweiddi 'You black bastard, you black ****'. Mae fy ngŵr hyd yn oed wedi ffilmio enghraifft ar gamera. Cafodd y dyn ei arestio ond roedd wedi dychwelyd i'r adeilad o fewn dwy awr. Rwyf mor ofnus wrth gerdded heibio i ddrws ffrynt y dyn 'ma".

Menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (MELA, WCF, Hayaat WT, Sefydliad Henna)

"Symudais i Gymru o Loegr er mwyn astudio meddygaeth...wrth i mi symud o amgylch gwahanol rannau o Gymru yn ystod lleoliadau, gwelais nad oedd croeso i mi o gwbl mewn rhai manau. Gallai fod ar ffurf micro-ymosodedd, fel pobl yn syllu neu'n gofyn cwestiynau am fy hijab, ond gall hefyd fod yn ddifrifol iawn, gyda phobl yn fy sarhau neu glaf yn gofyn am gael meddyg gwyn... mae wedi gwneud i mi feddwl eto am ba mor agored a theg yw Cymru mewn gwirionedd".

Canolfan Islam UK a Chyngor Mwslimiaid Cymru

"Bu'r achosion diweddar o gasineb hiliol ar-lein yn ofnadwy. Gobeithio, fel cymuned, y gallwn gyrraedd sefyllfa lle y bydd yn gwbl annerbyniol gwneud sylwadau hiliol ar-lein. Mae angen i bawb yn y gymuned wrando, deall a lleisio barn. Dim ond drwy gynnig addysg yn y gymuned y gallwn gyflawni hyn".

Arolygon Castell-nedd Port Talbot

"Mae achosion o wahaniaethu ar sail hil ac ar sail rhyw yn digwydd yn rheolaidd, ond mae'n digwydd mewn ffordd gynnil er mwyn sicrhau nad yw'n rhy amlwg. Defnyddir cymaint o driciau er mwyn gwneud hyn..."

Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵ (Cymru)

5. Cefndir

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu heriau sylweddol o ran cyni, Brexit, yr argyfwng hinsawdd a phandemig y Coronafeirws.

Yn 2020, dechreuodd gwaith ar gynllun gweithredu newydd ar gyfer cydraddoldeb hiliol, yn dilyn cais am gynllun o'r fath gan sefydliadau llawr gwlad a gynrychiolir ar Fforwm Hil Cymru ac eraill sy'n ein cefnogi yn y maes gwaith hwn. Ond ym mis Mawrth 2020, daeth y gwaith i ben oherwydd pandemig COVID-19. Wedyn, ym mis Mai 2020, syfrdanwyd pobl ledled y byd gan lofruddiaeth George Floyd. Mewn gwahanol ffyrdd, mae'r ddau ddigwyddiad hyn wedi bwrw goleuni ar yr hiliaeth systemig a sefydliadol a wynebir gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt fel pobl / grwpiau ethnig lleiafrifol o hyn ymlaen), yng Nghymru ac mewn mannau eraill.

Effaith wahaniaethol COVID-19

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae amrywiaeth o adroddiadau, ymchwiliadau a gwaith ymchwil, data ystadegol a phrofiadau unigolion a chymunedau a ddogfennwyd, wedi bod yn dangos yn glir bod y pandemig presennol yn cael effaith anghymesur ar bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol. Yn arbennig, tynnodd adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol¹, sylw at yr effeithiau hyn, ac mae'n sail bwysig i lawer o'r camau gweithredu yn y cynllun.

Caiff hyn ei ategu gan wahaniaethau cymdeithasol a strwythurol, sy'n arwain nid yn unig at anghysondebau iechyd, ond at anghydraddoldebau eraill hefyd. Mae adroddiad diweddar gan Brif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru² yn crynhoi'r heriau iechyd a lles allweddol hyn i grwpiau ethnig lleiafrifol. Nid yw'n ymwneud â'r pandemig yn unig, ond ag anghysondebau sylfaenol yn ein cymdeithas.

Mae Ymddiriedolaeth Runnymede yn cyfeirio at anghysondebau o'r fath, gan nodi bod anghydraddoldebau hiliol yn bodoli fwy neu lai ym mhob rhan o gymdeithas ym Mhrydain, o adeg geni hyd at farwolaeth³. Mae effaith COVID-19 yn parhau, gan fod cyfyngiadau symud ar waith o hyd ar adeg ysgrifennu'r ymgynghoriad hwn, er bod y cyfyngiadau hynny yn cael eu llacio'n ofalus. Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio pan fydd Cymru yn symud i'r cam adfer y bydd angen i ni adfer yn *dda*, ond y bydd angen i ni hefyd adfer yn *deg*.

George Floyd / 'Mae Bywydau Du o Bwys'

Mae'r dystiolaeth hon wedi ategu'r galwadau cynyddol i weithredu, ond mae nifer y bobl ddu a fu farw yng Nghymru, achosion o gamweinyddu cyfiawnder a gwaith sefydliadau seiliedig ar hawliau yng Nghymru, hefyd wedi cynyddu'r galwadau am newid. Mae Cindy Ikie, Rheolwr Ymgyrch Genedlaethol Mae Bywydau Du o Bwys Cymru wedi cyfleu hyn mewn ffordd rymus:

"Dywedwyd celwyddau wrthym, amser maith yn ôl, fod cyfiawnhad dros drin pobl yn wael oherwydd lliw eu croen. Rydym wedi bod yn gweithredu mewn system sy'n ein hannog i Gronni cyfleoedd ac adnoddau, ac i gadw gweddill y pethau hyn i bobl Ddu, er mwyn sicrhau y gall y rheini nad ydynt yn Ddu fyw eu bywydau yn fwy rhydd, ac ar draul eraill. Rydym yn byw mewn cymdeithas fyd-eang sydd wedi baeddu ei dwylo yn yr arfer erchyll hon, ond a gafodd ei deffro'n sydyn i wirionedd ei hacrwch. Cafodd ei gorfodi i edrych yn ofalus ar ei hadlewyrchiad – ac i weld nad hi yw'r un decaf wedi'r cyfan. Cymdeithas fyd-eang a barhaodd i anwybyddu gwewyr esgor a llefain pobl Ddu nes i un dyn Du, o'r enw George Floyd, yng nghanol pandemig byd-eang, ddiodesdef pen-glin dyn gwyn, teimlo pwysau cyfan y dyn gwyn hwnnw, yn gwasgu ar ei wddf, yn gwasgu rhannau uchaf llinyn ei gefn".

1 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/grp-cynghorol-bame-y-prif-weinidog-ar-COVID-19-adroddiad-yr-is-grp-economaidd-gymdeithasol.pdf

2 <https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-arbennig-prif-swyddog-meddygol-cymru-2019-i-2020-diogelu-ein-hiechyd>

3 Safbwynt Runnymede (2020); <https://www.runnymedetrust.org/uploads/publications/pdfs/ImmigrationAndTheLotteryOfBelongingFINALJuly2020.pdf>

Mae geiriau Cindy yn dangos y diffyg ymddiriedaeth y mae pobl ethnig lleiafrifol yn ei deimlo, diffyg ymddiriedaeth y bydd gwasanaethau ac awdurdodau cyhoeddus yn gorfodi eu hawliau mewn ffordd ragweithiol; hawliau sydd o bosibl wedi'u cynnwys fel rhan o ddeddfwriaeth, ond "nad ydynt yn cael llawer o effaith, os o gwbl" ar eu bywydau, fel yr awgrymodd un sefydliad partner. Ond i grwpiau ethnig lleiafrifol, maent wedi llawn haeddu'r hawliau hyn ers tro drwy gymryd rhan yn yr economi, yn y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill 'rheng flaen', a thrwy roi eu bywydau eu hunain a'u teuluoedd yn y fantol, yn hanesyddol ac yn yr oes sydd ohoni.

A yw sefydliadau yn ymateb?

Mae'r trafodaethau ar-lein a gynhaliwyd gennym ers haf 2020 wedi ein darbwyllo bod llawer o grwpiau yn teimlo nad yw llawer o sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau preifat a sefydliadau'r trydydd sector wedi cyflawni eu rhwymedigaethau i gael gwared ar hiliaeth systemig a sefydliadol. I'r gwrthwyneb, mae rhai gwasanaethau wedi ymateb i'r her, drwy ofyn beth y gallant ei wneud ac ymateb i'r alwad i weithredu. Mae gwaith diweddar Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatrefedigaethu asedau diwylliannol ac arferion gwaith y Llyfrgell yn un enghraifft.

Ymateb y Llywodraeth: yn ystod haf 2020, gofynnodd Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb, i swyddogion ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (y Cynllun) "uchelgeisiol a radical". Gwahoddodd yr Athro Emmanuel Ogbonna o Brifysgol Caerdydd i gyd-gadeirio Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (y Grŵp Llywio), ar y cyd â'r Fonesig Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru. Cytunwyd ar yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl, fel y nodir yn Atodiad 1.

Cyd-grëwyd y Cynllun drafft hwn gyda llawer o bartneriaid cymunedol a phartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a chaiff bellach ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno. Rydym yn anelu at lansio a chyhoeddi'r fersiwn derfynol ym mis Medi 2021.



6. Yr hyn a gynigir gennym

Nid yw Cymru yn wlad gyfartal, ac mae profiadau llawer o gymunedau o'i mewn yn wahanol iawn. Mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu achosion o wahaniaethu a hiliaeth.

Cynllun ar gyfer gwrth-hiliaeth (nid strategaeth)

Yn y Grŵp Llywio a'r tu allan, roedd ymdeimlad cadarn nad oedd grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol am gael "strategaeth arall eto!", ond eu bod am weld addewidion a chynlluniau sy'n bodoli eisoes yn cael eu gwredu a'u rhoi ar waith a chymau gwrth-hiliaeth yn cael eu blaenoriaethu. Roedd hyn yn seiliedig ar gydnabyddiaeth nad oedd dulliau gweithredu blaenorol, mewn perthynas â chyfle cyfartal, neu amrywiaeth a chynhwysiant, neu safbwynt amlddiwylliannol neu hyd yn oed gydraddoldeb hiliol, wedi mynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol.

Diffiniwyd hiliaeth sefydliadol yn Adroddiad Macpherson (1999) fel: *"The collective failure of an organisation to provide an appropriate and professional service to people because of their colour, culture, or ethnic origin". The report argued that institutional racism "...can be seen or detected in processes, attitudes and behaviours that amount to discrimination through prejudice, ignorance, thoughtlessness, and racist stereotyping which disadvantage minority ethnic people."*

Cadarnhawyd y safbwynt hwn o hiliaeth sefydliadol gan lawer o'r unigolion a'r grwpiau a gymerodd ran yn y grwpiau amrywiol o randdeiliaid a lywiodd y Cynllun. Er enghraifft, yn un o'r digwyddiadau pennu gweledigaeth, soniodd partneriaid am wrth-hiliaeth fel y dull gweithredu allweddol ac fel rhan o'r weledigaeth ddymunol. Gwnaethant ei disgrifio yn eu geiriau eu hunain, fel y nodir ar y tudalennau ar y broses pennu gweledigaeth (22 i 25).

Ailbwysleisiodd yr Athro Ogbonna, Cyd-gadeirydd Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, mewn sawl digwyddiad a arweiniwyd ganddo fod gwrth-hiliaeth yn ymwneud ag ymdrechion cydwybodol gan sefydliadau ac unigolion i wella eu hymwybyddiaeth o'r ffaith bod stereoteipiau negyddol o grwpiau ethnig lleiafrifol, â gwreiddiau hanesyddol er mwyn cyfiawnhau trefedigaethedd a chaethwasiaeth, yn bodoli o hyd. Mae'r stereoteipiau hyn yn anochel yn seiliedig ar ddiffygion ac yn ystyried grwpiau lleiafrifol fel 'llai na' ac fel 'eraill'. Gall y stereoteipiau hyn ymwreiddio mewn diwylliannau cymdeithasol a sefydliadol mewn ffyrdd a gymerir yn ganiataol, ac sy'n dylanwadu ar ymddygiad beunyddiol.

Fel arfer, caiff gwrth-hiliaeth ei strwythuro o amgylch ymdrechion ymwybodol a chymau gweithredu pendant i gynnig cyfleoedd cyfartal i bawb, ar lefel unigol, sefydliadol a systemig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion graffu ar y stereoteipiau sydd ganddyn nhw ac eraill, a deall sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar bobl o wahanol hil ac ethnigrwydd. Mae gwrth-hiliaeth ar lefel mudiadau a sefydliadau yn golygu bod angen archwilio polisiau, arferion, swyddogaethau a phrosesau yn ofalus er mwyn datgelu a yw arferion a mathau o ymddygiad sy'n ymddangos yn ddiniwed o bosibl yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn grwpiau ethnig lleiafrifol ac os felly, sut y maent yn gwneud hynny.

Ystyr braint (neu “fraint pobl wyn”) yw pan na fydd y rhan fwyaf o wneuthurwyr penderfyniadau sy’n wyn yn ystyried breintiau awtomatig – o ran statws, adnoddau, dylanwad, awdurdod a chredoau hanesyddol – mewn perthynas ag uwchraddoldeb ac israddoldeb wrth wneud penderfyniadau, a’r ffyrdd y gallant anfanteisio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rydym yn cydnabod y gall y naratif ynghylch braint pobl wyn fod yn gymhleth i Sipsiwn a Theithwyr ac i rai pobl Roma. Fodd bynnag, dylid cydnabod eu bod nhw hefyd yn lleiafrifoedd ethnig sydd, yn unol â diffiniad Macpherson, yn wynebu achosion o wahaniaethu sefydliadol ar sail eu diwylliant a’u tarddiad ethnig.

Ystyr braint (neu “fraint pobl wyn”) yw pan na fydd y rhan fwyaf o wneuthurwyr penderfyniadau sy’n wyn yn ystyried breintiau awtomatig – o ran statws, adnoddau, dylanwad, awdurdod a chredoau hanesyddol – mewn perthynas ag uwchraddoldeb ac israddoldeb wrth wneud penderfyniadau, a’r ffyrdd y gallant anfanteisio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rydym yn cydnabod y gall y naratif ynghylch braint pobl wyn fod yn gymhleth i Sipsiwn a Theithwyr ac i rai pobl Roma. Fodd bynnag, dylid cydnabod eu bod nhw hefyd yn lleiafrifoedd ethnig sydd, yn unol â diffiniad Macpherson, yn wynebu achosion o wahaniaethu sefydliadol ar sail eu diwylliant a’u tarddiad ethnig.

Trafododd aelodau’r Grŵp Llywio a’r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y broses o ddatblygu’r Cynllun y ffyrdd y gall y Cynllun ddieithrio rhai aelodau o’r gymuned dan sylw a all ddadlau nad yw’r cynllun yn ymdrin â’r problemau go iawn a wynebir gan bobl eraill, er enghraifft pobl wyn o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn wynebu heriau ac anfanteision a bod COVID-19 yn gwaethygu’r sefyllfa hon. Mae maes gwaith ar wahân, gan gynnwys deddfu’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yn mynd rhagddo i ymdrin â’r materion hyn.

Fodd bynnag, mae’n bwysig ein bod yn herio’r dadansoddiad rhaniadol hwn, ac nad ydym yn creu cystadleuaeth rhwng dymunoldeb rhoi cymorth i bobl wyn sydd o dan anfantais a hybu polisiau teg a chyfartal i gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae angen gwneud y ddau, mae modd cyflawni’r ddau a dylid anelu at wneud hynny.

Mae achos cryf o blaid gweithredu mewn perthynas â hil ac rydym wedi nodi tystiolaeth allweddol o anghysondeb profiadau a chanlyniadau sy’n dangos hyn yn Adran 2. Mae unrhyw gynnydd o ran gwahaniaethu ar sail hil yn debygol o arwain at driniaeth decach i bob grŵp o dan anfantais drwy sicrhau bod systemau yn decach ac yn fwy tryloyw a bod gwasanaethau yn fwy ymatebol ac yn canolbwyntio mwy ar unigolion.

Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod Cymru yn wlad wrth-hiliol fwy teg.


7. Y sefyllfa bresennol

Yn dilyn cyfres o weithdai, trafodaethau bord gron, ac archwiliadau manwl o feysydd polisi penodol yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym bellach yn ymgynghori ar y Cynllun drafft hwn. Mae'n cynnwys nodau, camau gweithredu a chanlyniadau lefel uchel ar gyfer un deg tri thema polisi a materion trawsbynciol. Mae'r rhain yn rhan o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru wrth-hiliol. Ein diben allweddol yw gwneud newidiadau ystyrlon i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi datblygu gwerthoedd allweddol a nodweddion 'da' erbyn 2030, os byddwn yn llwyddo. Hoffem i chi eu hystyried i gyd. Yn ogystal, mae tudalennau 29 i 30 ar Lywodraethu yn amlinellu dull gweithredu arfaethedig ar gyfer sicrhau ein bod ni, a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach, yn atebol wrth i ni roi'r Cynllun Gweithredu ar waith.



Mae'r Cynllun drafft yn adlewyrchu allbwn ein gwaith cyd-awduro hyd yn hyn ac nid dyma'r fersiwn derfynol. Bydd y broses ymgynghori yn datblygu ymhellach ac yn atgyfnerthu'r hyn rydym yn ei gynnig, ac yn ein galluogi i drafod sut y gallwn ei roi ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rydym yn cydnabod bod rhannau o'r Cynllun yr hoffem eu datblygu ymhellach, er enghraifft, mae cyfleoedd i greu cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol themâu. Mae gwaith i'w wneud hefyd i ymdrin yn llawn â chroestoriadedd ac i sicrhau bod y Cynllun yn diwallu anghenion menywod a phobl anabl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn briodol. Bydd y sgysiau a'r adborth a gawn drwy'r ymgynghoriad yn ein helpu i ymdrin â'r meysydd hyn.

Yn ystod y cyfnod 12 wythnos hwn, byddwn yn gofyn am sylwadau gan bob cymuned, sefydliadau, arbenigwyr ymchwil, TUC Cymru, undebau llafur a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn mireinio a datblygu'r gwaith hwn ymhellach. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth newydd Cymru, a gaiff ei ffurfio ar ôl etholiadau arfaethedig y Senedd, gymeradwyo'r Cynllun terfynol a chymryd perchenogaeth drosto. Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r cynllun terfynol ym mis Medi 2021.



8. Yr achos dros newid

Er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn, daethpwyd â phobl sy'n cynrychioli sefydliadau, academia ac eraill â gwybodaeth am hil a hiliaeth ynghyd er mwyn ffurfio grŵp llywio. (Gweler Atodiad 1 am fanylion).

Yn y Grŵp Llywio, roedd ymdeimlad cadarn nad "strategaeth arall" oedd ei hangen ar grwpiau ethnig lleiafrifol, ond mwy o weithredu ar lawr gwlad, gan gynnwys cyflawni cynlluniau a gwireddu addewidion sy'n bodoli eisoes. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn bod angen sicrhau bod y dull gweithredu cyfan yn amlwg wrth-hiliol. Ni theimlwyd bod y pwysleisiau blaenorol ar 'gyfle cyfartal', ar 'amrywiaeth a chynhwysiant', ar 'weithredu mewn ffordd amlddiwylliannol' neu hyd yn oed ar 'gydraddoldeb hiliol' wedi llwyddo wrth fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol. Ategwyd y teimlad hwn hefyd gan bobl y tu allan i'r Grŵp Llywio.

Roedd pryder hefyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru yr holl systemau a lefelau angenrheidiol ar waith i gymell camau gweithredu, neu i gymhwyso sancsiynau priodol lle na wnaed cynnydd, naill ai gan y llywodraeth ei hun neu gan y sefydliadau a ariennir ganddi. Dywedodd un aelod o'r Grŵp Llywio "heb sancsiynau, does dim atebolrwydd".

Codwyd pryder hefyd nad oes gan y sefydliadau cyfredol y bwriedir iddynt sicrhau atebolrwydd – fel cyrff archwilio a rheoleiddio, arolygiaethau ac ombwdsmyrn – brofiad na dealltwriaeth ddigon cadarn o'r ffordd y mae hiliaeth yn gweithio, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud am y peth yn eu gwaith.

Roedd rhai partneriaid hefyd o'r farn nad oedd llawer o gyrff cyhoeddus hyd yn oed yn "llwyddo i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 i'r graddau lleiaf"; roeddent o'r farn bod y diffyg cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys peidio â chyhoeddi gwybodaeth fel eu Cynlluniau (Gweithredu) Cydraddoldeb a/neu ddata ar lefelau tangynrychiolaeth, a methiant i ddefnyddio adnoddau gweithredu cadarnhaol. Roeddent o'r farn nad oedd digon o wybodaeth, fel data ethnigrwydd am y gweithlu neu am ddefnyddwyr gwasanaethau, ar gael i'r cyhoedd er mwyn gallu craffu arni, a dwyn y sefydliadau i gyfrif.

Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ac eraill y dylid ystyried a oes angen deddfwriaeth ychwanegol er mwyn sicrhau newid. Gwnaeth y Comisiwn nifer o argymhellion penodol i ni yn ei friff.

Dangosodd trafodaethau hefyd nad oedd llawer yn ymwybodol o'r ysgogwyr ar gyfer newid y gallai'r Lywodraeth eu defnyddio, na chryfderau a chyfyngiadau'r mecanweithiau hynny.

Yn fwy cyffredinol, er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd croestoriadedd, roedd pryderon bod Cynlluniau a Strategaethau Amrywiaeth a Chynhwysiant cyffredinol yn dueddol o arwain at ddiffyg ffocws ar faterion sy'n ymwneud â hil; roedd angen ffocws mwy penodol, o ystyried y profiad o wahaniaethu a'r gwahaniaeth mewn canlyniadau a ddangosir yn y dystiolaeth.

Dywedodd profiad wrthym hefyd nad yw swyddogion polisi, y mae ganddynt flaenoriaethau sy'n anghyson â'i gilydd, o bosibl yn blaenoriaethu'r gwaith o roi camau gweithredu â bwriadau da ar waith, nac yn talu sylw i brofiadau gwahaniaethu a brofir gan y bobl y maent yn llunio polisiau ar eu cyfer. O ganlyniad, daw'r hyn a ddylai fod yn ddulliau polisi wedi'u cynllunio'n dda, wedi'u dylunio i nodi effaith polisi ar grwpiau penodol – er enghraifft, 'asesiadau effaith' – yn aml yn ymarferion blychau ticio, yn hytrach na thrafodaethau cyfoethog â defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n arwain at welliannau wrth ddylunio'r polisi neu'r gwasanaeth, ac yn sicrhau y byddai'n cael mwy o effaith.

Wrth ddrafftio'r cynllun hwn rydym yn cydnabod bod menywod ethnig lleiafrifol yn aml â nifer o rolau (mamau, partneriaid, gofalwyr etc) a lefelau uchel o ryngweithio â darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg ac mewn llawer o feysydd eraill, naill ai ar gyfer eu hunain neu ar ran eu plant a'u teuluoedd. Maent yn aml yn profi sawl math o wahaniaethu, a hynny nid yn unig ar sail hil

a rhyw ond ar sail economaidd-gymdeithasol, anabledd, iechyd meddwl a gwahaniaethu arall.

Mewn llawer o'r trafodaethau dwfn a'r sesiynau bord gron, a thrwy adroddiadau a arweinir gan y gymuned, clywsom sut mae'r croestoriadedd penodol hwn lle nad yw lleisiau ac anghenion menywod ethnig lleiafrifol yn cael eu hystyried mewn polisiau a phrosesau. Mae hyn yn aml yn arwain at fenywod ethnig lleiafrifol "yn syrthio drwy'r bwlch" a'u cyfraniadau sylweddol i gymdeithas ddim yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi'n ddigonol.

Wrth gyflawni newidiadau i wella bywydau pobl menywod ethnig leiafrifol, byddwn felly'n datblygu polisi i sicrhau ymateb mwy cadarnhaol at sicrhau gwell canlyniadau iddynt.

Mae cysylltiadau pwysig â gwaith arall rydym yn ei wneud, a cheir cyfleoedd i ddatblygu ein hagenda wrth-hiliol drwy'r mentrau hyn. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar gyflwyno 'Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus', sy'n cynnwys y canlynol:

Rhan 1: Partneriaeth Gymdeithasol – byddai hyn yn cyflwyno 'Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol' ar bob corff cyhoeddus i bennu amcanion llesiant, ac i ymgynghori â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth eu pennu, ac wrth wneud penderfyniadau strategol i'w cyflawni.

Rhan 2: Gwaith Teg – byddai hyn yn gosod 'Dyletswydd Gwaith Teg' ar Lywodraeth Cymru i bennu amcanion gwaith teg, ac i gymryd camau i'w cyflawni, drwy ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (gweler isod).

Rhan 3: Caffael – byddai hyn yn gosod 'Dyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol' ar gyrff cyhoeddus penodol. Byddai'n rhaid i'r gyrff hyn bennu nodau caffael cymdeithasol gyfrifol ar gyfer llesiant a gwaith teg. Byddent wedyn yn pennu amcanion er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gyflawni'r nodau hyn drwy wariant caffael. Byddai'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi strategaethau caffael blynyddol, a chofrestr contractau.

Rhan 4: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol – byddai hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol teirochrog, yn cynnwys 27 o aelodau â chynrychiolaeth gydradd o blith y llywodraeth, undebau llafur a chyflogwyr. Byddai'n rhoi gwybodaeth a chynghor i Weinidogion am y dyletswyddau. Ni fyddai wedi'i nodi mewn cyfraith; disgwylir y byddai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn llunio cytundebau gwirfoddol, fel strategaethau, egwyddorion neu ganllawiau.

Byddai creu Cymru wrth-hiliol yn y gweithle yn un o ganlyniadau allweddol cytundeb partneriaeth gymdeithasol, a byddai'n effeithio ar argaeledd Gwaith Teg i weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, eu gallu i gael gwaith sicr, gan gynnig cyfleoedd iddynt wneud cynnydd mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle y cânt eu clywed a'u cynrychioli ar ffurf gyfunol, lle y cânt eu gwobrwyo'n deg a lle y caiff hawliau eu parchu.

9. Camau allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn

Cyd-destun y Cynllun Gweithredu

(a) Sefydliadau ac unigolion ar lawr gwlad

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, hoffem gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed eisoes a'r wybodaeth a'r dystiolaeth helaeth a ddarparwyd gan aelodau Fforwm Hil Cymru, sefydliadau hil a sefydliadau cymunedol eraill, TUC Cymru a'r undebau llafur, ymhlith nifer eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y manifestos, y digwyddiadau a'r fforymau a gyflwynwyd gan sefydliadau ac unigolion sy'n gysylltiedig â hil sydd wedi sicrhau bod sylw parhaus a systemig yn cael ei roi i'r heriau sy'n gysylltiedig â hiliaeth.

(b) Y Grŵp Cyngorol Iechyd ar COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, mewn ymateb i effaith anghymesur sylweddol COVID-19 ar grwpiau ethnig lleiafrifol, aeth y Prif Weinidog ati'n gyflym i sefydlu Grŵp Cyngorol Iechyd Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19. Arweiniwyd y grŵp hwn gan y Barnwr Ray Singh. Roedd aelodau ei ddau is-grŵp, sef yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol a'r Is-grŵp Asesu Risg, yn cynnwys arbenigwyr meddygol, academyddion, actifyddion cymunedol a swyddogion polisi. Gweithredodd y ddau yn gyflym i gynhyrchu cyfres o argymhellion⁴ ac Adnodd Asesu Risg⁵. a gafodd ganmoliaeth uchel. Arweinydd yr is-grŵp cyntaf oedd yr Athro Emmanuel Ogbonna ac arweinydd yr ail is-grŵp oedd yr Athro Keshav Singhal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion eang⁶ yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol ac wedi bwrw ati i hyrwyddo'r Adnodd Asesu Risg ar gyfer y Gweithle, i weithwyr iechyd proffesiynol ac i weithluoedd ehangach eraill. Bu'r adnodd yn llwyddiant yng Nghymru ond fe'i mabwysiadwyd hefyd ledled y DU.

Caiff argymhellion yr holl adroddiadau hyn eu cynnwys yn y Cynllun hwn.

(c) Grwpiau Cyngorol ar Gynefin a Henebion

Tynnodd llofruddiaeth George Floyd a thwf y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys sylw llawer o bobl at rai o'r anghysondebau amlwg o ran y cyfleoedd bywyd a gynigir i grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. I Lywodraeth Cymru, arweiniodd y digwyddiadau hyn at ymdeimlad cynyddol bod angen gweithredu ar fyrder. Mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn, a thrafodaethau ynghylch sut y gall ein cwricwlwm newydd adlewyrchu profiadau a chyfraniadau amrywiol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, sefydlwyd dau Grŵp arall er mwyn rhoi cyngor ar sut y dylid ymateb i'r materion hyn.

Mae'r Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Charlotte Williams OBE, wedi cyhoeddi ei adroddiad cyntaf o ddau⁷. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod angen mwy o adnoddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cynnwys cynrychioliadau mwy cadarnhaol, ac sy'n nodi cyfraniadau grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y canfyddiadau yn llwyr.

4 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/grp-cyngorol-bame-y-prif-weinidog-ar-COVID-19-adroddiad-yr-is-grp-economaidd-gymdeithasol.pdf

5 www.llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-COVID-19-ar-gyfer-y-gweithlu

6 www.llyw.cymru/adroddiad-grwp-economaidd-gymdeithasol-bame-COVID-19-ymateb-llywodraeth-cymru.html

7 www.llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-bame-yn-y-cwricwlwm-newydd

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o goffâu yng Nghymru, o dan arweiniad Gaynor Legall, wedi cynhyrchu ei adroddiad cyntaf sy'n nodi pob heneb, stryd ac adeilad yng Nghymru sydd ag enw sy'n gysylltiedig â'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig. Mae hefyd yn sôn rhywfaint am gyfraniadau hanesyddol pobl Ddu i fywyd yng Nghymru⁸.

Datblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Gwyddom drwy wneud yr hyn yr ydym bob amser yn ei wneud, sef bwrw ati fel arfer i ddatblygu cynllun neu strategaeth newydd, y byddai'r hyn a gynhyrchwyd yr un peth â'r hyn a gynhyrchir gennym bob amser, sef dogfen nad oedd y cynulleidfaoedd allweddol yn teimlo perchenogaeth drosti. Roeddem am wneud rhywbeth gwahanol a mwy uchelgeisiol.

Cawsom ein hysgogi ymhellach gan ymrwymiad uwch-weision sifil (o dan arweiniad yr Ysgrifennydd Parhaol) a mentoriaid cymunedol, a chan waith ymgysylltu a wnaed gan grwpiau ethnig lleiafrifol yn eu cymunedau. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith a wnaed gan ein mentoriaid cymunedol a'n grwpiau cymunedol wrth helpu i lywio'r Cynllun drafft ac am y gwaith ymgysylltu a wnaeth aelodau'r Grŵp Llywio ar fanylion themâu penodol yn ogystal â'u gwaith wrth ddarparu cyfeiriad a sylwadau cyffredinol.

Adeiladodd y Grŵp Llywio ar waith da y grwpiau uchod.

Gweithiodd swyddogion gydag EYST hefyd er mwyn annog rhanddeiliaid i nodi beth y byddem yn ei weld, yn ei deimlo ac yn ei wneud yn wahanol erbyn 2030 pe byddem yn llwyddo, er mwyn nodi'r weledigaeth, y diben a'r gwerthoedd rydym yn awyddus i anelu atynt, ac er mwyn nodi Nodau a chamau gweithredu lefel uchel ar gyfer 13 o feysydd polisi ar wahân. Nodir rhagor o fanylion am y ffrydiau gwaith hyn isod.

(a) Croestoriadedd

Mae croestoriadedd yn disgrifio ein hunaniaethau sy'n gorgyffwrdd a'r ffyrdd y maent yn cysylltu â systemau a strwythurau gorthrwm a braint. Mae croestoriadedd yn darparu fframwaith dadansoddol, sy'n ystyried effaith gronol hunaniaethau lluosog. Mae'n ein helpu i ddeall sut y gall profiad pobl â hunaniaethau gwahanol o wasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a chyflogaeth fod yn wahanol.

Rydym wedi ymdrin â rhai o'r materion hyn yn ystod ein hymarfer casglu tystiolaeth, ac wrth ddatblygu'r nodau a'r camau gweithredu, ond rydym yn cydnabod wrth i ni dreiddio'n ddyfnach i'r cynlluniau gweithredu, y bydd angen i ni nodi mwy o gamau gweithredu. Rydym yn gobeithio datblygu'r agwedd hon ar y gwaith drwy'r sgysrsiau a gawn fel rhan o'r ymgynghoriad.

(b) Digwyddiadau pennu gweledigaeth

Er mwyn nodi nodweddion 'llwyddiant' i grwpiau ethnig lleiafrifol pe byddem yn llwyddo i gyflawni'r gwaith hwn, a nodi'r weledigaeth a'r diben (ein galwad i weithredu), gwnaethom weithio gydag EYST ac ar ein pen ein hunain i gynnal sawl digwyddiad cymunedol. Gweler tudalen 24 am ragor o fanylion.

(c) Adolygiadau tystiolaeth cyflym

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad cyflym, i ystyried yr amrywiaeth o adroddiadau, ymchwiliadau, gwaith ymchwil, gwybodaeth gymunedol ac arferion da a gafwyd yn y gorffennol, ac i ganolbwyntio ar feysydd polisi datganoledig. Nododd y Ganolfan y themâu canlynol, a chyflwynodd adroddiad ar gyfer pob un:

- Tai a llety
- Swyddi ac incwm (y cyfeirir at y thema hon y'n ddiweddarach fel Incwm a Chyflogadwyedd)
- Iechyd (corfforol a meddwl) a gofal cymdeithasol
- Addysg, gan gynnwys addysg uwch
- Troseddu a Chyfiawnder
- Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth.

Gwnaethom ddefnyddio'r adroddiadau hyn i ddatblygu camau gweithredu a nodau lefel uchel clir. Gan eu bod yn chwarae rhan allweddol ym mywydau pobl, gwnaethom ychwanegu'r canlynol yn ddiweddarach:

- Diwylliant, y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth
- Llywodraeth leol
- Y Gymraeg
- Yr amgylchedd (er mewn ffordd gyfyngedig am y tro)
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg ac Entrepreneuriaeth fel rhan o Incwm a Chyflogadwyedd.

Gellir gweld adroddiadau unigol Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a'i hadroddiad cryno, yma⁹.

Yn ogystal â'r themâu polisi, gwnaethom nodi rai **materion trawsbynciol** allweddol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Data – sut y cânt eu casglu, eu defnyddio a'u storio, a sut i ennyn ymddiriedaeth ynddynt.
- Sut rydym yn ymgysylltu a sut rydym yn ariannu cymunedau.
- Cynllunio polisiau a rhaglenni a sut rydym yn asesu effaith, a sut y gallem ddefnyddio'r wybodaeth hon i datblygu ymatebion polisi mwy effeithiol.
- Gwasanaethau i unigolion sy'n wynebu hiliaeth.
- Rôl gwirfoddoli anffurfiol.

Gweler y tabl o ran sut mae'r broses Pennu gweledigaeth a'r Nodau yn cyd-fynd â'i gilydd.

Gweledigaeth: "Cymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030."

Diben: "Gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth."

Gwerthoedd: "Bod yn agored ac yn dryloyw, canolbwyntio ar hawliau a chynnwys profiadau bywyd wrth ddatblygu polisi."

Nodau - Meysydd polisi:

Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth	Tai a llety	Incwm a chyflogaeth	Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg	Entrepreneuriaeth
Iechyd	Gofal cymdeithasol	Addysg, gan gynnwys addysg uwch	Troseddu a chyfiawnder	Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon
Llywodraeth leol	Y Gymraeg	Yr amgylchedd		

Nodau trawsbynciol:

Data	Ymgysylltu ac ariannu cymunedau	Asesu effaith er mwyn datblygu polisi gwell	Gwasanaethau i unigolion sy'n wynebu hiliaeth	Rôl gwirfoddoli anffurfiol
------	---------------------------------	---	---	----------------------------

(d) Iaith 'Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol'

Mae'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp amrywiol iawn o bobl, nad oes yn aml lawer iawn yn gyffredin rhyngddynt ac eithrio'r achosion o wahaniaethu y maent yn eu hwynebu, yn fater dadleuol. Cafwyd sawl trafodaeth am y derminoleg y dylid ei defnyddio yn y Cynllun Gweithredu hwn. Roedd yn anodd iawn dod i gytundeb ar y derminoleg fwyaf priodol.

Defnyddir y term 'Sipsiwn, Roma a Theithwyr' i gyfeirio at amrywiaeth eang o grwpiau ethnig, ieithyddol a diwylliannol ac mae'n cynnwys grwpiau diwylliannol fel Teithwyr Newydd, Badwyr, Cychwyr sy'n Byw ar eu Cychod a Phobl Sioe nad ydynt yn lleiafrifoedd ethnig. Mae'r lleiafrifoedd diwylliannol hyn yn wynebu achosion o wahaniaethu a all fod yn debyg o ran eu ffurf a'u cymhelliant i'r hiliaeth y mae Sipsiwn neu Deithwyr neu Roma ethnig lleiafrifol yn ei hwynebu. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfodydd i gyrraedd gwraidd y mater, clywsom dystiolaeth gymhellol bod yr effaith ar **hunaniaeth** yn wahanol i lleiafrifoedd ethnig yma. Nid yw'r Cynllun hwn yn defnyddio'r acronym 'SRT' ('GRT' yn Saesneg) ac mae'n ceisio nodi'n glir bod camau gweithredu yn ymwneud â grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, y mae gan bob un ohonynt ei hunaniaeth a'i heriau penodol.

Fodd bynnag, cytunwyd na ddylid defnyddio 'BAME' fel acronym. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu'n ddiweddar y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio 'BAME' ond y dylid parhau i ddefnyddio 'Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' yn llawn yn ei holl ohebiaeth, a phan gaiff ei dalfyrnu, y dylid defnyddio 'grwpiau ethnig lleiafrifol' (neu gymunedau neu unigolion).

Gan na lwyddwyd i ddod i gytundeb, penderfynodd y Grŵp Llywio fabwysiadu'r un dull gweithredu. Cytunwyd hefyd, lle y bo angen, y gellir ei gwtogi i 'ethnig lleiafrifol'.

(d) Profiad bywyd – Mentoriaid cymunedol

Gwnaethom arbrofi â model o benodi 17 o "fentoriaid cymunedol", am ffioedd isel, a gyflwynodd eu profiad bywyd unigol, a phrofiad bywyd eu cymunedau, i swyddog arweiniol penodol mewn meysydd polisi gwahanol. Penodwyd hefyd dri mentor cymunedol i gynneg cymorth a chyngor i bob swyddog polisi – ar waith yn ymwneud â phlant a theuluoedd, ar waith cymunedol gyda Sipsiwn a Theithwyr, ac ar waith gyda phobl ifanc.

Bydd y mentoriaid yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i ni fireinio'r Cynllun ar ôl yr ymgynghoriad. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y model hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar wneuthurwyr polisi ac ar ein cynigion, a bod y mentoriaid wedi ei werthfawrogi. Byddwn yn parhau i ofyn am adborth wrth i ni symud ymlaen a byddwn yn dysgu o'r dull gweithredu hwn mewn ffordd fwy strwythuredig ac yn edrych i weld sut y gallwn ddatblygu'r model hwn ymhellach.

(f) Profiad bywyd: Deialog wedi'i arwain gan y gymuned a threfniadau i ymgynghori â lleisiau 'nas clywir yn aml'

Dyfarwyd 25 o grantiau Ymgysylltu â'r Gymuned i grwpiau a fforymau cymunedol ledled Cymru er mwyn ariannu gwaith ymgysylltu a oedd yn rhoi cyfle i lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys menywod, pobl ifanc, siaradwyr Cymraeg ac eraill, leisio barn wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob grŵp a weithiodd o fewn y terfynau amser caeth iawn a bennwyd ar gyfer y gwaith ymgysylltu ac adrodd, ac a gyflwynodd wybodaeth ac argymhellion pwerus sydd wedi llywio'r Cynllun hwn. Nodir y themâu allweddol o'u hadroddiadau yn Adran 3, sef 'Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym'.

Ceir rhestr iawn o'r sefydliadau a ariannwyd gennym yn Atodiad 3. Mae'n cynnwys llawer na roddwyd llais uniongyrchol iddynt o bosibl o'r blaen wrth i'r Llywodraeth ddatblygu polisi o'r fath. Comisiynwyd dadansoddiad o'r adroddiadau ymgysylltu â'r gymuned ac mae'n llywio'r Cynllun hwn.

(g) Sesiynau hyfforddi a datblygu

Er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin a rennir o hiliaeth sefydliadol a pham ein bod yn gweithredu mewn ffordd wrth-hiliol mewn perthynas â'r gwaith hwn, comisiynodd yr Ysgrifennydd Parhaol dair sesiwn hyfforddi – un i aelodau ethnig lleiafrifol y Grŵp Llywio, un i'r arweinwyr polisi ac aelodau eraill y Grŵp Llywio, o dan arweiniad yr Arglwydd Simon Woolley, ac un i bob aelod o uwch-wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd gan yr Athro Ogbonna.


(h) 'Sesiynau cyrraedd gwraidd y mater' a 'digwyddiadau bord gron' ar sail themâu polisi

Daethom â'r holl bartneriaid gwahanol sy'n gweithio ar y sail dystiolaeth, ar ddeialogau wedi'u harwain gan y gymuned, aelodau'r grŵp llywio, TUC Cymru, Undebau Llafur, arbenigwyr yn y maes a'r swyddogion polisi arweiniol ar gyfer pob maes polisi ynghyd i gynnal sesiynau 'cyrraedd gwraidd y mater' er mwyn rhannu'r gwahanol fathau o dystiolaeth a llywio'r broses o ddatblygu'r cynllun.

Galluogwyd gwaith mireinio dilynol ar y nodau a'r camau gweithredu yn ystod 'digwyddiadau bord gron'. Drwy drefnu'r digwyddiadau hyn, rhoddwyd cyfle i'r rheini a oedd wedi cymryd rhan yn y sesiynau 'cyrraedd gwraidd y mater', a chyfranogwyr newydd gan gynnwys y mentoriaid cymunedol, weld sut roedd y dystiolaeth a rannwyd ganddynt wedi llywio'r nodau a'r camau gweithredu a oedd yn dod i'r amlwg. Wedyn, helpodd y drafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y sesiynau yr arweinwyr polisi i nodi ble roedd angen iddynt ddatblygu eu cynigion ymhellach ac, mewn rhai achosion, ble roedd angen iddynt ychwanegu themâu newydd neu wneud newidiadau cymharol sylweddol.

Cynhaliwyd pob sesiwn ar-lein, gan alluogi mwy o bobl i gymryd rhan. Yn nodweddiadol, roedd rhwng 35 a 50 o bobl ym mhob sesiwn.

Cynhaliwyd cyfanswm o 19 o sesiynau rhwng 2.5 a 3 awr o hyd.



10. Ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r Nodau

Rydym wedi ymateb i'r heriau allweddol drwy gyd-greu gwahanol fath o Gynllun.

Roedd yr angen i gynhyrchu'r gwaith hwn mewn cyfnod byr o amser yn heriol, ond rydym wedi datblygu nodau a chymau gweithredu ar gyfer pob maes polisi allweddol. Fe'i trafodwyd yn y Cabinet, ac mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, hefyd wedi cynnal cyfarfodydd â Gweinidogion unigol yn y Cabinet er mwyn sicrhau perchenogaeth.

Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys camau gweithredu clir, yn hytrach na strategaeth. Gwnaed hyn mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ac a amlinellwyd yn gynharach. Yn 'yr achos dros newid', gwnaethom gytuno ar rai egwyddorion allweddol i swyddogion polisi wrth ddatblygu'r nodau a'r canlyniadau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffocws ar gamau gweithredu gwrth-hiliol, yn hytrach nag amlddiwylliaeth neu ddulliau gweithredu eraill;
- Cynnwys camau gweithredu o'r argymhellion a wnaed eisoes gan y grwpiau a sefydlwyd gan y Prif Weinidog mewn ymateb i COVID-19 a BLM;
- Ffocws ar y meysydd a nodwyd drwy'r sesiynau cyraedd gwraidd y mater a'r digwyddiadau bord gron, yr adroddiadau a'r mewnbwn ar brofiadau bywyd ac adroddiad(au) Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru;
- Datblygu nodau nid yn unig ar gyfer y gweithlu ond ar gyfer darparu gwasanaethau hefyd;
- Ystyried a oes cyfleoedd i atgyfnerthu gwaith cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio cyfredol, a rolau ombwdsmyr, wrth ymateb i hiliaeth;
- Amlygu – ac adnewyddu – ymrwymadau allweddol mewn cynlluniau sy'n bodoli eisoes a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig;
- Chwilio am ffyrdd y gellir sicrhau bod cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir ganddi yn fwy amlwg e.e. drwy gyhoeddi data, casglu data mwy gronynnog ac ati;
- Nodi a defnyddio ysgogwyr newid eraill e.e. cynyddu cynrychiolaeth, cynnull grwpiau, ariannu'n uniongyrchol neu drwy drydydd partion, deddfwriaeth ac ati;
- Ystyried croestoriadedd ac yn enwedig anghenion menywod a phlant ethnig leiafrifol.
- Nodi canlyniadau allweddol y gellir eu cyflawni o fewn 18 mis i ddechrau;

- Sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y gellir ymgymryd â gwaith drwy Bartneriaeth Gymdeithasol, er mwyn annog proses fwy cadarn ac effeithiol pan fydd cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau, ac er mwyn sicrhau bod creu diwylliant gwrth-hiliol yn greiddiol i'r gwaith hwn.

Mae'r nodau a'r camau gweithredu lefel uchel ar y tudalennau canlynol yn amlinellu'r gwaith a ddatblygwyd ar gyfer pob thema.

Yn olaf, rydym yn barod i ystyried atgyfnerthu'r pwerau deddfwriaethol sydd ar gael neu i ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r pwerau presennol mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn gallu cyflawni gwell canlyniadau. Bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y disgwylir iddi ddechrau ym mis Mawrth 2021, hefyd yn gweithredu fel cyfrwng i newid, felly hefyd gydymffurfiaeth â'r deddfwriaeth gyfredol sydd eisoes ar waith. Rydym hefyd yn ailddechrau ein hadolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a ataliwyd yn 2020 oherwydd y pandemig.

Bydd cynnwys mesurau o'r fath a sefydlu corff annibynnol, y mae ei glych gorchwyl wrthi'n cael ei drafod, yn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu hwn yn wahanol i gynlluniau Cydraddoldeb Hiliol blaenorol; er bod y rheini o bosibl yn cynnwys uchelgeisiau tebyg, roeddent yn aml yn ei chael hi'n anodd cynnal momentwm wrth wynebu amcanion lluosog a oedd yn cystadlu â'i gilydd. Gweler yr adran Llywodraethu am ragor o wybodaeth.

Beth y byddwn yn ei wneud nesaf wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo?

Wrth i'r ymgynghoriad hwn fynd rhagddo, byddwn yn parhau i ddatblygu rhai rhannau allweddol o'r Cynllun Gweithredu gyda'r Grŵp Llywio a swyddogion Llywodraeth Cymru, ac rydym yn croesawu adborth a safbwyntiau ar y materion hyn. Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

Helpu swyddogion polisi i ddatblygu nodau a chamau gweithredu mwy penodol, mesuradwy, cyflawnadwy, dibynadwy â therfynau amser.

Trafod â chydweithwyr sut y gellir datrys materion sy'n ymwneud â natur trefniadau ar gyfer casglu, cadw a defnyddio data ac ymddiriedaeth yn y trefniadau hynny ar draws yr holl feysydd polisi a amlinellwyd gennym.

Datblygu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol, data ac ati er mwyn mesur newid yn y camau gweithredu ar gyfer y Nodau;

Nodi materion sy'n ymwneud â chroestoriadedd ar draws themâu polisi a sut y gellir dangos hynny fwy a chamau gweithredu i gau'r bwlch;

Nodi ysgogwyr allweddol ar gyfer newid ar draws y meysydd polisi, er mwyn sicrhau safbwynt strategol o'r hyn sydd angen ei newid (yn ogystal â chamau gweithredu unigol);

Gwerthuso a nodi sut y byddwn yn datblygu'r model 'mentoriaid cymunedol', er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy.

Bydd yr holl waith hwn yn bwydo i mewn i'r ddogfen derfynol a fydd yn cynnwys eich adborth, ac a fydd yn barod i'w chyhoeddi ym mis Medi 2021.

Rydym yn gofyn i chi wneud y canlynol:

Rydym yn gofyn i chi roi adborth clir i ni ar y Cynllun drafft, yn enwedig adborth ar b'un a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir, ac a oes unrhyw hepgoriadau allweddol.



Adran 2

11. Y Weledigaeth Ddatblygol, Diben, Gwerthoedd a'r Dyfodol a Ragwelir hyd at 2030

Cefndir

Er mwyn datblygu'r weledigaeth hirdymor, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol a ragwelir hyd at 2030 ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, trefnwyd pum digwyddiad i randdeiliaid.

Trefnwyd tri digwyddiad â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru gan EYST. Grŵp cymysg oedd un ohonynt – pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac eraill, roedd un yn cynnwys pobl Ddu ac ethnig leiafrifol ifanc ac roedd un yn ddigwyddiad cymunedol cymysg â phobl hŷn. Yn ogystal, trefnodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad. Roedd un yn cynnwys staff Du ac ethnig leiafrifol o Lywodraeth Cymru ac roedd un yn cynnwys sefydliadau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Llwyddwyd i ymgysylltu â chyfanswm o fwy na 180 o bobl yn ystod y pum digwyddiad.

Gwnaed cyflwyniad byr i'r cyfranogwyr ar gefndir y gwaith. Cawsant eu tywys gan drosiad o daith, sy'n arwain at weledigaeth hirdymor o Gymru yn 2030, a'r hyn y mae angen i ni ei roi ar waith er mwyn gwneud y gwahaniaeth. Gofynnwyd i'r rheini a gymerodd ran 'Sut y gallwn weithredu'r hyn a drafodwn?' a 'Pa werthoedd y bydd eu hangen arnom wrth i ni deithio tuag at Gymru wrth-hiliol?' Gofynnwyd hefyd i'r cyfranogwyr am yr alwad i weithredu – diben y gwaith hwn. Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr dychmygu sut y byddai Cymru yn edrych ac yn teimlo a sut wlad fyddai hi, pe byddai'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn llwyddiannus.

Roedd 'gwrth-hiliol' yn derm a ddefnyddiwyd yn rheolaidd gan y cyfranogwyr. Er mwyn anrhydeddu'r term hwn, mae angen i ni ei esbonio, a defnyddio rhai dyfyniadau mewn dyfynodau lle mae'r cyfranogwyr wedi defnyddio'r geiriau hynny.

Credwn fod a wnelo "gwrth-hiliaeth" ag ymdrechion bwriadol i ddod â hiliaeth systemig a sefydliadol i'r wyneb ac i fynd i'r afael ag ef mewn ffordd weithredol.

Ymddengys bod y term gwrth-hiliaeth yn well na chydraddoldeb hiliol, gan ei fod yn awgrymu ymwybyddiaeth gydwybodol ac ymdrechion cadarnhaol i ymdrin â hiliaeth sefydliadol gan arweinwyr ar bob lefel; mae'n "air grymus a bwriadol" sy'n "tynnu sylw at hiliaeth sefydliadol". Mae'n cydnabod bod rhagfarnau diarwybod yn bodoli: mae'n "cyfleu'r gwir i'r rheini sydd mewn grym".

Credwn y caiff braint pobl Wyn ei hamlygu a hefyd y tynnir sylw at achosion o gamddefnyddio'r fraint hon "wrth wneud i ni deimlo'n israddol", er mwyn dileu hiliaeth sefydliadol. Y gobaith yw y bydd pobl wyn yn "mynd ati i herio (eu braint fel pobl Wyn) ac i gyfoethogi eu hunain (drwy ddangos chwilfrydedd tuag at ddiwylliannau a thraddodiadau sy'n wahanol i'w diwylliannau a'u traddodiadau nhw)" er mwyn "i ni allu teimlo'n gyfforddus yng nghwmni ein gilydd". Rydym wedi sôn am y mater "nad yw neb am ei drafod" ("the elephant in the room"), "am uwchraddoldeb a hawliau pobl wyn i bennu'r rheolau". Rydym "am groesawu'r hyn sy'n ein huno, a theimlo'n gyfforddus â hynny, yn hytrach na'r hyn sy'n ein gwahanu".

Gweledigaeth

Cymru sy'n wrth-hiliol



Ymhlith y prif themâu a ddaeth i'r amlwg, roedd gwrth-hiliaeth yn allweddol, ac felly yn greiddiol i'r gwaith hwn. Roedd themâu eraill yn cynnwys cysyniadau o degwch, cyfiawnder cymdeithasol a dathlu amrywiaeth o bob math.

Roedd y cyfranwyr o'r farn yr hoffent weld Cymru lle ceir "dealltwriaeth a rennir, a chamau gweithredu y cytunwyd amynt" er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol h.y. sut mae hiliaeth wedi bod yn rhan annatod o weithdrefnau sefydliadau y maent yn dod ar eu traws, ac yn parhau felly. Dylid anelu at "creu canlyniadau teg" sy'n "dathlu gwahaniaethau a thebygrwyddau ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol" lle y cawn "ein huno nid ein rhannu gan ein gwahaniaethau".

Roedd y cyfranwyr yn awyddus i weithio "gyda'n gilydd, fel pobl wyn a phobl ethnig lleiafrifol, er mwyn creu Cymru wahanol a gwell ar y cyd".

Diben

Gwneud newid ystyrion i fywydau cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth




Ystyriwyd mai diben y gwaith hwn oedd creu "ymdeimlad o fyrder a newid diwylliannol sy'n golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd" ac "sy'n rhoi'r camau gweithredu a addawyd ar waith" er mwyn lleihau anghydraddoldebau mewn amrywiol feysydd o fewn ein dyletswyddau a'n pwerau.

Awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus gael "sgyrsiau anodd heb ofni unrhyw ddial" er mwyn i ni allu cyflawni'r "newid rydym am ei weld". Roedd pobl yn teimlo mai dim ond drwy fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol, drwy "gyfleu'r gwir i'r rheini sydd mewn grym" a chreu "etifeddiaeth newydd ar gyfer gwrth-hiliaeth sy'n cynnwys canlyniadau teg i'n cymunedau" y gallwn wneud hyn.

Yn ogystal, roedd gobaith cryf y gallem greu "etifeddiaeth newydd o wasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys arweinwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sydd wedi cael cydnabyddiaeth am eu potensial, eu talent a'u cyfraniad unigryw".

Gwerthoedd

Yn y gwerthoedd isod, mae "ni" yn cyfeirio at y cyfranogwyr a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd



1 Profiadau bywyd Rydyn ni'n credu

y dylid "cynnwys" ein profiadau bywyd wrth wraidd pob penderfyniad a wneir yng Nghymru. Mae gennym yr hawl i "gael ein clywed ac i eistedd wrth y prif fwrdd" ac i glywed y penderfyniadau rydych yn eu gwneud amdanom.

Rydyn ni'n credu y dylai ein "heriau; o bob grŵp gwahanol, gael eu clywed fel ffordd o'ch helpu i wneud eich swyddi yn well" ac y dylid "cydnabod ein hanes a'n gorthrwm fwy" gan barchu "baich emosiynol rhannu" ar yr un pryd.

2 Seiliedig ar hawliau Rydyn ni'n credu

ein bod yn gofyn "am ddim ond ein hawliau, yn hytrach na ffafrau" ym mhob peth a wnewch. Mae cyfrifoldeb ar y rheini sydd mewn grym i "sicrhau cyfiawnder", i "orfodi" ac i sicrhau "atebolrwydd" y rheini sy'n gyfrifol am wasanaethau ac am wneud penderfyniadau.

Rydyn ni'n credu erbyn 2030 y dylai pawb gael eu hystyried yn "Gymry", ac "na ddylai hiliaeth, sy'n gadael trawma sy'n effeithio ar iechyd meddwl am flynyddoedd fod yn faich mwyach".

3 Yn agored ac yn dryloyw
Rydyn ni'n credu "y gallwn gyflawni mewn perthynas â chydraddoldeb". Ni ddylai fod "grwpiau poblogaidd" a "grwpiau amhoblogaidd", ond yn lle hynny, Cymru lle y caiff pobl eu gwerthfawrogi am eu talentau a'u profiadau bywyd unigryw sydd, er eu bod yn wahanol, yn gyfwerth â'i gilydd.

Rydyn ni'n credu "y bydd byw mewn man lle y ceir rhyddid i gynnal trafodaethau heriol heb ofni cael eich allgáu o ganlyniad i hiliaeth sefydliadol yn ein rhyddhau".

Y Dyfodol a Ragwelir erbyn 2030

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr ba gyflawniadau y dylem anelu atynt erbyn 2030, os byddwn yn cydweithio er mwyn ymdrin â hiliaeth er budd i bob dinesydd, cafwyd ymatebion gwahanol, yn ôl pob tebyg, gan ddibynnu ar y grwpiau y gofynnwyd iddynt; felly, rhannwyd y datganiadau.

Erbyn 2030, bydd Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol:

- "Peidio â gwneud mwy o addewidion, ond bydd wedi gweithredu, gweithredu, gweithredu!"
- Trin pobl yn wahanol drwy barchu eu gwahaniaeth – nid fel "cymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol monolith".
- Clywed lleisiau cymunedau o Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac wedi gweithredu arnynt.
- Sicrhau "bod ymddwyn mewn ffordd ficro-ymosodgar yn perthyn i'r gorffennol".
- Cynnal sgrysiâu mwy anodd ac wedi "(peidio ag osgoi trafod hil mewn ffordd adeiladol) gan ofni cael eu galw'n hiliol", "wedi rhoi'r gorau i'w hamharoddrwydd i herio, trafod a gofyn cwestiynau".
- Sicrhau eu bod nhw a'r rheini a ariennir ganddynt "yn atebol i'r cyhoedd am gamau gweithredu a addawyd ond nas cyflawnwyd eto".
- Sicrhau bod pob uwch-arweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol i gyflwyno a chefnogi gwaith gwrth-hiliol, gan gynnwys gofyn iddynt gydymffurfio ag ymddygiad gwrthwahaniaethol.
- Sicrhau bod arweinwyr gwyn yn hyderus ynghylch pam bod angen talent Ddu ac Ethnig Leiafrifol arnom, yn hytrach na digio at hynny.
- Gweld nad oes angen targedau ami gan y bydd trefniadau recriwtio da a 'lwybr' recriwtio wedi arwain at weithlu cytbwys a chynrychioliadol.
- Defnyddio profiadau bywyd gwahanol grwpiau o bobl i ymgysylltu, cynnwys a chyd-greu gwahanol atebion creadigol i hen broblemau.
- Cydnabod nad yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifolyn gyfrifol am faich emosiynol hiliaeth, ac na ddylent orfod ysgwyddo'r faich honno.
- Defnyddio'r dulliau ysgogi sydd ar gael iddynt, er enghraifft camau gweithredu cadarnhaol, i'w llawn botensial.

- Cydnabod croestoriadedd ac ymdrin ag ef.
- Dileu rhwystrau fel taliadau, amser i fynychu cyfarfodydd ac eraill er mwyn galluogi cyfranogiad llawn.
- Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a gorfodi eraill i gydymffurfio.
- Sicrhau y caiff cwynion neu bryderon eu clywed, nad achosir i'r dioddefwr deimlo fel y troseddwr, a bod canlyniadau llymach i'r rheini sydd wedi gweithredu mewn modd amhriodol.
- Sicrhau y caiff pobl ethnig leiafrifol eu cynnwys yn ddigidol.

Erbyn 2030, bydd gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector wedi gwneud y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth amlwg ar bob lefel er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau presennol i herio hiliaeth systemig a sefydliadol.
- Cael eu hunangymell i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).
- Newid profiad addysg, ceisio gwaith a datblygiad gyrfa i bobl Ddu ac Ethnig Leiafrifol, er mwyn cau'r "bwlch cyrhaeddiad" mewn addysg a'r "bwlch gwobrwyo" mewn cyflogaeth.
- Darparu gwasanaethau teg sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan gydnabod croestoriadedd a gwahaniaethau ymhlith grwpiau.
- Darparu gweithle diogel a meithringar i bobl ethnig leiafrifol ddatblygu a ffynnu.
- Rhoi'r polisiau y byddant yn cytuno i'w cyflawni ar waith.
- Casglu'r data cywir, sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer mesur cynnydd yn eu herbyn a defnyddio tystiolaeth i nodi ble mae angen gweithredu.
- Cydnabod effaith wahaniaethol hiliaeth mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru.

Erbyn 2030, bydd pobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn gweld ein bod wedi gwneud y canlynol gyda'n gilydd:

- Sicrwydd na fydd troseddau casineb yn y cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, yn digwydd mwyach.
- Gweld y Prif Weinidog Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol cyntaf yn ei swydd.
- Peidio â chael eu hystyried fel “symbolau”, neu fel rhywbeth “sydd o fudd i gydraddoldeb yn unig”, ond yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi am eu talent.
- Gweld cymdeithas ac arweinwyr Gwyn yn gwneud y newidiadau angenrheidiol, heb “roi'r baich ar eu hysgwyddau”.
- Diwylliant lle y byddwn yn “beirniadu pobl am fod yn hiliol” pan fyddwn yn gweld achosion o hynny, a “bod yn ddewr” a “chael sgysiau anodd”.
- “Llwybrau gweladwy a chadarnhaol” o ran datblygiad gyrfa.
- Gweld pobl yn cael eu haddysgu ar bob lefel, ar bob agwedd ar ein holl hanes, er mwyn i ni gyd fod yn ymwybodol o ystyr ‘cellwair’, ac iaith annerbyniol.
- Gweld newidiadau o ran agweddau ac ymddygiad pobl tuag at ei gilydd, camau gweithredu corfforol a grwpiau cyfeillgarwch a mwy o integreiddio a llai o wahanu.
- Gweld athrawon a phenaethiaid yn cymryd ein cwynion am hiliaeth/troseddau casineb o ddifrif, drwy gymryd camau a pheidio â'n beio ni am y peth.
- Mynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol o fewn diwylliant poblogaidd a chwaraeon.
- Gweld na all y cyfryngau “ein gwthio i mewn i flwch mwyach... fel diddanwyr a chaethweision”.
- Sicrhau nad oes yn rhaid i blant o dras gymysg a'u rhieni ddewis cuddio y tu ôl i'r hunaniaeth “pobl wyn” oherwydd hiliaeth.

- Gweld y bydd y stigma sy'n gysylltiedig ag anabled mewn cymunedau ethnig leiafrifol wedi lleihau.
- Sefydlu gwefan ddiennw lle y gall pobl ifanc a phobl hŷn rannu eu profiadau o hiliaeth mewn ffordd ddiogel.

Erbyn 2030, bydd pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac eraill wedi gwneud y canlynol:

- “Rhoi'r gorau i'r ymdrech emosiynol o gefnogi ymddygiad hiliol a hiliaeth sefydliadol”.
- Arfer y pŵer i gael eu cynrychioli mewn ffordd gydnabyddedig a ffurfiol.
- Gweld ceiswyr lloches yn caffael hawliau priodol, gan gynnwys yr hawl i weithio.
- “Cael sgysiau dewr am hiliaeth pobl wyn a hiliaeth wedi'i mewoli”.
- Cydnabod a sicrhau y caiff pob un o'n profiadau bywyd gwahanol (grwpiau gwarchoddedig, crefyddau, ieithoedd, ethnigrwyddau ac ati) “eu clywed ac yr eiriolir drostynt”.
- Gweithio “ar y cyd” a “heb gystadlu”. “Siarad ag un llais”.
- Gweld mwy o “Gymry Gwyn” (gan nodi bod rhai pobl wyn yn bobl ethnig leiafrifol ond mewn dyfynodau yma gan mai dyma'r term a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr) yn dod i adnabod pobl o gefndiroedd “eraill”.
- “Colli'r gorbryder o ddihuno i hiliaeth fel ffaith i mi a'm plant”, ac o “gario'r baich emosiynol sy'n ein hysgogi bob dydd”.
- “Peidio â gorfod gorymdeithio er mwyn cael ein hawliau ac i'n pobl gael eu trin ar sail gyfartal yn hytrach nag ar sail israddol”.
- Gweld “newid yn digwydd” – mwy o gamau gweithredu nag addewidion, drwy arweinyddiaeth amlwg.

- Gweld Llywodraeth Cymru ac eraill “yn osgoi sgil-effeithiau Brexit ar ein cymunedau”.
- Yr “hawl i ofyn am” a “chael gwasanaeth sy'n briodol yn ddiwyllianol – heb orfod brwydro i gael hynny” – y gallwn “ymddiried o ddifrif” yn y gwasanaethau sydd eu hangen amom. Ni fyddwn yn teimlo'n ddiolchgar am wasanaethau sylfaenol, ond yn disgwyl gwasanaethau o ansawdd ac yn eu cael.
- Diogelwch wrth gael gofal preifat gan fod “awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i safonau yn hytrach nag elw”.
- “Diogelwch yn fy ngweithle” gan fod y bobl rwy'n gweithio gyda nhw “yn gwneud yr hyn y dylent ei wneud o ran moeseg, yn hytrach na gwneud yr hyn maent am ei wneud”.
- Sefyllfa lle na ofynnir i bobl mwyach “o ble rwyf ti'n dod” ond y cânt “eu derbyn am eu hymrwymiad i Gymru ac felly y cânt eu hystyried yn Gymry”.
- “y sgysiau ysgogol y mae angen i bobl wyn eu cael” er mwyn dod i delerau â braint pobl wyn a breguster pobl wyn.
- Gwybod bod polisiau yn seiliedig ar dybiaethau neu sgysiau a gafodd arweinwyr, nid dim ond nifer bach o sgysiau, ond gan ystyried amrywiaeth ein holl brofiadau bywyd gwahanol.
- Dim angen i ni frwydro yn erbyn ein gilydd i gael adnoddau gan “ein bod yn credu bod prosesau teg ac agored ar waith a gyd-grëwyd gennym”.
- Hyder ein bod yn cael ein recriwtio ar sail teilyngdod, drwy brosesau sy'n dryloyw ac yn agored, ac nad oes angen i ni brofi ein hunain yn barhaus na chael ein penodi fel “symbol Du” er mwyn gwneud i'r gwasanaeth edrych yn well.

12. Trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu

Wrth ddechrau ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn, roedd neges glir iawn y dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu a chyflawni ystyrion. Felly, mae'n hanfodol bod y trefniadau llywodraethu yn galluogi hyn i ddigwydd ac i uchelgeisiau'r cynllun gael eu cyflawni.

Dywedwyd wrthym hefyd y gall ein trefniadau llywodraethu weithiau deimlo'n allgynhwysol yn hytrach na chynhwysol ac y gallant greu anghydbwysedd pŵer, yn enwedig i'r grwpiau hynny sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys.

Felly mae angen lefel gadarn o awdurdod a phŵer ar y fframwaith llywodraethu er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol eu cyflawni, gan greu amgylchedd galluogol a chymell pobl i weithredu. .

Rydym yn bwriadu newid enw'r Grŵp Llywio, a fu'n goruchwyllo'r broses o ddatblygu'r cynllun, a defnyddio'r enw Grŵp Atebolrwydd. Prif ddiben y Grŵp hwn fydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus ac eraill yn atebol am eu hymrwymiaadau a'u camau gweithredu mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol/gwrth-hiliaeth fel y nodir yn y Cynllun. Bydd y Grŵp yn asesu i ba raddau y gwneir cynnydd tuag at y weledigaeth. Bydd y Grŵp yn rhoi cyngor ar unrhyw feysydd y mae angen eu hystyried, yn ei farn ef, yn seiliedig ar lwyddiant a heriau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Rydym yn cynnig y bydd cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys y canlynol:

- Asesu, herio ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r weledigaeth drwy roi'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun ar waith, gan sicrhau bod cynnydd yn gwneud gwahaniaeth perthnasol i brofiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru;
- Goruchwyllo'r broses o gyflawni gwaith ehangach, gan gynnwys ymrwymiaadau a wneir mewn ymateb i'r adroddiad economaidd-gymdeithasol, Is-grŵp yr Adnodd Asesu Risg ac ati;
- Nodi a gwneud argymhellion mewn perthynas â themâu a chamau gweithredu newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwneud cynnydd tuag at y weledigaeth a hyrwyddo arferion da;
- Gwneud cais am adolygiadau a gwybodaeth, gan gynnwys data caled a meddal, os bydd pryderon am batrymau o hiliaeth;
- Gwneud argymhellion ar gyfer atgyfnerthu unrhyw ddulliau ysgogi o fewn y Llywodraeth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud cynnydd mewn perthynas â gwrth-hiliaeth;
- Cyhoeddi datganiadau cynnydd cyhoeddus.

Un o'r negeseuon cryf a ddaeth i'r amlwg wrth ddatblygu'r Cynllun yw y dylai'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'i roi ar waith gymell pobl i weithredu. Cynigir y dylai gwaith y Grŵp gael ei gefnogi gan gyfres gytûn o fesurau cynnydd, wedi'u hategu gan ddulliau ysgogi ac adnoddau penodol a ddefnyddir i ysgogi newid a chyfeirio sylw ac adnoddau. Gwneir gwaith pellach i bennu'r mesurau cynnydd a'r adnoddau a'r dulliau a fydd yn ysgogi newid mewn perthynas â'r mesurau hynny. Mae'r Cynllun Gweithredu eisoes yn cynnwys enghreifftiau, er enghraifft mewn perthynas ag arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a phrofiad y gweithlu, ond byddwn yn dod â'r enghreifftiau hyn ynghyd i greu un fframwaith atebolrwydd. Bydd yn ein helpu i ysgogi cynnydd a'i asesu.

Un o gryfderau'r broses o ddatblygu'r Cynllun hwn oedd y cyfuniad o ddata a gwaith ymchwil ochr yn ochr â phrofiadau bywyd wrth gyflwyno'r Cynllun. Bu'r dystiolaeth a glywyd yn bwerus, a bydd y lleisiau hyn yr un mor bwysig â'r data a gesglir wrth ystyried cyflawniad a chynnydd yn erbyn y Cynllun. Rydym am sicrhau y caiff ein dealltwriaeth o ba mor dda rydym yn gweithredu'r cynllun ei llywio gan leisiau pobl. Byddwn yn ystyried y ffordd orau y gallwn wneud hyn, gan ddysgu o'n profiad wrth ddatblygu'r cynllun.

Yn ogystal, rydym yn cwmpasu cylch gwaith Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ac Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd yn dirwyn i ben erbyn diwedd mis Ebrill er mwyn i ni allu cyflwyno opsiynau i'r llywodraeth newydd. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu data a gwaith dadansoddi a all ddangos effaith y Cynllun ac wrth nodi ble y mae angen cymryd camau pellach. Disgwylir y bydd yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil hefyd yn gallu darparu dadansoddiadau o unrhyw heriau newydd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar gyflawni'r weledigaeth a'r nodau. Gallai'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil hefyd chwarae rhan wrth rannu arferion da ar draws gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt.

Rydym yn bwriadu pontio o'r trefniadau presennol i'r trefniadau newydd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn wrth i'r cynllun hwn gael ei gwblhau ar ei ffurf derfynol.



13. Nodau polisi, camau gweithredu, terfynau amser a chanlyniadau

- a. Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth
- b. Llywodraeth leol
- c. Iechyd
- d. Gofal cymdeithasol
- e. Addysg
- f. Incwm a chyflogaeth
- g. Partneriaeth gymdeithasol a Gwaith Teg (rhan o Incwm a Chyflogaeth)
- h. Entrepreneuriaeth (rhan o Incwm a Chyflogaeth)
- i. Tai a llety
- j. Diwylliant, y Celfyddydau, Treftadaeth a Chwaraeon
- k. Agweddau atgas, Troseddu a Chyfiawnder
- l. Y Gymraeg
- m. Yr amgylchedd
- n. Nodau a chamau gweithredu trawsbynciol

Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth

“Os ydych am i aelodau o’r gymuned ddod a bod yn rhan o’r sefydliad, mae angen i’r sefydliad fod yn sefydliad y mae pobl am fod yn rhan ohono ...”

Actifydd cymunedol

Mae pwysigrwydd arweinyddiaeth a chynrychiolaeth wrth fynd i’r afael â hiliaeth yn thema gyson o fewn adroddiadau am brofiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae ymchwil i’r hyn sy’n arwain at lwyddiant wrth sicrhau gwell canlyniadau i bobl ethnig leiafrifol yn nodi’n gyson yr angen am y canlynol:

- i uwch **arweinwyr** weithredu mewn ffordd wrth-hiliol, cymryd rhan lawn wrth fynd i’r afael â hiliaeth ac arwain drwy esiampl;
- **cynrychiolaeth** briodol o bob cymuned o fewn sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau preifat a sefydliadau’r trydydd sector ar bob lefel, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau. Drwy adlewyrchu Cymru wrth redeg Cymru, byddwn yn gwneud gwell penderfyniadau. Ac mae angen i ni fanteisio ar yr holl dalent o bob rhan o’n cymunedau ar bob lefel o’n sefydliadau er mwyn dod yn fwy effeithiol.

Rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, wedi gwrandao ac rydym yn deall nad yw’r pethau hyn ar waith ar hyn o bryd. Rydym am gymryd camau cadarnhaol nawr ac, fel sy’n ofynnol yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, sicrhau bod cydraddoldeb hiliol wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd hyn o fudd i bobl ethnig leiafrifol ond hefyd i bawb yng Nghymru.

Fel Llywodraeth, byddwn yn dod yn esiampl o weithle sy’n adlewyrchu ein poblogaeth Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac yn sicrhau bod prosesau teg ac agored ar waith wrth recriwtio unigolion i’n cyrrff sy’n gwneud penderfyniadau. Byddwn yn adolygu ac yn gwella ein prosesau recriwtio a dethol, yn sicrhau trefniadau sefydlu da, cymorth parhaus effeithiol a chyfleoedd ar gyfer datblygu a gwneud cynnydd. Mae’n hanfodol cymryd camau i sicrhau y caiff y rheini a gaiff eu recriwtio eu cefnogi, eu cynnwys a’u cadw a’n bod yn mynd i’r afael â’r broblem nad oes gan fenywod ethnig leiafrifol gynrychiolaeth ddigonol mewn rolau arwain yng Nghymru.

Byddwn yn ymdrin â’r hyn y bydd cyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyflogwyr yn ei wneud i sicrhau bod ein gweithleoedd yn ddiogel ac yn gynhwysol, a fydd yn galluogi pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i ymuno, cael eu cefnogi a’u datblygu a ffynnu o ganlyniad i hynny. Byddwn yn adolygu ein dull gweithredu a’n polisiau ar gyfer y gweithlu o’r adeg dangos diddordeb – pan fydd pobl yn dod yn ymwybodol o’r posibilrwydd o weithio mewn sefydliad – hyd at yr adeg ymadael.

Rydym yn deall nad yw recriwtio mwy o staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol ynddo’i hun yn ddigon – mae angen i ni greu amgylchedd lle y gallant ffynnu a lle nad oes yn rhaid iddynt ysgwyddo’r baich o fod yn wrth-hiliol ar eu pen eu hunain. Mae angen i bob aelod o staff ddeall nodweddion sefydliad gwrth-hiliol a sut mae’n gweithio orau. Felly, byddwn yn gweithio gyda phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol er mwyn helpu i ddeall ystyr gwrth-hiliaeth, pam mae’n bwysig a sut y mae angen i bob un ohonom ymddwyn mewn ffyrdd gwrth-hiliol.

Rydym yn cydnabod cyfrifoldebau’r sector cyhoeddus nid yn unig fel cyflogwr ond hefyd fel gwneuthurwyr polisiau, cyllidwyr gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff y trydydd sector, a chaffaelwyr nwyddau a gwasanaethau pwysig o’r sector preifat. Rydym wedi clywed tystiolaeth bwerus gan lawer o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol bod eu profiad bywyd o wasanaethau cyhoeddus yn eu dadrymuso ac yn bychanu eu hunanbarch, eu sgiliau a’u talentau. Rydym yn bwriadu rhoi mecanweithiau ar waith sy’n sicrhau ein bod yn cynnal asesiadau effaith ar gyfer pob un o’n polisiau sy’n effeithiol ac sy’n cyfrannu at well gwasanaethau i’r cymunedau hyn. Byddwn hefyd yn defnyddio ein grym gwario i ysgogi gwelliannau o ran arweinyddiaeth a chynrychiolaeth yn y sefydliadau rydym yn eu cyllido ac yn prynu ganddynt.

I sicrhau canlyniadau gwell, mae’n hanfodol ein bod yn parhau i wrando ar brofiadau bywyd pobl ac amrywiaeth meddwl yng Nghymru. Rhaid hefyd ganolbwyntio ar y dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth am brofiadau gwahaniaethol menywod o leiafrifoedd ethnig, sy’n adeiladu ar waith fel yr adroddiad *Running Against the Wind*¹⁰, a gynhyrchwyd ar y cyd gan Rwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig a Rhwydwaith Menywod Ynghyd Llywodraeth Cymru a oedd yn dadansoddi profiadau staff o ran hil, rhywedd a rhyngblethedd yng nghyd-destun mudiad Mae Bywydau Du o Bwys. Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn meithrin dealltwriaeth sylfaenol o brofiadau bywyd staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn y sector cyhoeddus a safbwyntiau rheolwyr wrth reoli a datblygu staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, yn ogystal â data tryloyw a chyson. Wedyn, byddwn ni ac eraill yn gallu mesur llwyddiant yn eu herbryn.


Byddwn yn cyhoeddi data bob blwyddyn ar nifer y cwynion gan bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac yn eu herbyn, a byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad cyhoeddus ar y canlyniadau. Byddwn yn cyd-awduru'r data ac yn eu cyflwyno i ddechrau i'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol cyn cyflwyno'r broses i bob corff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus yn fwy atebol yn bersonol am wella cynrychiolaeth ac am sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn wrth-hiliol gan nodi disgwyliau clar o ran perfformiad a chymhellion a sancsiynau priodol. Fel rhan o hyn, byddwn yn rhoi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Byrddau Cyhoeddus (2020) ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd ac aelod o Fwrdd lunio dangosyddion perfformiad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd gwella canlyniadau cydraddoldeb hiliol yn briodol.

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth yn berthnasol i fwy na dim ond uwch-arweinwyr o fewn cyrff cyhoeddus, ac mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn annog y cyfraniad hanfodol a wneir gan arweinwyr cymunedol. Yn ogystal â'u helpu i ddarparu llais effeithiol i'w cymunedau, mae cefnogi arweinwyr cymunedol a meithrin eu gallu a chynnal yr adnoddau sydd ar gael iddynt hefyd yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac yn ei dro, hefyd yn cefnogi gwaith gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn galluogi darpariaeth dysgu a datblygu wedi'i chynllunio ar y cyd ac yn ei rhoi ar waith, yn ogystal â chymorth arall i arweinwyr cymunedol, ac yn cysylltu hyn â thwf cyflenwad o unigolion ar gyfer

penodiadau cyhoeddus ac ar gyfer swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn cydnabod bod llawer yn cyfrannu gan roi o'u hamser eu hunain ac yn aml gan dalu'r gost ariannol gysylltiedig eu hunain. Byddwn yn ceisio rhoi cydnabyddiaeth ariannol iddynt am eu hymdrechion lle y bo'n bosibl ac yn briodol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydledig i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth o fewn democratiaeth ledled Cymru. Dylai ein democratiaeth gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, gan fod hyn yn hanfodol er mwyn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd ac er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn. Mae democratiaeth sy'n cynnwys aelodaeth amrywiol ac sy'n ymgysylltu'n llawn ag amrywiaeth ei chymunedau yn ddemocratiaeth gryfach a bydd yn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn anghenion ei chymunedau yn well. Nodir ein hymrwymiaid allweddol i atgyfnerthu cynrychiolaeth a chyfranogiad yn ein democratiaeth yn adran Llywodraeth Leol y cynllun hwn, ond byddwn hefyd yn anelu at ddechrau sgysiau ar y lefel genedlaethol.



Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>1. Mae gweithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru o leiaf yn cynrychioli'r boblogaeth a wasanaethir ganddo yn briodol.</p>	<p>Cyfarfod ag arweinwyr pob corff cyhoeddus er mwyn cytuno ar y data sydd eu hangen, sut y cânt eu casglu, a'r ffactorau sy'n ein hatal rhag eu casglu a chytuno ar un system ar gyfer cyhoeddi'r data hynny.</p> <p>Cyfarfod ag arbenigwyr dadansoddol o Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gyson â threfniadau casglu a dadansoddi data ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus.</p> <p>Nodi'r fethodoleg arfaethedig, yr amserlen a ble y caiff y data eu cyhoeddi. Grŵp Atebolrwydd CGCH i gytuno ar y manylion cyn cyflwyno.</p>	Tymor byr	Bydd pob corff cyhoeddus yng Nghymru wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyhoeddi data amrywiaeth cywir ac amserol.
	<p>Hysbysu'r gwasanaethau cyhoeddus am yr amserlenni a lleoliad cyhoeddiadau mewn digon o amser iddynt weithredu.</p>	Tymor canolig	Bydd pob corff cyhoeddus wedi cyhoeddi data ar y bwlch cyflog ethnigrwydd
	<p>Cynnull cyfarfod â phenaethiaid/Prif Swyddogion Gweithredol allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn deall egwyddorion gweithredu cadarnhaol, pa heriau y maent yn eu hwynebu, yn eu barn nhw, wrth recriwtio mwy o staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol a chytuno ar y cyd a oes angen un targed unigol ar gyfer pob corff cyhoeddus neu dargedau fel y'u nodir gan bob corff cyhoeddus.</p> <p>Hysbysu'r gwasanaethau cyhoeddus am y cytundeb o ran targedau er mwyn iddynt allu dechrau cymryd camau gweithredu cadarnhaol. Caiff y targedau hyn eu mynegi ar ffurf 'erbyn 202x, bydd y% o'r bobl a gaiff eu recriwtio gennym yn bobl ethnig leiafrifol', gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y rhywiau.</p>	Tymor canolig	Bydd pob corff sector cyhoeddus yng Nghymru nad oedd ganddo weithlu cynrychioliadol wedi pennu targedau ar gyfer recriwtio gweithlu mwy amrywiol.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Llywodraeth Cymru i roi tîm ‘amrywiaeth ym maes recriwtio’ ar waith er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd â gwaith allgymorth wedi’i dargedu • Llunio canllawiau i reolwyr llinell, penaethiaid proffesiynau a Phartneriaid Busnes Adnoddau Dynol • Monitro pob cyfle recriwtio er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnig, ei hysbysebu a’i hyrwyddo mewn ffordd deg a chyson, gan gynnwys i unigolion â nodweddion gwarchoddedig a gweithwyr rhan amser <p>Caiff newidiadau eu gwneud i arferion recriwtio a fydd yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu archwiliad allanol untro o holl bolisiau a phrosesau Llywodraeth Cymru; o’r adeg dangos diddordeb hyd at yr adeg ymadael mewn perthynas â pholisiau recriwtio, dethol, gwneud cynnydd, ymadael a pholisiau cysylltiedig ac o brofiadau bywyd staff ethnig lleiafrifol a sampl o reolwyr. • Bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â phobl a phrofiad bywyd, yn adolygu ein darpariaeth dysgu a datblygu o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth) ac yn caffael cyfleoedd dysgu a datblygu penodol o ansawdd uchel er mwyn gwella sgiliau grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli a’u grymuso. • Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig pecyn dysgu a datblygu i Weinidogion sy’n ymuno â’r Cabinet newydd a fydd yn cynnwys elfennau gwrth-hiliaeth. • Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa safonau a gaiff eu mabwysiadu er mwyn sicrhau paneli amrywiol, gan gynnwys trefniadau recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol o baneli ar gyfer penodiadau Uwch-weision Sifil, ac yn arbennig gynrychiolaeth ethnig lleiafrifol ar baneli cyfweld. 	<p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Bydd y newidiadau a roddwyd ar waith yn gwella canlyniadau i bobl ethnig leiafrifol, a bydd gweithdrefnau sefydledig ar waith er mwyn sicrhau bod y rheini sydd am weithio yn Llywodraeth Cymru yn ymddiried yn yr arferion recriwtio a bod yr arferion recriwtio hynny yn parhau i fod yn wrth-hiliol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn yn penodi staff o bob rhan o'r sefydliad sy'n dangos esiampl o arweinyddiaeth gynhwysol ac arferion gweithio hyblyg i fod yn fodolau rôl ac yn eiriolwyr, drwy rannu eu straeon a'u profiadau.	Tymor byr	Bydd straeon am arweinyddiaeth gynhwysol lwyddiannus wedi ysbrydoli eraill.
	Byddwn yn rhoi dull cyhoeddi rhagweithiol ar waith ar gyfer data amrywiaeth ym maes recriwtio er mwyn gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnydd yn erbyn ein targedau llif newydd. • Monitro amrywiaeth ymgeiswyr i raglenni recriwtio a hysbysebion swydd unigol er mwyn mesur cynnydd yn erbyn ein targedau. • Monitro ble y gwnaeth ymgeiswyr am swydd weld neu glywed am y swydd wag. 	Tymor byr	Caiff targedau recriwtio a data amrywiaeth ym maes recriwtio eu cyhoeddi i bawb eu gweld ac er mwyn llywio'r camau nesaf i sicrhau gwelliant.
	Byddwn yn datblygu cynllun lleoliadau a llwybrau a fydd yn cynnwys cynlluniau wedi'u targedu er mwyn galluogi pobl ethnig leiafrifol fel grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i ymgymryd â phrofiad gwaith a'n helpu i ddatblygu cyflenwad o gyflogeion ar gyfer y dyfodol.	Tymor byr	Mae'r cynllun lleoliadau a llwybrau sydd ar waith wedi annog ceisiadau ac wedi arwain at ymdrechion llwyddiannus i recriwtio pobl ethnig leiafrifol.
	Llywodraeth Cymru i gyd-gynllunio rhaglen o weithgareddau gydag aelodau o staff ethnig lleiafrifol er mwyn gallu nodi a meithrin talent, a chyflymu cynnydd. Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Sut y bydd yn mynd ati i nodi mwy o dalent a modelau rôl ethnig lleiafrifol. • Nodi rhaglenni datblygu penodol ar gyfer pobl ethnig leiafrifol, wedi'u cyd-gynllunio â nhw, a darparu adnoddau ar gyfer y rhaglenni hynny; • Rhoi rhaglen mentora, hyfforddi a noddi ar waith; • Rhoi gweithdrefnau ar waith a fydd yn ein galluogi i fonitro a yw cyfleoedd ar gyfer gwneud cynnydd yn agored ac yn deg. 		<ul style="list-style-type: none"> • Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnig ac wedi dechrau rhoi dull gweithredu ar waith a fydd yn gwneud y canlynol • Nodi talent a modelau rôl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol mewn ffordd fwy gweithredol; • Rhaglenni datblygu penodol ar gyfer pobl ethnig leiafrifol, wedi'u cyd-gynllunio â nhw; • Rhaglen waith ar gyfer mentora, hyfforddi a noddi; • Sicrhau cyfleoedd cynnydd agored a theg • Mae staff ethnig leiafrifol yr un mor debygol â chael dyrchafiad â staff gwyn o leiaf, mae llwybrau cynnydd wedi'u diffinio'n glir ac yn hygyrch ac ati e.e. pyrth dyrchafu.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>2. Mae uwch-arweinwyr byrddau cyrff cyhoeddus o leiaf yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru</p>	<p>Mae arweinydd pob corff cyhoeddus yn bersonol atebol am sicrhau gweithlu cynrychioliadol a gweithleoedd cynhwysol sy'n ddiogel yn seicolegol, ac am gynnig cymhellion priodol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Mae arweinydd pob corff cyhoeddus yn bersonol atebol am sicrhau gweithlu cynrychioliadol a gweithleoedd cynhwysol sy'n ddiogel yn seicolegol.</p>
	<p>Rhoi Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus 2020 ar waith, gan gynnwys::</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadeiryddion pob corff rheoleiddiedig i sicrhau bod gan bob aelod o'r Bwrdd (gan gynnwys nhw eu hunain) amcan amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn cynnwys gwrth-hiliaeth fel rhan o'u system rheoli perfformiad. Byrddau i gynnal trafodaeth am amcanion amrywiaeth a chynhwysiant ac amcanion Cadeiryddion i gael eu trafod gan grwpiau rhanddeiliaid perthnasol a Gweinidogion i gytuno arnynt. • Bydd y Tim Penodiadau Cyhoeddus yn cyflwyno adroddiad blynyddol arnynt i'r Grŵp Atebolrwydd • Prif Swyddogion Gweithredol pob corff cyhoeddus i nodi un amcan cynhwysiant ac amrywiaeth, sy'n canolbwyntio ar wrth-hiliaeth. • Swyddogion iechyd i ddatblygu rhaglen gyswllt i'r bwrdd drwy ymgynghori â'r Tim Penodiadau Cyhoeddus lle y caiff pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol eu gwahodd i ymuno â bwrdd iechyd am gyfnod o 6 mis. Defnyddir y rhaglen fel peilot a chaiff ei gwerthuso gan swyddogion iechyd a'i chyflwyno i'r corff llywodraethu ar gyfer CGCH er mwyn iddo graffu arni a'i hatgyfnerthu cyn ei chyflwyno i fyrddau cyrff cyhoeddus eraill. • Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus i ystyried a ddylai'r dull gweithredu hwn gynnwys pob grŵp gwarchodedig ac os felly, pa newidiadau y gall fod eu hangen ar gyfer grwpiau gwarchodedig gwahanol. 	<p>Tymor byr</p>	<p>Bydd gan bob uwch arweinydd mewn gwasanaethau cyhoeddus ddangosyddion perfformiad sy'n adlewyrchu agwedd ar wrth-hiliaeth a byddant wedi cael eu cefnogi (drwy hyfforddiant a datblygiad a ffyrdd eraill) i gyflawni hyn.</p> <p>Cynllun peilot aelodau cyswllt o'r Bwrdd ar gyfer Byrddau Iechyd wedi'i ddatblygu a'i gyflawni, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd i'w ehangu.</p> <p>Byddai cadeiryddion, aelodau Paneli sy'n recriwtio ac aelodau byrddau wedi cael hyfforddiant mewn gwrth-hiliaeth.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff cyfres o hyfforddiant ei chaffael mewn perthynas â'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth i Gadeiryddion, i aelodau Paneli sy'n recriwtio ar gyfer penodiadau ac i fyrddau cyrff cyhoeddus yng Nghymru. 		
	Gofynnir i bob corff rheoleiddiedig benodi hyrwyddwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar ei Fwrdd – bydd y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn llunio rhestr ohonynt ac yn trefnu cyfarfod rheolaidd i'w cefnogi.	Tymor byr	Bydd gan bob corff cyhoeddus hyrwyddwr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar lefel y Bwrdd. Bydd y Tîm Penodiadau Cyhoeddus wedi cynnull cyfarfod cymorth i bob hyrwyddwr.
	Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal peilot o Fwrdd cysgodol ag aelodaeth o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, gan anelu at ddysgu gwersi am sut i wella amrywiaeth ein fforymau gwneud penderfyniadau.	Tymor byr	Bydd dull gweithredu'r Bwrdd Cysgodol wedi cynnig gwersi i'w dysgu, a bydd camau wedi'u cymryd i weithredu ar y gwersi hynny er mwyn gwella amrywiaeth fforymau gwneud penderfyniadau.
3. Mae pobl mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn wrth-hiliol, ac ni chaiff unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb ei oddef (yn y gweithle, wrth ddarparu gwasanaethau ac ati) a byddant yn darparu amgylchedd diogel a chynhwysol i bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.	<p>Adolygu ac adnewyddu Fframwaith Ymddygiad Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus gydag academyddion ethnig lleiafrifol allweddol ac aelodau'r Grŵp Llywio ac unrhyw bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol eraill a all gyfrannu at y broses.</p> <p>Academi Cymru i gyflwyno newidiadau arfaethedig i Grŵp Atebolrwydd y CGCH cyn cyhoeddi'r cynllun a'i anfon at bob arweinydd cyhoeddus yng Nghymru.</p>	Tymor byr	Ceir dealltwriaeth gyffredin ledled Cymru o'r safonau yng Nghymru ar gyfer ymddygiad arwain gwrth-hiliol o fewn gwasanaethau cyhoeddus.
	<p>Llai o risg wrth leisio barn, codi pryderon a gwneud camgymeriadau yn y gwaith, gan gynnwys drwy roi systemau cwyno mwy effeithiol ar waith mewn perthynas â hiliaeth, cefnogi achwynyddion a chyhoeddi data rheolaidd ar gwynion.</p> <p>Grymuso staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i godi pryderon a rhannu profiadau a syniadau, gan gynnwys noddi a chefnogi rhwydweithiau staff.</p>	<p>Tymor canolig</p> <p>Tymor byr</p>	Caiff staff ethnig lleiafrifol eu grymuso i leisio barn, gan wybod y caiff eu lleisiau eu clywed ac y bydd eu safbwyntiau yn weladwy ac yn cael eu cyfleu.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Mynd i'r afael ag achosion o ficro-ymosodedd, annog cynghreiriau ac annog gwylwyr tawel i ymyrryd, gan gyflwyno darpariaeth dysgu a datblygu orfodol a pharhaus i dimau ar gyfer pob rheolwr canol a'r rheini y maent yn eu rheoli er mwyn meithrin gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â gweithio mewn ffordd wrth-hiliol.	Tymor canolig	Mae rheolwyr yn Llywodraeth Cymru yn deall eu rhagfarnau ac yn cydnabod bod hiliaeth sefydliadol yn bodoli ac ym mha ffyrdd y mae'n bodoli. Maent yn cymryd cyfrifoldeb unigol am ymdrin â hiliaeth drwy feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain
	Caiff archwiliadau rheolaidd gan arbenigwyr annibynnol allanol er mwyn asesu profiad bywyd staff a defnyddwyr gwasanaethau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol eu cyhoeddi, gyda chynllun gweithredu er mwyn ymateb i argymhellion	Tymor byr	Bod pobl nad ydynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut beth ydyw, ei fod yn wrth-hiliol, a'u bod yn cael eu hannog i ddod yn rhan ohono
	Byddwn yn cynnal digwyddiadau i nodi profiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn Llywodraeth Cymru a chymunedau ethnig lleiafrifol yn ein grwpiau rhanddeiliaid er mwyn nodi'r newid y mae angen i ni ei wneud er mwyn dod yn sefydliad gwrth-hiliol, gan hyrwyddo diwylliant cadarn o herio mewn perthynas â gwrth-hiliaeth er mwyn sicrhau bod cydweithwyr ar bob lefel o'r sefydliad yn teimlo y gallant herio achosion o hiliaeth.	Tymor byr	Newid diwylliant tuag at wrth-hiliaeth sy'n dangos y caiff hiliaeth ei herio pan gaiff ei gweld.
	Mewn partneriaeth â phobl â phrofiad bywyd, byddwn yn adolygu ein darpariaeth dysgu a datblygu o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (gan gynnwys Hyfforddi a Mentora) ac yn caffael cyfleoedd dysgu a datblygu penodol o ansawdd uchel er mwyn gwella sgiliau staff ethnig lleiafrifol a'u grymuso.	Tymor byr	Bydd darpariaeth dysgu a datblygu wedi'i chyd-gynllunio ar gael i staff ethnig lleiafrifol a byddant yn mynegi lefelau boddhad uchel yn ei chylch.
	Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen amynt i ddod yn arweinwyr ac yn aelodau o dimau gwrth-hiliol, i ddeall micro-ymddygiad ac ymddygiad annerbyniol.	Tymor byr	Bydd hyfforddiant gwrth-hiliaeth da ar gael i'r staff a byddant yn deall beth yw micro-ymosodedd

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn yn yn sicrhau bod yr Uwch Wasanaeth Sifil yn meddu ar y sgiliau a'r hyder i hyrwyddo Arweinyddiaeth Wrth-hiliol, ac yn eu galluogi i ddangos ymddygiad sy'n cefnogi gwrth-hiliaeth yn eu harferion arwain ac wrth roi polisiau ar waith/gweithredu.	Tymor byr	Bydd yr Uwch Wasanaeth Sifil yn teimlo eu bod yn gallu deall hiliaeth sefydliadol, ei chynnwys fel rhan o'u hamcan cydraddoldeb strategol (gan ganolbwyntio ar elfennau wrth-hiliaeth) a sut i'w dadansoddi er mwyn gweithredu fel modelau rôl.
	Byddwn yn lansio rownd newydd o'r rhaglen Mentora o Chwith ar gyfer staff yr Uwch Wasanaeth Sifil	Tymor byr	Wedi galluogi aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil i feithrin gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae grwpiau ethnig lleiafrifol yn eu hwynebu. Hefyd wedi ystyried ffyrdd eraill mwy anffurfiol o rannu profiadau bywyd.
4. Mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio eu grym gwario i wella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.	Sicrhau bod prosesau grantiau a phrosesau caffael yn wrth-hiliol.	Hirdymor	Mae gwrth-hiliaeth bob amser yn faen prawf/ystyriaeth allweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru wrth ddewis pwy ddylai gael yr arian neu wasanaethau pwy y dylid eu prynu.
	Defnyddio amodau grantiau a chaffael cyhoeddus i gymell sefydliadau eraill i wella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth a gwrth-hiliaeth yn fwy cyffredinol.	Hirdymor	
	Byddwn yn datblygu ein cyfrifiad ar gyfer y bwllch cyflog ethnigrwydd wrth i ni aros am ganllawiau gan Lywodraeth y DU yn ei gylch. Byddwn yn defnyddio'r data hyn yn fewnol yn 2021-22 ac yn ymrwmo i gyhoeddi bylchau cyflog ethnigrwydd yn 2022-23.		Caiff data bylchau cyflog ethnigrwydd eu cyhoeddi at ddefnydd mewnol erbyn 2022. Caiff yr ymrwymiad i gyhoeddi data ethnigrwydd ei wireddu yn 2023

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>5. Cefnogir arweinyddiaeth gan bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru drwy sicrhau rhaglenni datblygu ar gyfer arweinwyr o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, gyda'r bwriad o greu cynnig ehangach i arweinwyr cymunedol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.</p>	<p>Gwella'r ddarpariaeth dysgu a datblygu ar gyfer arweinwyr cymunedol, drwy sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol sydd ar gael ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig mewn sefydliadau, hefyd ar gael i arweinwyr cymunedol.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Darpariaeth ar gyfer dysgu a datblygu sydd ar gael ar gyfer arweinwyr cymunedol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.</p>
	<p>Creu cyfleoedd pwrpasol ar y cyd, gan gynnwys mentora, hyfforddi, mentora cymunedol, mentora o chwith ar gyfer arweinwyr cymunedol gydag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, er lles iddynt hwy ac i wasanaethau cyhoeddus.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Creu cyfres o gynigion dysgu a datblygu pwrpasol ar y cyd.</p>
	<p>Gwaith cydgysylltiedig i gefnogi arweinyddiaeth gymunedol sy'n cynnwys datblygu'r llwybr i benodiadau cyhoeddus a mynediad i weithlu'r gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig, gan ganolbwyntio'n benodol ar fenywod o leiafrifoedd ethnig sydd wedi'u tangynrychioli'n eithriadol mewn rolau arwain.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Cefnogaeth gydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i arweinwyr cymunedol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ymuno â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus.</p>
	<p>Ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i arweinwyr cymunedol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau (gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus), gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Nodi nifer sylweddol o gyfleoedd i arweinwyr cymunedol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a'u talu fel y bo'n briodol.</p>

Llywodraeth Leol

Cyflwyniad

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn cynnwys ein 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chymuned, y pedwar parc cenedlaethol, tri gwasanaeth tân ac achub a'n cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd yn ddiweddar.

Caiff yr holl sefydliadau hyn eu harwain yn ddemocrataidd gan gynghorwyr etholedig, maent yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac maent yn dilyn fframwaith moeseg a llywodraethu cyffredin. Rhyngddynt, maent hefyd yn gyflogwyr gwasanaeth cyhoeddus sylweddol. Ceir tua 1250 o brif gynghorwyr, dros 8000 o gynghorwyr tref a chymuned a thros 98,000 o gyflogeion llywodraeth leol.

Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a chaiff ei rôl fel darparwr gwasanaethau ei hystyried mewn rhan arall o'r cynllun hwn. Fodd bynnag, mae llywodraeth leol yn fwy na darparwr gwasanaethau, mae'n chwarae rôl arweinydd cymunedol ac mae wrth wraidd democratiaeth yng Nghymru gan lywio lleoedd a chymunedau a darparu gweledigaeth ac uchelgais lleol. Er enghraifft, yn ystod pandemig COVID-19, mae wedi dangos ei chryfderau wrth gefnogi cymunedau lleol. Felly, mae'n hanfodol bod llywodraeth leol yn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau yn llawn a'i bod yn ymrwymedig i fod yn wrth-hiliol, ac y caiff hyn ei ddangos yn glir drwy'r ffordd y caiff ei phrosesau democrataidd eu gweithredu ac yn ei rôl fel cyflogwr sylweddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydledig i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth o fewn democratiaeth leol ledled Cymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn rhannu'r ymrwymiad hwn yn llawn a gwnaeth ymrwymiad clir yn ddiweddar ac amlinellu cynllun gweithredu i hyrwyddo Amrywiaeth mewn Democratiaeth cyn etholiadau lleol 2022.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, byddwn yn gweithio gyda CLILC a phartneriaid eraill i atgyfnerthu a dyfnhau ein hymrwymiad i gefnogi a galluogi pobl o bob cefndir i sefyll am swyddi etholedig lleol. Mae pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn enwedig menywod, yn cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol a rhaid mynd i'r afael â hyn. Dylai ein democratiaeth leol gynrychioli'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, gan fod hyn yn hanfodol er mwyn ennyn ymddiniedaeth y cyhoedd ac er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn. Mae democratiaeth leol sy'n cynnwys aelodaeth amrywiol, ac sy'n ymgysylltu'n llawn ag amrywiaeth ei chymunedau, yn ddemocratiaeth gryfach a bydd yn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth lawn anghenion ei chymunedau yn well. Mae'n hanfodol er mwyn dangos cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod ein democratiaeth leol yn cynnwys pawb sydd â rhan i'w chwarae yn y gymuned leol, gwnaethom ehangu'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn ddiweddar er mwyn gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed a chynnwys unrhyw un o unrhyw wlad sy'n byw yn yr ardal leol. Wrth roi'r newid hwn ar waith,

rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl a grwpiau sy'n datblygu gwybodaeth i unigolion sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, gan gynnwys gwybodaeth i ysgolion a cholegau, sydd ar gael ar wefan Hwb. Mae'r wybodaeth hon yn ceisio esbonio a hyrwyddo cyfranogiad yn ein cyrff etholedig, nid yn unig drwy bleidleisio ond drwy gymryd rhan mewn ffyrdd eraill, fel dechrau deisebau, cychwyn trafodaethau a chymryd rhan mewn grwpiau cymunedol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cynnwys ffocws ar bobl a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol) a fydd hefyd yn ystyried sut y daw'r gwaith hwn yn rhan o'r broses o ddatblygu ein cwricwlwm newydd. Bydd yn hanfodol sicrhau ein bod wedi hysbysu pobl ifanc a fydd yn teimlo'n barod i fod yn ddinasyddion gweithredol o fewn ein democratiaeth ac sy'n deall gwerth gwirioneddol cyfranogiad cymunedol i'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt yn dewis sefyll mewn etholiad, yn cyflwyno eu hunain ar gyfer penodiad cyhoeddus neu'n ystyried gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus fel llwybr gyrfa.

Wrth symud ymlaen, rydym am greu amgylchedd lle mae pawb yn awyddus i gymryd rhan mewn democratiaeth, ac yn teimlo y gallant wneud hynny, gan gynnwys drwy arfer eu hawl i bleidleisio. Mae hyn yn golygu ystyried pam nad yw pobl y mae ganddynt eisoes yr hawl i bleidleisio yn gwneud hynny. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried hygyrchedd y broses o gymryd rhan mewn etholiadau i bobl ethnig leiafrifol, er enghraifft, pa wybodaeth a chymorth a ddylai fod ar gael i bleidleiswyr.

Drwy annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth, gallwn sicrhau bod democratiaeth yn agored ac yn dryloyw a'i bod yn gwrando, yn ymgysylltu ac yn gweithredu mewn perthynas â'r cyfranogiad a'r ymgysylltiad hwnnw. Rydym yn rhoi mesurau newydd ar waith er mwyn helpu llywodraeth leol i ymgysylltu â chymunedau a hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys strategaethau cyfranogi statudol wedi'u hanelu at gyflwyno ffyrdd newydd i bobl gymryd rhan mewn democratiaeth, cynlluniau deiseb ar-lein a dulliau newydd o gynnwys pobl wrth graffu ar ddemocratiaeth leol er mwyn iddynt allu cymryd rhan weithredol yn y broses o sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn parhau'n atebol drwy gydol eu cyfnod mewn swydd. Byddwn yn ceisio barn a chyfranogiad pobl ethnig leiafrifol o bob oedran yn y gwaith hwn er mwyn sicrhau, wrth i gynghorau roi'r gofynion newydd hyn ar waith, eu bod yn cydnabod anghenion a buddiannau cyfranogiad amrywiol gan y gymuned.

Rydym hefyd yn gweithredu fframwaith perfformiad a llywodraethu newydd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae'r fframwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu eu perfformiad yn barhaus ac ystyried safbwyntiau dinasyddion, cymunedau a defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'r broses hon. Byddwn yn sicrhau bod cynghorau yn gofyn am safbwyntiau pobl ethnig leiafrifol fel rhan o'r broses hon. Bydd yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu hunanasesiadau ac asesiadau paneliac ymateb yn gyhoeddus i argymhellion.

Mae gennym ymrwymiad tymor hir hefyd i hyrwyddo ymddygiad moesegol ymhlith ein cynrychiolwyr etholedig lleol. Bu'r fframwaith moesegol presennol ar waith ers sawl blwyddyn, rydym wedi pasio deddfwriaeth yn ddiweddar i'w atgyfnerthu drwy ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymhlith eu haelodau a'i gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol, gan gynnwys argymhellion o ran sut y gellir gwella prosesau lleol. Felly mae'n bryd i ni adolygu'r holl drefniadau sydd ar waith gennym er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo ymddygiad gwrth-hiliol. Caiff unrhyw newidiadau a argymhellir gan yr adolygiad eu rhoi ar waith cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Bydd yn ofynnol i bob cynghorydd etholedig ymrwymo i god ymddygiad newydd pan fydd yn tyngu llw wrth ddechrau yn ei swydd. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried a yw'r sancsiynau presennol ar gyfer ymddygiad amhriodol yn ddigonol, a ddylid rhoi mwy o hyfforddiant a sut mae cynghorau yn ymdrin â chwynion mewn ffordd briodol a sensitif pan gânt eu gwneud.

Mae llywodraeth leol yn rhan hanfodol o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac rydym yn disgwyl i lywodraeth leol ei hun bennu safonau uchel ym mhob maes, gan gynnwys gweithredu fel cyflogwr gwrth-hiliol. Rydym yn disgwyl iddi ystyried arferion gorau ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r safonau y mae cyrff eraill yn cydymffurfio â nhw, boed y rheini'n ofynion deddfwriaethol ai peidio. Rydym yn disgwyl i lywodraeth leol ddangos patrwm i eraill a chymryd camau ar y cyd i gyflawni hyn.

Yn ogystal, mae pob corff llywodraeth leol yn gorff sofran ynddo'i hun ac o ran ei rôl fel cyflogwr, mae cyfrifoldeb ar bob corff i sicrhau bod diwylliant gwrth-hiliol yn bodoli yn y sefydliad a bod y diwylliant hwn yn sail i'w bolisiau recriwtio, ei bolisiau cwyno, ei delerau ac amodau ac ati. I ategu hyn, byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol ac Un Llais Cymru i gynnwys dull gweithredu gwrth-hiliol o fewn yr holl arferion adnoddau dynol a ddefnyddir gan lywodraeth leol ac i ehangu lefel y data ar nifer y bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gyflogir gan y sector ac o fewn pob gradd a'r bwloch cyflog. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhwydweithiau proffesiynol ac Academi Cymru i ddatblygu cynlluniau recriwtio graddedigion a chynlluniau mentora sy'n bodoli eisoes er mwyn helpu pobl ethnig leiafrifol i symud i mewn i swyddi uwch-arweinwyr ym maes llywodraeth leol.

Nodau i Lywodraeth Leol

1. Bydd y fframwaith hwn o ddeddfwriaeth a chanllawiau i lywodraeth leol yn llywio democratiaeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth a wasanaethir ganddi.
2. Bydd y fframwaith hefyd yn galluogi pobl o bob cymuned i deimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu â llywodraeth leol, yn eu helpu i gymryd rhan ac i allu ymddiried yn y ffaith y caiff eu safbwyntiau eu hystyried.
3. Mae llywodraeth leol yn gyflogwr sy'n batrwm i eraill, mae pob polisi cyflogaeth ac adnoddau dynol yn wrth-hiliol er mwyn creu amgylchedd diogel a chynhwysol i bobl ethnig leiafrifol.

Camau Gweithredu

1. Bydd y fframwaith hwn o ddeddfwriaeth a chanllawiau i lywodraeth leol yn llywio democratiaeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth a wasanaethir ganddi.

Cam Gweithredu	Erbyn Pryd
Byddwn yn adolygu ac yn gwneud newidiadau i'r Fframwaith Moesegol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr erbyn mis Mai 2022 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr newydd a chynghorwyr sy'n dychwelyd ymrwymo i fod yn wrth-hiliol pan fyddant yn dechrau yn eu swydd.	Mai 2022
Gan weithio gyda CLILC ac awdurdodau lleol, byddwn yn ystyried pa fath o waith sefydlu, hyfforddiant a chymorth sydd eu hangen ar gynghorwyr er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldebau ynghylch cydraddoldebau a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag arbenigwyr a grwpiau sy'n cynrychioli pobl ethnig leiafrifol i roi cyngor ar gynnwys craidd ar gyfer hyfforddiant a deunyddiau cymorth.	Mai 2022
Byddwn yn sicrhau bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn deall eu rôl wrth ddangos a hyrwyddo ymddygiad gwrth-hiliol wrth arfer eu dyletswydd ac er mwyn sicrhau safonau ymddygiad uchel ymhlith eu grŵp gwleidyddol.	Mai 2022
Byddwn yn sicrhau bod Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau Safonau yn tynnu sylw at ymddygiad hiliol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer ymdrin ag ymddygiad o'r fath ymhlith aelodau etholedig yn y cynghorau y maent yn gyfrifol amdanynt.	Mai 2022

Cam Gweithredu	Erbyn Pryd
Gan weithio gyda CLILC ac awdurdodau lleol, byddwn yn adolygu prosesau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion am gynrychiolwyr etholedig gan aelodau o'r cyhoedd er mwyn sicrhau y cânt eu hystyried yn llawn a bod y cyhoedd yn hyderus y rhoddir sylw priodol i'w pryderon. Byddwn hefyd yn ystyried y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i gynghorwyr lle y gwnaed cwyn yn eu herbyn.	Mai 2022
Byddwn yn adolygu'r Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig er mwyn ystyried a ellir ac a ddylid ei hehangu i bobl o amrywiaeth ehangach o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.	Gorffennaf 2021
Byddwn yn ystyried yr opsiynau mewn perthynas â chwotâu ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.	Medi 2021
Er mwyn hyrwyddo amgylchedd diogel a chroesawgar, byddwn yn dileu'r gofynion i gyhoeddi cyfeiriadau cartref ymgeiswyr ac aelodau etholedig ac yn adolygu troseddau etholiadol sy'n ymwneud ag achosion o gam-drin ymgeiswyr a'u staff cymorth.	Mai 2022
Byddwn yn gweithio gyda'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol i hyrwyddo'r angen i sicrhau y gall pob cynghorydd gael gafael ar y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arno i ymgymryd â'i rôl, gan gynnwys offer TG a chymorth gyda chostau gofal.	Mai 2022
Byddwn yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol, CLILC a'r prif gynghorau i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth da ar gael i ddarpar ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol.	Ionawr 2022
Ceir rhagor o gamau gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Democratiaeth. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cam-dau-cynllun-gweithredur-rhaglen-amrywiaeth-mewn-democratiaeth	Amrywiol

2. Bydd y fframwaith hefyd yn galluogi pobl o bob cymuned i deimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu â llywodraeth leol, yn eu helpu i gymryd rhan ac i allu ymddiried yn y ffaith y caiff eu safbwyntiau eu hystyried.

Cam Gweithredu	Erbyn Pryd
Sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn rhan greiddiol o'r broses o ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer democratiaeth leol – 'Y Llawlyfr Democratiaeth' – a fydd yn cynnwys sut mae pobl yn ymgysylltu â democratiaeth leol ac yn cymryd rhan, trefniadau craffu a'r trefniadau ar gyfer gweithredu prosesau democrataidd.	Mai 2022
Byddwn yn ymgynghori â phobl ethnig leiafrifol er mwyn nodi unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn y broses etholiadol, er enghraifft, gwybodaeth i bleidleiswyr, ac mewn democratiaeth yn ehangach. Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn i gydgyhyrchu unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau sydd eu hangen i ddileu'r rhwystrau.	Mai 2022

Cam Gweithredu	Erbyn Pryd
Byddwn yn gweithio gyda phobl ethnig leiafrifol i sicrhau bod ein hadnoddau addysg a chodi ymwybyddiaeth i bobl ifanc yn diwallu eu hanghenion.	Mai 2022
Byddwn yn sicrhau bod cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn ystyried safbwyntiau ac anghenion pobl ethnig leiafrifol yn y fframwaith perfformiad a llywodraethu newydd.	Mai 2022

3. Mae llywodraeth leol yn gyflogwr sy'n batrwm i eraill, mae pob polisi cyflogaeth ac adnoddau dynol yn wrth-hiliol er mwyn creu amgylchedd diogel a chynhwysol i bobl ethnig leiafrifol.

Cam Gweithredu	Erbyn Pryd
Byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r data ar y gweithlu y mae'n ofynnol i lywodraeth leol eu cyhoeddi yn ei datganiadau polisi cyflogau er mwyn sicrhau eu bod yn atgyfnerthu'r dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i gyhoeddi data cywir ac amserol ar amrywiaeth ac i gydymffurfio â gofynion statudol eraill yn llwyr ac yn brydlon. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth leol i sicrhau y caiff y data hyn eu defnyddio i lywio fframweithiau ar gyfer gwella polisiau a pherfformiad a fydd yn destun trefniadau craffu mewnol ac allanol.	Mai 2022
Byddwn yn gweithio gyda CLILC, awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol ac Un Llais Cymru er mwyn helpu llywodraeth leol i adolygu ei phrosesau recriwtio, adnoddau dynol a chwynion mewnol, gan gynnwys cynlluniau hyfforddi a chymorth i gyflogeion, er mwyn sicrhau eu bod yn wrth-hiliol ac y caiff enghreifftiau o arferion da fel grwpiau cymorth i staff eu hyrwyddo.	Mai 2022
Byddwn yn gweithio gyda CLILC, Un Llais Cymru, Academi Cymru a chyrff proffesiynol llywodraeth leol i sicrhau y caiff yr holl gynlluniau recriwtio a mentora graddedigion eu hatgyfnerthu a'u hyrwyddo a'u bod yn hygyrch i bobl ethnig leiafrifol.	Mai 2022

Iechyd (Gwasanaethau a Chanlyniadau Iechyd)

Fel y nodir o dan Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth yn y Cynllun hwn, mae gwaith ymchwil ar yr hyn sy'n arwain at lwyddiant wrth sicrhau gwell canlyniadau i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol) yn awgrymu'n gyson bod angen i uwch-arweinwyr weithredu mewn ffordd wrth-hiliol, cymryd rhan lawn wrth fynd i'r afael â hiliaeth ac arwain o'r blaen. Mae'r GIG yng Nghymru yn gyflogwr sylweddol yn y sector cyhoeddus ac yn ddarparwr gwasanaethau hanfodol allweddol, ac ni ddylai fod unrhyw rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael gafael ar y gwasanaethau sydd ar gael ac ymgysylltu â nhw. Mae ein gweledigaeth ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn canolbwyntio ar iechyd a lles, ac ar atal salwch. Nodir hyn yn Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Er mwyn y Cynllun hwn, rydym wedi gwahanu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond hoffem eich cyfeirio at y nodau a'r camau gweithredu ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth, gan gydnabod bod achosion o orgyffwrdd angenrheidiol a bwriadol.

Rydym am sicrhau y gwneir cynnydd cyflym, ac rydym wedi nodi pum nod galluogol i GIG Cymru, o dan y themâu canlynol: Arweinyddiaeth ac atebolrwydd; Y gweithlu; Data a deallusrwydd; Mynediad at wasanaethau iechyd; a Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Rhaid i arweinwyr ein GIG nodi'r diwylliant gwrth-hiliol priodol sy'n dangos agwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad hiliol ac achosion o wahaniaethu, gan sicrhau na cheir unrhyw ragfarn o fewn polisiau cyflogaeth, gan gynnwys gweithdrefnau penodi, dyrchafu, cwynion cyflogaeth, galluogrwydd a disgyblu, er mwyn hyrwyddo gweithleoedd sy'n gynhwysol ac yn ddiogel yn seicolegol ac yn gorfforol. Rôl uwch-arweinwyr yn y GIG yw bod yn hyddysg am y mater hwn, ymwneud yn llawn ag ymdrechion i fynd i'r afael â hiliaeth, gan arwain o'r blaen.

Mae'r gallu i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel i boblogaeth Cymru yn dibynnu ar ein gweithlu. Mae polisiau ar waith yn y GIG yng Nghymru i helpu unigolion i godi pryderon yn y gweithle ac i ymdrin â materion. Fodd bynnag, rydym wedi clywed gan lawer o bobl ethnig leiafrifol bod eu profiad bywyd yn brofiad sy'n eu dadrymuso ac yn bychanu eu hunanbarch, eu sgiliau a'u talentau. Mae hyn yn awgrymu naill ai nad yw polisiau yn addas at y diben, neu nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, ac nad yw unigolion o bosibl yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r polisiau rhag

ofn y bydd goblygiadau negyddol. Mae hyn yn annerbyniol. Rydym yn bwriadu defnyddio'r mecanweithiau sydd ar gael i ni er mwyn cau'r ddolen, deall pan fydd polisiau yn aneffeithiol a chymryd y camau cywir. Byddwn yn gweithio gyda phobl ethnig leiafrifol yn y gweithlu, grwpiau cymunedol a phartneriaid cymdeithasol i helpu gweithlu ein GIG i ddeall a gweithredu ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol, gan ddeall ystyr bod yn wrth-hiliol, er mwyn gwella dewisiadau iechyd a chanlyniadau iechyd.

Mae casglu data a deallusrwydd yn sylfaen bwysig er mwyn mynd i'r afael â gwahanol brofiadau ac mae gwaith y mae angen i ni ei wneud o hyd, ac y mae'n rhaid i ni ei wneud, er mwyn gwella'r data a ddelir gennym. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys undebau llafur a chyrrff proffesiynol, er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo'n ddiogel ac yn darparu data ar ethnigrwydd, gan deimlo'n hyderus y caiff y data eu defnyddio mewn ffordd a fydd o fudd iddynt, yn hytrach nag yn eu herbryn. Rydym yn gwybod hefyd na chaiff data ar ethnigrwydd eu cofnodi'n effeithiol, ar y cyfan, o fewn systemau iechyd ac mae gwella trefniadau casglu data yn hanfodol er mwyn deall a lleihau'r anghydraddoldebau hiliol ac ethnig a wynebir gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddwn yn ystyried trefniadau monitro er mwyn sicrhau y caiff data eu defnyddio i ddeall a datblygu polisiau sy'n cefnogi mynediad teg i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ceir amrywiadau o hyd yn y ffordd y mae unigolion yn cael gafael ar y gwasanaethau iechyd sydd ar gael ac yn ymgysylltu â nhw, gan arwain at wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd. Rydym yn gwybod bod rhai grwpiau o'r boblogaeth yng Nghymru wedi dioddef lefelau uwch o salwch a marwolaethau oherwydd COVID-19. Gellir osgoi rhai o'r gwahaniaethau hyn ac nid oes cyfiawnhad drostynt. Rhaid i ni atgyfnerthu'r ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud i wella'r ffordd y caiff negeseuon iechyd y cyhoedd eu datblygu a'n ffordd o ymgysylltu â chymunedau ethnig lleiafrifol nad ydynt yn cael gafael ar wasanaethau gofal mewn perthynas ag argyfyngau uniongyrchol nac o ran negeseuon iechyd ataliol. Gwyddom fod heriau penodol sylweddol i fenywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a gwahaniaethau andwyol mesuradwy mewn canlyniadau iechyd, er enghraifft mewn gwasanaethau mamolaeth. Mae sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd hygyrch sy'n ddiwylliannol sensitif i bob menyw yn flaenoriaeth i ni a byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i ddiffinio ymhellach y camau gweithredu a'r canlyniadau. Byddwn yn dysgu o'n profiadau yn ystod pandemig COVID-19 i ystyried sut y gall cysylltwyr cymunedol feithrin gwell dealltwriaeth a deialog a fydd yn hyrwyddo ymddygiad iechyd ac yn sicrhau mynediad priodol i wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

Wrth i ni barhau i ymateb i'r bygythiad go iawn sy'n gysylltiedig â COVID-19, bu ein partneriaid iechyd y cyhoedd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), wrth reswm, yn canolbwyntio ar ein hymateb i COVID-19, a byddant yn parhau i roi blaenoriaeth i hynny. Mae cyflymder y broses o ddatblygu'r Cynllun hwn wedi cyfyngu ar allu partneriaid cyflenwi i gyfrannu at ein camau gweithredu ar gyfer Iechyd a Chanlyniadau Iechyd ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi, hyrwyddwyr, mentoriaid cymunedol ac eraill fel y bo angen yn ystod y broses o ymgynghori ar y Cynllun hwn er mwyn sicrhau bod ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar wireddu newid.



Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
1. Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd			
<p>Sicrhau bod GIG Cymru yn wrth-hiliol, ac nad oddefir unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb i gyflogeion neu ddefnyddwyr gwasanaethau.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu fframweithiau atebolrwydd y GIG er mwyn nodi'r gofynion i ymdrin â hiliaeth o bob math yn glir. Bydd hyn yn rhan annatod o systemau'r GIG, gan gynnwys trefniadau adrodd o fewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a Chynlluniau Blynnyddol, a gaiff eu monitro drwy broses y Tîm Gweithredol ar y Cyd.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 12 mis</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio llawer mwy o ddulliau ysgogi fel bod arweinwyr yn gyfrifol am wrth-hiliaeth ac er mwyn helpu staff ethnig lleiafrifol a bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector.</p>
	<p>Bydd yn ofynnol i holl Gyfarwyddwyr Gweithredol y GIG, Cadeiryddion Byrddau Iechyd y GIG, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru ddangos eu cyfraniad personol at gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel rhan o'u hamcanion. A sicrhau bod gan bob aelod o'r Bwrdd (gan eu cynnwys nhw eu hunain) amcan amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys gwrth-hiliaeth, fel rhan o'i arfarniad blynnyddol.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 12 mis</p>	
	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno disgrifiad rôl ar gyfer 'Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Gweithredol Byrddau' er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran disgwyliadau'r rôl a nodi'r gofynion i ymdrin â hiliaeth (a mathau eraill o orthrwm) o bob math, a gwerthuso effeithiolrwydd.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 12 mis</p>	<p>Mae pob sefydliad sy'n rhan o GIG Cymru wedi penodi aelod presennol o'r bwrdd i gyflawni rôl 'Hyrwyddwr Cydraddoldeb Gweithredol y Bwrdd', fel y nodwyd mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>
	<p>Bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n rhan o GIG Cymru roi <i>Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru</i>, sef y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ar waith ar y cyd â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn arbennig mewn perthynas â'r nodau canlynol:</p> <p>Nod 3 – sicrhau arferion recriwtio agored a thryloyw</p> <p>Nod 4 – sicrhau ymrwymiad byrddau</p> <p>Nod 5 – atgyfnerthu arweinyddiaeth</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis a pharhaus</p>	<p>Bydd arweinwyr o fewn sefydliadau'r GIG wedi cymryd cyfrifoldeb dros roi'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r cynllun gweithredu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ar waith.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r cyfarwyddiadau i holl Fyrddau Iechyd y GIG a swyddogion byrddau, er mwyn sefydlu Rhwydweithiau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (lle nad ydynt eisoes ar waith) a sicrhau bod lefelau priodol o adnoddau ar gael iddynt a chyfleoedd priodol i gysylltu â'r Bwrdd er mwyn llywio gwelliannau a'u rhoi ar waith.</p>	Tymor byr – o fewn 18 mis	Bydd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio llawer mwy o ddulliau ysgogi fel bod arweinwyr yn gyfrifol am wrth-hiliaeth ac er mwyn helpu staff ethnig lleiafrifol a bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus cystal â phosibl.
	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Academi Cymru i roi Nod 2 "Creu cyflenwad cyson, cadarn" <i>Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru</i>, sef y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus ar waith, er mwyn cynnig darpariaeth hyfforddi a datblygu a fu'n destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus i GIG Cymru.</p> <p>Bydd hyn yn ystyried y rhaglen beilot i Ddarpar Aelodau Bwrdd. Drwy ymgynghori â'r Uned Cyrff Cyhoeddus a phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol.</p>	Tymor byr – o fewn 18 mis	Caiff y rhaglen beilot a'r rhaglenni eu gwerthuso at ddibenion craffu gan gorff llywodraethu'r CGCH er mwyn eu cyflwyno i fyrddau cyrff cyhoeddus eraill.
	Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn sicrhau bod ei rhaglen datblygu arweinwyr tosturiol a chyfunol, sy'n cael ei datblygu o dan thema 6 y strategaeth gweithlu 10 mlynedd, sef Arweinyddiaeth ac Olyniaeth, yn cynnwys gwrth-hiliaeth fel rhan graidd o'i gwerth a'i dealltwriaeth.	Tymor byr – o fewn 12 mis	Mae'r rhaglen Arweinyddiaeth ac Olyniaeth wedi dangos bod gwrth-hiliaeth yn un o'i gwerthoedd craidd.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
2. Y Gweithlu			
<p>Sicrhau bod gweithlu GIG Cymru yn adlewyrchu'r boblogaeth a wasanaethir ganddo; a bod y staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol (sy'n cydnabod yr heriau penodol i fenywod yn y gweithle) sy'n eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial gan gydnabod y ffactorau croestoriadol sy'n achosi anfantais cronol mewn unigolyn.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu Addysg a Gwella Iechyd Cymru i weithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau'r GIG i ddarparu addysg a hyfforddiant gwrth-hiliol i bob aelod o staff a phob myfyriwr, er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth a bob math a'i ddileu.</p>	<p>Cydweithredu Parhaus</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yn cefnogi'r angen i bob aelod o staff ddeall egwyddorion gwrth-hiliaeth yn well a sut y maent yn hyrwyddo gweithleoedd cynhwysol sy'n ddiogel yn seicolegol ac yn gorfforol a gwasanaethau priodol sy'n ystyried agweddau diwylliannol.</p>
	<p>Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn sicrhau y caiff hyfforddiant gorfodol GIG Cymru 'Fy Nhrin yn Deg' ei ailgynllunio ar y cyd â phartneriaid ethnig lleiafrifol, er mwyn cynnwys profiadau bywyd yn ogystal â ffocws ar gymhwysedd diwylliannol, ac y caiff ei ail-lansio.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff y GIG ymgymryd â'r hyfforddiant newydd o fewn terfyn amser penodedig unwaith y bydd y pecyn newydd ar gael.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p>	<p>Mae'r rhaglen hyfforddiant gorfodol yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi uchelgeisiau gwrth-hiliol.</p>
	<p>Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys cyflogwyr y GIG ac undebau llafur i sicrhau bod pecynnau ac adnoddau ar gael i helpu cyflogwyr y GIG i gofnodi profiadau a chanlyniadau staff ethnig lleiafrifol yn y GIG ac i ysgogi gwelliannau yn y meysydd hynny yn unol â saith thema'r strategaeth gweithlu 10 mlynedd.</p>	<p>Tymor canolig – o fewn 3 blynedd</p>	<p>Bydd gan arweinwyr a rhanddeiliaid well dealltwriaeth o brofiadau a chanlyniadau staff ethnig lleiafrifol a byddant yn ymateb yn well iddynt.</p>
	<p>Bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y bydd camau gweithredu Ehangu Mynediad y strategaeth gweithlu 10 mlynedd yn nodi cynlluniau a thargedau i gynyddu cyrhaeddiad a nifer yr unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sydd wedi'u tangynrychioli yn y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd a gaiff eu recriwtio.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p>	<p>Cymerwyd camau i dargedu a chefnogi amrywiaeth hiliol ac ethnig ymhlith y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ymdrin â lefelau cyrhaeddiad gwahaniaethol a nodwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol	Parhaus	Cymerwyd camau i gefnogi amrywiaeth hiliol ac ethnig ymhlith y gweithlu iechyd, sy'n hyrwyddo gweithleoedd cynhwysol sy'n ddiogel yn seicolegol ac yn gorfforol a gwasanaethau priodol sy'n ystyried agweddau diwylliannol.
	Bydd Llywodraeth Cymru, drwy waith cydgyllunio â rhanddeiliaid ethnig lleiafrifol a phartneriaid cymdeithasol, yn rhoi adolygiad annibynnol o'r prosesau ar gyfer cwynion gan staff ar waith er mwyn sicrhau bod tryloywder a dulliau adferol yn rhan amlwg o'r prosesau hynny.	Tymor byr – o fewn 18 mis	Mae staff ethnig lleiafrifol yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth roi gwybod am bryderon ac yn hyderus yr ymdrinnir â nhw'n deg. Cyflawnir buddiannau amlwg i grwpiau gwarchoddedig eraill.

3. Data a Deallusrwydd

	Data a Deallusrwydd am y Gweithlu		
Sicrhau y caiff data iechyd mewn perthynas â hil, ethnigrwydd ac anfantais groestoriadol eu casglu fel mater o drefn, eu deall a'u defnyddio i ysgogi a llywio gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau.	Bydd y GIG yng Nghymru yn defnyddio data a deallusrwydd am y gweithlu, gan gynnwys gan ganolfan ragoriaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, i ymdrin â phryderon ynghylch gwahaniaethu a bwlio a godir gan staff, gan gynnwys gwybodaeth fel canlyniadau arolygon staff, profiadau bywyw a chyfweliadau annibynnol a gaiff eu comisiynu am brofiadau bywyd staff ethnig lleiafrifol. Caiff y gwaith hwn ei fonitro ar y cyd drwy broses y Tîm Gweithredol ar y Cyd.	Tymor byr – o fewn 18 mis a pharhaus	Bydd staff yn dechrau teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth ddarparu data ar ethnigrwydd ac yn hyderus y caiff y data eu defnyddio er budd iddynt. Bydd pob un o gyrff GIG Cymru wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyhoeddi data amrywiaeth cywir ac amserol.
	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu gan sicrhau bod mecanweithiau llywodraethu ac atebolrwydd priodol ar waith i fonitro cynnydd ac i weithredu ar bryderon a gaiff eu codi.	Tymor byr – o fewn 18 mis a pharhaus	Bydd y rheini y gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth am eu hethnigrwydd yn meddu ar ddealltwriaeth well o pam bod angen y wybodaeth honno, gan arwain at fwy o ymddiriedaeth.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â chyflogwyr y GIG, Undebau Llafur a chyrff proffesiynol i gyd-ddatblygu ymrwymiaid wedi'u targedu er mwyn gwella ansawdd data ar y gweithlu a'r trefniadau ar gyfer cofnodi'r data hynny; ac i sicrhau bod staff yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i ddarparu data ethnigrydd, ac i leisio barn yn erbyn gwahaniaethu ac arferion hiliol.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p> <p>Ac i adeiladu amynt</p>	
Data a Deallusrwydd am Iechyd y Boblogaeth			
	<p>Byddwn yn ystyried newidiadau i'r trefniadau ar gyfer casglu, monitro ac adrodd ar ddata ar iechyd y boblogaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i gasglu ac adrodd ar ddata yn rheolaidd er mwyn meithrin dealltwriaeth a datblygu polisiau i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p> <p>Ac i adeiladu amynt</p>	
4. Mynediad at Wasanaethau Iechyd			
<p>Sicrhau y caiff negeseuon iechyd y cyhoedd i wella nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau iechyd eu datblygu drwy ddeialog ac mewn partneriaeth; caiff unigolion eu cefnogi lle y bo angen er mwyn cael gafael ar ofal iechyd.</p>	<p>Bydd uwch-gyfarwyddwyr Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn creu Bwrdd Her mewnol i gynnwys prosesau herio allanol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu i wella mynediad at wasanaethau i bobl ethnig lleiafrifol.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p>	<p>Creffir ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu er mwyn sicrhau mynediad teg at wasanaethau iechyd a gwell canlyniadau i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.</p>
	<p>Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru: bydd swyddogion yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Bydwagedd fel rhan o'u hymgyrch Race Matters, a rhanddeiliaid allweddol, i bennu'r camau sydd eu hangen i wella mynediad a'r phrofiad o ofal i fenywod drwy gydol eu taith famolaeth.</p>	<p>Tymor byr – o fewn 18 mis</p>	<p>Dangos mynediad teg i wasanaethau mamolaeth a gwell profiad a chanlyniadau clinigol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
5. Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd			
Sicrhau bod cynlluniau cyflawni a strategaethau ar gyfer afiechydon a chyflyrau penodol yn cynnwys camau gweithredu i ymdrin â'r anghydraddoldebau iechyd amlwg y mae rhai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu profi	<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried beth yn rhagor y mae angen ei wneud i annog mwy o bobl i gael gofal neu i wella canlyniadau gofal wrth ddatblygu trefniadau olynol ar gyfer cynlluniau cyflenwi presennol ac mewn strategaethau a fframweithiau yn y dyfodol.</p> <p>Bydd hyn yn ystyried y darlun cyffredinol, gan gysylltu â chynlluniau blynyddol a chynlluniau tymor canolig integredig Byrddau Iechyd y GIG, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.</p>	Tymor byr – o fewn 18 mis	Gallwn ddangos bod mynediad tecach at wasanaethau iechyd a gwell canlyniadau i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
	Cynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y cyd â Chynghrair Iechyd Meddwl Cymru.	Tymor byr – o fewn 18 mis	Gwelliannau o ran mynediad at gymorth a gwasanaethau i gymunedau ethnig lleiafrifol ac ansawdd y cymorth a'r gwasanaethau hynny.
	Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu ffrwd waith newydd o fewn Amser i Newid Cymru er mwyn canolbwyntio ar faterion sy'n wynebu cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	Tymor byr – o fewn 12 mis	Dealltwriaeth well a mwy penodol o anghenion cymunedau ethnig lleiafrifol gwahanol mewn perthynas â stigma iechyd meddwl.
	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella mynediad cynnar at wasanaethau iechyd meddwl a dementia i boblogaethau ethnig lleiafrifol.	Tymor canolig – o fewn 3 blynedd	Gostyngiad yn yr amrywiadau o ran cyfrannau mynediad poblogaethau ethnig lleiafrifol at ddiagnosteg a thriniaethau
	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd i wella gofal diwedd oes a mynediad at wasanaethau hosbis a gofal lliniarol i boblogaethau ethnig lleiafrifol.	Tymor byr – o fewn 18 mis	<p>Gwell ymwybyddiaeth o anghenion gofal lliniarol a gofal diwedd oes poblogaethau ethnig lleiafrifol a mwy o bobl yn cael gofal o'r fath</p> <p>Gwell profiadau i boblogaethau ethnig lleiafrifol ar ddiwedd eu hoes fel y nodir mewn adroddiadau profiad bywyd.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a chynrychiolwyr cymunedau ethnig lleiafrifol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau pryderon a chwynion Gweithio i Wella sydd ar gael i bob un sy'n cael gofal gan y GIG.	Tymor byr – o fewn 18 mis	Gwell ymwybyddiaeth, bodddhad a defnydd o'r broses Gweithio i Wella ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol
	Caiff canllawiau Gweithio i Wella (ar gyfer gweithdrefn gwyno GIG Cymru) eu diwygio gan Lywodraeth Cymru pan ddaw'r ddyletswydd gonestrwydd i rym. Ystyrir sut y gellir gwella'r canllawiau a'u tynhau er mwyn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chwynion am hiliaeth wrth ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sydd hefyd yn ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010.	Tymor canolig – o fewn 3 blynedd	Gwell ymwybyddiaeth, bodddhad a defnydd o'r broses Gweithio i Wella ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol
	Prif swyddogaeth Corff Llais y Dinesydd yw ceisio barn y cyhoedd am faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr cylch gwaith i Gorff Llais y Dinesydd pan gaiff ei sefydlu. O ran y cylch gwaith, gofynnir i Gorff Llais y Dinesydd ddatblygu camau gweithredu i sicrhau y gall geisio a chael safbwyntiau pawb yng Nghymru a fydd yn cynnwys y rheini o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a sicrhau amrywiaeth yn ei weithlu ac yn ei strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau.	Tymor canolig	Mae pobl ethnig leiafrifol yn teimlo bod eu lleisiau a'u hanghenion yn cael eu clywed ac y gweithredir armynt a'u bod yn cael eu cynrychioli yn y strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau gan Gorff Llais y Dinesydd
	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaethau i benderfynu a yw'r camau gweithredu tymor byr a thymor canolig wedi arwain at welliannau mewn perthynas â materion fel amrywiaeth sail gwirfoddolwyr Corff Llais y Dinesydd, a nifer y bobl sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth os byddant o'r fam bod ganddynt gŵyn sy'n gysylltiedig â hil yr hoffent ei chyflwyno i'r GIG neu Awdurdod Lleol.	Tymor hir	Mae data ar nifer y cwynion Gweithio i Wella ac adroddiadau ar brofiadau bywyd a wnaed gan bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn dangos awydd i gwyno, ond hefyd ymatebion cadarnhaol i'w cwynion.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mecanweithiau cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn deall materion sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd.	Tymor byr	Gwell dealltwriaeth o brofiadau bywyd ac ymatebion cadarnhaol pobl ifanc mewn cymunedau ethnig lleiafrifol wrth gael gafael ar ofal iechyd, y gellir wedyn ymdrin â nhw.

Nodiadau:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys arweinwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes polisi a chynllunio iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gweithredu ochr yn ochr â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fel rhan o GIG Cymru ac mae'n chwarae rhan arweiniol mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru; gan sicrhau bod y staff priodol sy'n meddu ar y sgiliau priodol ar gael.

Datblygwyd strategaeth gweithlu 10 mlynedd Cymru, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar y cyd ac fe'i lanswyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 22 Hydref 2020. Mae'r strategaeth gweithlu 10 mlynedd hon yn nodi'n glir y bwriad strategol ynghylch cydraddoldeb a thegwch, gan nodi'r weledigaeth a'r uchelgais yn ogystal

â'r dulliau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni gweithlu cynhwysol, ymgysylltiol a chynaliadwy ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Sefydlwyd Cyflogwyr y GIG yng Nghymru ym mis Chwefror 2009 i gefnogi agenda strategol y GIG yng Nghymru o safbwynt cyflogwyr y GIG, gan gydnabod rôl greiddiol y gweithlu wrth hwyluso newidiadau i wasanaethau a sicrhau wedyn bod y GIG yn sefydliad y mae pobl am weithio iddo a'i fod yn gyflogwr delfrydol.

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n darparu systemau a gwasanaethau technoleg ac iechyd digidol gan weithio mewn partneriaeth â holl sefydliadau GIG Cymru i fodomeiddio, gwella a darparu'r dechnoleg orau ar gyfer ein sector gofal iechyd. Bydd NWIS yn newid o'i statws anstatudol presennol i gorff newydd, sef Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) o fis Ebrill 2021, gan adlewyrchu pwysigrwydd technoleg ddigidol fel ffactor allweddol sy'n galluogi newid.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ar ran pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth sy'n rhan o GIG Cymru.

Mae Amser i Newid Cymru yn ymgrych genedlaethol i ddod â'r stigma y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn ei wynebu i ben.

Gofal Cymdeithasol

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wasanaethau cyhoeddus allweddol y gellir cyflwyno arferion gwrth-hiliol, croestoriadol ac urddasol drwyddynt. Mae ein deddfwriaeth arweiniol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn cynnwys darpariaethau pwysig sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae dyletswyddau ar y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod hawliau, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau yn cael eu hystyried ac y gweithredir arnynt. Mae dyletswyddau hefyd i sicrhau bod nodweddion, diwylliant a chredoau (gan gynnwys, er enghraifft, iaith) pobl yn cael eu hystyried ac y gweithredir arnynt. Mae'r dyletswyddau hyn yn hollbwysig i sicrhau bod pob partner sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yn ymdrechu i gyflawni'r un nodau a'u bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bawb sydd angen gofal a chymorth ac i bob gofalwr di-dâl sydd angen cymorth.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod bylchau yn yr hyn a wyddom a'r hyn y dylem ei wybod. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, un o brif nodweddion ein gwaith wrth gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yw cynyddu'n sylweddol ystod ac ansawdd y data, yr ymchwil a'r dystiolaeth sydd ar gael am bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu ni a'n partneriaid i gynllunio gweithgarwch mwy penodol yn y dyfodol sydd o fudd i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd, sy'n meithrin cymhwysedd diwylliannol ac arfer ar sail asedau y gweithlu ehangach ac sy'n diogelu ac yn datblygu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhan o'n gweithlu. Mae llawer o'r hyn a wyddom yn wybodaeth a gaiff ei chyfleu i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r profiad bywyd hwn yn dystiolaeth gadarn yn ei rinwedd ei hun a bydd yn elwa ar gael ei ategu gan ystod ehangach o lawer o ddata a thystiolaeth ymchwil o ansawdd uchel.

Mae ein tystiolaeth o'r gwerthusiad o'r Ddeddf¹¹ hefyd yn dangos bod llawer o fylchau gweithredu rhwng yr hyn a ddywedwn yn ein deddfwriaeth, ein polisiau a'n canllawiau a'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Mae'r modd rydym yn trosi'r data, yr ymchwil a'r dystiolaeth a gasglwn yn gamau gweithredu sy'n gwella profiad y gweithlu, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, yn un rhan o ddarn mwy o waith. Y brif ran yw pontio'r bwllch gweithredol rhwng yr hyn y mae deddfwriaeth a pholisi yn dweud wrth arweinwyr ac ymarferwyr i'w wneud a sut mae arweinwyr yn ei arwain ac ymarferwyr yn ei wneud. Mae llawer o ffactorau cymhleth a systemig sy'n cyfrannu at y bylchau gweithredu hyn a rhaid i'r sector gofal cymdeithasol ac, yn benodol, arweinwyr gofal cymdeithasol, ddatrys hyn ac arwain newid mewn ymddygiad yn ddi-oed.

Mewn perthynas â'r gweithlu, lansiodd strategaeth gweithlu 10 mlynedd Cymru sef, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar 22 Hydref 2020. Mae hyn yn nodi'n glir y bwriad strategol ynghylch cydraddoldeb a thegwch, gan nodi'r weledigaeth a'r uchelgais yn ogystal â'r dulliau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni gweithlu cynhwysol, ymgysylltiol, cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn mynd i'r afael â nifer o heriau hirsefydlog yn ogystal â pharatoi ein gweithlu ar gyfer heriau i ddod.'

Wrth sôn am ein gweithlu, rydym yn golygu myfyrwyr; staff gofal uniongyrchol a rheolwyr, gan gynnwys staff sy'n gweithio ym maes gofal cartref, tai â chymorth a chartrefi gofal i oedolion a phlant; gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr; penaeithiad gwasanaethau awdurdodau lleol; a chyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn golygu pawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol statudol a'r rhai sy'n darparu gofal cymdeithasol annibynnol a gwirfoddol.

Mae'n bwysig nodi yma ein bod yn gwybod bod ein gweithlu cymdeithasol yn cael ei gynrychioli'n sylweddol gan fenywod, yn enwedig mewn rolau rheng flaen. Felly, bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i amgylchiadau penodol y gweithlu sy'n fenywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Yn ogystal, mae cyfran sylweddol o'n gofalwyr di-dâl yn fenywod a menywod yn gyffredinol sy'n cymryd y rôl arweiniol o ran gofalu am deuluoedd ac o ran gofalu yn ein cymunedau. Bydd ein dull gweithredu, felly, yn sicrhau bod cyfraniadau pwysig menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gwaith ac mewn cymunedau yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael a nhw mewn modd priodol.

Rydym hefyd wedi clywed negeseuon clir am ymddiriedaeth yn y system a rôl gofal cymdeithasol a CAF/CASS Cymru. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod ymgynghori i weithio gyda chymunedau, darparwyr gwasanaethau a CAF/CASS Cymru i ddysgu sut y gallwn fynd i'r afael â hyn.

Felly, mae ein gwaith mewn dwy ran:

1 Yr hyn y gall Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y Trydydd sector, y sector statudol a'r sector annibynnol ei wneud ar gyfer yr unigolion (oedolion a phlant) sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u teuluoedd. Mae a wnelo hyn â gwella mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol a phrofiad ohonynt, o safbwynt gwrth-hiliol.

2 Yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i'r gweithlu gofal cymdeithasol ar bob lefel a'n disgwyliadau ni ar gyfer y gweithlu. Mae a wnelo hyn â gwella arferion a phrofiad y gweithlu gofal cymdeithasol, unwaith eto o safbwynt gwrth-hiliol.

Datblygwyd ein nodau o dan bum thema: mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol a'r broses o'u darparu; y gweithlu; arweinyddiaeth; atebolrwydd; a data a dadansoddi. Mewn rhannau o'r cynllun, ceir trawsgroesi sylweddol rhwng nodau a chamau gweithredu iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn achosion lle mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi deillio o Cymru Iachach¹² a'n Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Er mwyn i'n rhanddeiliaid olrhain ein cynnydd, caiff y cerrig milltir ar gyfer pob un o'r camau gweithredu eu datblygu drwy'r cyfnod ymgynghori.



Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Nod 1			
<p>Sicrhau bod pob person Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn teimlo'n hyderus wrth gael gafael ar wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u defnyddio pryd bynnag y bydd eu hangen arno.</p>	<p>Byddwn yn archwilio'r rhesymau dros ofnau pobl a'u drwgdybiaeth a sut a pham y gall gwasanaethau, er yn ddjarwybod, ymgorffori stereoteipiau a all arwain at eu gwneud yn sefydliadau hiliol..</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau yn y sectorau statudol, annibynnol/preifat, a'r Trydydd sector/sector llawr gwlad i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n wrth-hiliol, ar sail asedau, yn urddasol ac yn gymwys yn ddiwylliannol.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd er mwyn sicrhau datblygiad ei aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd a chyda sefydliadau eirioli i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i wella cymorth ac eiriolaeth i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth godi pryderon a mynd i'r afael ag ymddygiad hiliol.</p> <p>Byddwn yn datblygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu'n well â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn deall yn well sut mae profiad bywyd yn pennu mynediad at wasanaethau a lefelau defnydd.</p>	<p>Tymor byr i dymor hir</p>	<p>Bydd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo bod gwasanaethau yno i helpu a darparu cymorth gofal iddyn nhw ac ar y cyd â nhw a bod y gwasanaethau hynny wedi'u cynllunio a'u darparu gan ystyried eu hawliau o dan adran 6(2)(c) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Nod 2			
<p>Sicrhau bod pob person Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol sy'n cael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael y cymorth o'r ansawdd uchaf sy'n hygyrch, yn urddasol ac yn briodol yn ddiwylliannol.</p>	<p>Byddwn yn datblygu, yn rhannu ac yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o storfa newydd o dystiolaeth o arferion cadarnhaol gyda gofalwyr di-dâl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (fel y nodir yn y Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr).</p> <p>Byddwn yn casglu, yn adolygu ac yn rhannu tystiolaeth o ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru sy'n cyrraedd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus.</p>	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Mae gofalwyr di-dâl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well gan y sectorau statudol, annibynnol a phreifat a'r Trydydd sector.</p> <p>Mae defnyddwyr gwasanaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u teuluoedd yn teimlo bod gwasanaethau yn hygyrch, yn urddasol ac wedi'u teilwra i'w hanghenion.</p>
Nod 3A – Gweithlu			
<p>Sicrhau bod gan bob aelod o'r gweithlu gofal cymdeithasol y cymhwysedd diwylliannol i weithio'n effeithiol â phobl o gefndiroedd hiliol, ethnig a diwylliannol amrywiol a sicrhau bod y cymorth hwn yn cael ei gyflawni gan ddilyn polisi dim goddefgarwch ar gyfer hiliaeth nac unrhyw fath arall o wahaniaethu neu anghydraddoldeb.</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr holl hyfforddiant i ymarferwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr holl hyfforddiant cychwynnol, cynmynediad yn cael ei adolygu mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd. Bydd hyn yn cynnwys profiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ffocws o'r newydd ar gymhwysedd diwylliannol ac arferion myfyriol, ac yn cynnwys croestoriadedd hil ac ethnigrwydd â nodweddion gwarchoddedig eraill.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ffyrdd o gynnal ymwybyddiaeth barhaus o hil ac ethnigrwydd gydag ymarferwyr gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys offer ac adnoddau i hyrwyddo arferion gwrth-hiliol a myfyriol megis Pecyn Cymorth Cymhwysedd Diwylliannol.</p>	<p>Tymor canolig i dymor hir</p>	<p>Bydd pob person Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol sy'n cael gofal a chymorth yn profi gwasanaeth sy'n diwallu ei anghenion yn llawn, sy'n briodol yn ddiwylliannol ac sy'n ei alluogi i gyflawni'r canlyniadau sydd bwysicaf iddo.</p> <p>Mae pob ymarferydd gofal cymdeithasol wedi ei hyfforddi'n briodol ac yn gymwys ac yn gallu rhoi'r cymorth mwyaf effeithiol a phriodol yn ddiwylliannol i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael gofal a chymorth.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Nod 3B – Gweithlu			
<p>Sicrhau nad yw pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu unrhyw rwystrau wrth geisio dilyn gyrfa neu ymgymryd â rôl ym maes gofal cymdeithasol; bod gan bob ymarferydd gofal cymdeithasol Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol y gallu i fanteisio ar hyfforddiant o'r ansawdd uchaf drwy gydol ei yrfa; a bod pob ymarferydd Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol ym maes gofal cymdeithasol yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn ei weithle a bod hyder llawn ganddo yn arweinwyr ei sefydliad i weithredu polisi dim goddefgarwch mewn perthynas â gwrth-hiliaeth ac unrhyw fath arall o wahaniaethu neu anghydraddoldeb.</p>	<p>Byddwn yn datblygu camau gweithredu'r Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol 10 mlynedd fel eu bod yn ymgorffori gwrth-hiliaeth, cynhwysiant ac ansawdd yn llawn drwy ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gweithredol â sefydliadau cynrychioliadol a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Byddwn yn hyrwyddo gofal cymdeithasol yn weithredol fel gyrfa i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a dangynrychiolir ar hyn o bryd.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod y broses ddethol, cynnydd (gan gynnwys drwy reolwyr canol i rolau arwain) ac ymadawiad ymarferwyr gofal cymdeithasol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn cael eu hadolygu gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ac y caiff argymhellion eu gwneud mewn perthynas â'r prosesau a'r polisiau sy'n llywodraethu'r gweithgareddau hyn.</p> <p>Byddwn yn gofyn i Gofal Cymdeithasol Cymru weithio gydag Undebau i gynnal adolygiad o gwynion gan staff gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod tryloywder a dulliau adferol yn cael eu hymgorffori.</p> <p>Byddwn yn ystyried ac yn ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i driniaeth a phrofiadau staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar gyflogau is yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Archwilio cofnod y profiadau bywyd a gynhwysir, er mwyn gwneud gwelliannau yn ôl yr angen.</p>	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Gweithlu gofal cymdeithasol sy'n fedrus a hyderus wrth ddefnyddio cymhwysedd diwylliannol, sy'n deall croestoriadedd ac sy'n dilyn arferion myfyriol i deimlo'n ddiogel yn y gweithle ni waeth beth fo'i ethnigrwydd.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Nod 4 –Arweinyddiaeth			
<p>Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel ym maes gofal cymdeithasol yn modelu ac yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn cyflwyno sector gofal cymdeithasol gwrth-hiliol i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac i'r gweithlu gofal cymdeithasol.</p>	<p>Byddwn yn defnyddio'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau arweinyddiaeth gyson, lefel uchel gwrth-hiliol.</p> <p>Byddwn yn bwrw ati i farchnata gyrfaedd arwain boddhaus ym maes gofal cymdeithasol i bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Byddwn yn bwrw ati i gynllunio cymorth datblygu arweinyddiaeth a chyfleoedd i annog pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu gofal cymdeithasol i ymgymryd â rolau rheolwyr canol a rolau ar lefel uwch e.e. cyfleoedd cysgodi, secondio, hyfforddi, mentora (gan gynnwys mentora o chwith), rhaglenni datblygu, nawdd a hyfforddiant pwrpasol.</p> <p>Byddwn yn bwrw ati i ddatblygu Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu fel rhan o'r Fframwaith Llywodraethu Staff Gofal Cymdeithasol gan nodi cyfres o gamau gweithredu i gyflogwyr eu cyflawni ynghyd â mecanweithiau ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd i fonitro cynnydd a gweithredu ar faterion a godwyd. Bydd hyn yn cysylltu â'r Codau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.</p>	<p>Tymor byr i dymor hir</p>	<p>Mae arweinwyr ar bob lefel ym maes gofal cymdeithasol yn glir ynghylch y rôl y maent yn ei chwarae, y camau gweithredu y gallant eu cymryd, a'r addysg a fydd yn eu helpu i gyflwyno sector gofal cymdeithasol gwrth-hiliol yng Nghymru.</p> <p>Bydd y meddylfryd a'r arferion gwrth-hiliol hynny yn gyffredin yn yr holl weithgarwch sy'n ymwneud â'r gweithlu a bydd yr arferion gwrth-hiliol hynny yn fesur arolygu ym mhob un o arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Nod 5 –Atebolrwydd			
<p>Ymgorffori camau gweithredu ac ymddygiadau mewn perthynas ag atebolrwydd ar draws y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys strwythurau llywodraethu cadarn a metrigau clir a mesuradwy, er mwyn pennu effaith ac effeithiolrwydd y sector gofal cymdeithasol wrth gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn.</p>	<p>Byddwn yn adolygu a, lle y bo angen, yn mynd i'r afael ag aelodaeth Byrddau a noddur gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru / penodiadau cyhoeddus a Grwpiau Rhanddeiliaid i asesu'r aelodaeth gyfredol mewn perthynas â phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Byddwn yn casglu gwybodaeth o bob rhan o'r maes gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ynghylch y defnydd o fecanweithiau adrodd megis pryderon, cwynion, cwynion cyflogaeth, atgyfeiriadau cymhwyster i ymarfer, atgyfeiriadau diogelu, ymyrraeth undebau llafur, arolygon staff, adolygiadau/arfamiadau blynyddol; cyfweiliadau ymadael a chwythu'r chwiban. Caiff yr holl wybodaeth ei dadansoddi yng nghyddestun hyder i roi gwybod am ymddygiad hiliol, hyder y caiff yr hyn yr adroddir arno ei gymryd o ddifrif ac y gweithredir arno mewn ffordd ragweithiol. Ar hyn o bryd, nid yw llawer o'r data hyn ar gael neu mae'n anghyson a bydd Nod 6 - Data a Dadansoddi yn ymdrin â hyn.</p> <p>Byddwn yn defnyddio'r Fframwaith Llywodraethu Staff Gofal Cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth o agweddau'r gweithlu tuag at gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Ynghyd ag adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, defnyddio hyn i bennu pa gamau sydd angen eu cymryd i greu diwylliant gwrth-hiliol. Byddant yn cynnwys y canlynol:</p> <p>Byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethu annheg neu anghyfreithlon yn y gwaith drwy roi sylw o'r newydd i arferion gwrth-hiliol ac adolygu ac adnewyddu cymwyseddau cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Bod staff a defnyddwyr gwasanaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'u teuluoedd, yn teimlo bod eu pryderon, eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau fel pobl yn cael eu clywed ac y gweithredir amynt ac y darperir tystiolaeth ar eu cyfer mewn ffordd barchus.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Byddwn yn dogfennu ac yn rhannu'n ddiogel brofiadau bywyd staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn meithrin dealltwriaeth lawnach o effaith ymddygiad hiliol yn y gweithle.</p> <p>Byddwn yn adolygu'r dull presennol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n benodol i hil ac ethnigrwydd ac yn cyd-gynhyrchu dull newydd gyda phrofiad bywyd, croestoriadedd, tryloywder a natur agored wrth wraidd y broses. Gwneir hyn gan anelu at welliannau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau fel bod gan bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fwy o hyder yn y broses a'r canlyniadau.</p>		

Nod 6 –Data a dadansoddi

<p>Gwella data ansoddol a meintiol, ymchwil, tystiolaeth, dadansoddiadau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gefnogi a hyrwyddo cynnydd parhaus, gan gynnwys cynnydd sylweddol yn y data profiad bywyd a gesglir oddi wrth bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	<p>Data ar y Gweithlu</p> <p>Byddwn yn defnyddio'r Strategaeth Data Gofal Cymdeithasol i ystyried sut i wella'r broses o gasglu data ac adrodd arnynt fel y nodir isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Byddwn yn nodi gofynion data a pha gamau y gellir eu cymryd i wella'r broses o hunan-adrodd ar hil ac ethnigrwydd (ynghyd â nodweddion gwarchoddedig eraill) - Byddwn yn yn defnyddio data gweithlu i fonitro amrywiaeth y gweithlu a chymryd camau i gynyddu nifer y staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (fel y nodir yn Ymgynch Gofalwn Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru) - Byddwn yn llunio datganiad ystadegol blynyddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, ar hil ac ethnigrwydd a'r nodweddion gwarchoddedig eraill fel y'u nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010. - Byddwn yn defnyddio data a gwybodaeth (ansoddol a meintiol) i fynd i'r afael ag achosion o hiliaeth a bwlio a godir gan staff, gan ddefnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys canlyniadau arolygon staff. 	<p>Tymor byr i dymor hir</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru a'r partneriaid yn cael eu hysbysu'n well am nodweddion hiliol ac ethnig y gweithlu, lle y datgelir hynny, fel y gall camau adferol penodol gael eu cymryd.</p>
--	---	------------------------------	--

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Data ar ddefnyddwyr gwasanaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Byddwn yn comisiynu dadansoddiad ac adroddiad o'r holl ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym maes gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnwys mesur ethnigrwydd ac yn gwneud hynny yn erbyn data poblogaeth cenedlaethol a lleol a chroestoriadedd â nodweddion gwarchoddedig eraill. . - Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r Cyfrifiad Oedolion sy'n Cael Gofal a Chymorth yn cynnwys pwyntiau data ar ethnigrwydd fel bod gennym wybodaeth well am bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael gwasanaeth cymdeithasol a'r mathau o wasanaethau a gânt. - Byddwn yn coladu data cadarn ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. - Byddwn yn ystyried ac yn bwrw ati i ddatblygu system ar gyfer mapio hil ac ethnigrwydd yn erbyn y defnydd o wasanaethau er mwyn nodi bylchau a chymryd camau adferol lle y bo angen. 		

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Ymchwil</p> <ul style="list-style-type: none"> - Byddwn yn coladu'r dystiolaeth ymchwil bresennol sy'n ymwneud â'r defnydd o wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u profiad ohonynt; ac yn coladu'r dystiolaeth ymchwil bresennol sy'n ymwneud â phrofiadau gweithwyr gofal cymdeithasol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru. - Byddwn yn defnyddio ymchwil a thystiolaeth i ymchwilio i faterion a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym maes gofal cymdeithasol, fel defnyddwyr gwasanaethau ac fel gweithwyr gofal cymdeithasol, ac yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio newid systemig yn y sector. - Byddwn yn defnyddio'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i wella'r gwaith o ddatblygu, coladu a defnyddio tystiolaeth yng Nghymru ac i gysylltu ag unrhyw fylchau mewn ymchwil a nodwyd drwy'r gwaith a wneir uchod 		

Nodiadau:

Bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru rôl arwain allweddol wrth gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn drwy eu cyfrifoldebau am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella'r gofal a'r cymorth ledled Cymru a chynyddu hyder y cyhoedd mewn gofal cymdeithasol.

Datblygwyd strategaeth gweithlu 10 mlynedd Cymru, 'Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar y cyd ac fe'i lanswyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru ar 22 Hydref 2020. Mae'r strategaeth gweithlu 10 mlynedd hon yn nodi'n glir y bwriad strategol ynghylch cydraddoldeb a thegwch, gan nodi'r weledigaeth a'r uchelgais yn ogystal â'r dulliau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni gweithlu cynhwysol, ymgysylltiol a chynaliadwy ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Addysg

Ysgolion

Cydnabyddir profiad hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol, yn ogystal ag amrywiaeth o anghydraddoldebau eraill, yn helaeth ac mae adroddiadau diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dogfennu rhai o'r materion hyn. Un o amcanion allweddol cynllun gweddnewid addysg Llywodraeth Cymru, sef 'Cenhadaeth ein Cenedl', yw cau'r bwlch cyrhaeddiad yn ogystal â chyflawni rhagoriaeth mewn addysg: mae'r trydydd amcan galluogol yn anelu at hyrwyddo tegwch. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn greiddiol yn hyn o beth, ac mae'n edrych y tu hwnt i'r hyn a addysgir er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu unigolion galluog, iach, gwybodus a blaengar, er mwyn eu galluogi i fyw eu bywydau â hyder, gwybodaeth a sgiliau. Mae dealltwriaeth o amrywiaeth a'r angen i herio mathau o ymddygiad hiliol yn rhan graidd o'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a'r profiad o fwlio ac aflonyddu hiliol mewn ysgolion, i ddysgwyr ac i athrawon. Mae'r cynllun hwn yn blaenoriaethu sut y byddwn yn helpu ysgolion i ymdrin â'r mathau hyn o ymddygiad mewn ffordd weladwy a diriaethol.

Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar y gweithlu addysg yng Nghymru yn dyfynnu canfyddiad Cyngor y Gweithlu Addysg fod y gyfran o athrawon du wedi parhau ar lefel o 0.2% ers 2016, ond yn ystod y cyfnod hwnnw, cynyddodd cyfran yr athrawon gwyn o 88 i 91% (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2020). Rydym yn ystyried bod dau ddimensiwn i'r materion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu: yr angen am raglenni penodol i hyrwyddo cynrychiolaeth amrywiol yn y gweithlu ym mhob ardal yng Nghymru, a'r cymorth dysgu proffesiynol sydd ei angen er mwyn galluogi pob ymarferydd i ddeall ac addysgu straeon ethnig lleiafrifol, gwrth-hiliaeth a chynwysoldeb yn hyderus ym mhob rhan o'r sector addysg, gan gynnwys darpariaeth addysgol anstatudol o 3 oed.

Mae hefyd yn bwysig ymdrin â'r ffordd y mae dysgwyr yng Nghymru yn ymgysylltu â gwahanol brofiadau hanesyddol, hiliol, diwylliannol ac ethnig. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cyfeirio'n benodol at yr angen i 'annog dysgwyr i archwilio cysyniadau gan gynnwys cronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, cydgysylltiad, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a llywodraethiant. Mae hyn hefyd yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth gyffredin o hanes, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau amrywiol eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach'. Mae'r Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd, a gaiff ei gadeirio gan yr Athro Charlotte Williams OBE, wedi cyhoeddi ei adroddiad cyntaf o ddau, sy'n tynnu sylw at yr angen am

fwy o adnoddau dysgu o ansawdd uchel, sy'n cynnwys mwy o gynrychioliadau cadarnhaol o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob sector addysgu. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y canfyddiadau yn llwyr.

Mae profiad COVID-19 mewn ysgolion wedi cael effaith anghymesur ar ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig: gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn ogystal â'r rheini sydd o bosibl wedi'u hallgáu'n ddiwylliannol ac yn gymdeithasol, neu wedi'u hallgáu o ganlyniad i hyder yn yr iaith a ddefnyddir i'w haddysgu. Rhaid i'n holl ystyriaethau a'r camau gweithredu isod ystyried profiadau a materion penodol i ddysgwyr ethnig lleiafrifol wrth adfer eu sefyllfa ddysgu yn ystod y cyfnod sydd i ddod, ochr yn ochr â phrofiadau parhaus o hiliaeth, a byddant yn gwneud hynny.



Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Gwella profiadau dysgwyr ac athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion drwy weithredu mewn ffordd gynhwysol a gwrth-hiliol mewn perthynas ag addysgu a phrofiadau yn yr ysgol.</p>	<p>Erbyn mis Gorffennaf 2022, byddwn yn atgyfnerthu canllawiau gwrth-fwlio mewn perthynas â hawliau, parch a chydraddoldeb, gan ganolbwyntio'n benodol ar y gweithdrefnau disgyblu mewn ysgolion ar gyfer ymdrin ag achosion o fwlio ar sail hunaniaeth. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu strategaethau gwrth-fwlio, sy'n cynnwys mecanweithiau effeithiol er mwyn helpu i ddiddymu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth mewn ysgolion, gan gynnwys mynd i'r afael ag ymddygiad hiliol. Bydd y diweddariad yn cynnwys cyngor ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr mewn perthynas â'r agenda hon. [fel yr argymhellir yn Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth].</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Gostyngiad yn nifer yr achosion o fwlio ar sail hunaniaeth.</p> <p>Gwell gweithdrefnau disgyblu mewn ysgolion.</p>
	<p>Er mwyn cefnogi'r canllawiau gwrth-fwlio mewn perthynas â hawliau, parch a chydraddoldeb, byddwn yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer casglu data a rhoi gwybod am ddigwyddiadau hiliol ac achosion o aflonyddu mewn ysgolion yng Nghymru. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn dadgyfuno'r data hyn yn ôl is-grŵp ethnig, fel yr argymhellir gan adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Bydd gan wneuthurwyr polisi, y sector addysg a phartneriaid wybodaeth fanylach am nifer y digwyddiadau hiliol, a gallant ddefnyddio hyn i fesur llwyddiant polisïau.</p>
	<p>Erbyn mis Gorffennaf 2022, byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn cefnogi deilliannau addysgol, gan sicrhau bod ymdrechion i hyrwyddo arferion gwrth-hiliol yn rhan greiddiol o'r broses.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Gwell deilliannau addysgol i ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.</p> <p>Gostyngiad yn nifer y digwyddiadau hiliol a brofir gan ddysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Byddwn yn cynnull gweithgor i'n helpu i atgyfnerthu ein canllawiau ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion mewn perthynas â dysgwyr yr ydym yn ymwybodol eu bod yn cael eu gwahardd yn barhaol neu dros dro mewn ffordd anghymesur. Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn cymryd tua dwy flynedd i'w gwblhau. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth o'r Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion (https://llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion), sy'n cynnwys data ar waharddiadau yn ôl cefndir ethnig. Bydd y data hyn yn parhau i gael eu cyhoeddi.</p>	Tymor canolig	Gostyngiad yn y nifer anghymesur o waharddiadau ymhlith dysgwyr ethnig lleiafrifol a dysgwyr AAA.
	<p>Byddwn yn gweithio (gyda'n partneriaid sector) i gydnabod a hyrwyddo cyrhaeddiad gwerthfawr gwaith ieuencid. Drwy argymhellion adroddiad terfynol y bwrdd yn ystod haf 2021, byddwn yn annog arferion gwrth-hiliol ac yn annog trefniadau i nodi anghenion penodol plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu ac wrth sicrhau y caiff pob person ifanc ei annog i ddefnyddio gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt. Bydd pwyllgor pobl ifanc yn gweithio gyda'r bwrdd drwy gydol y broses, gan gynrychioli safbwyntiau pobl ifanc amrywiol Cymru.</p>	Tymor byr	Mwy o ymwybyddiaeth, llai o hiliaeth a gwell hygyrchedd i blant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
	<p>Fel yr argymhellwyd gan Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Grŵp Cyngorol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19 y Prif Weinidog, a gadeiriwyd gan yr Athro Ogbonna, byddwn yn ei gwneud hi'n orfodol dysgu am straeon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd deall gwrth-hiliaeth, a'r hyder a'r gallu i herio normau niweidiol yn elfennau dysgu gorfodol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Caiff hyn ei gadarnhau fel ymrwymiad statudol erbyn diwedd 2021 (ar ôl pasio'r Bil).</p>	Tymor byr	O fewn y 'Datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig', bydd disgyblion yng Nghymru yn dysgu am straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Byddwn yn gweithredu'r argymhellion (gweler Atodiad A) a nodwyd yn yr adroddiad interim a gyflwynwyd gan y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd, a gadeiriwyd gan yr Athro Charlotte Williams OBE, ym mis Tachwedd 2020, a oedd yn canolbwyntio ar adnoddau dysgu: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaind-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-interim.pdf. Drwy gydol y broses hon, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys gwrth-hiliaeth mewn ffordd organig drwy adnoddau ystafell ddosbarth, defnyddio modelau rôl a chynnig amlygiad at amrywiaeth eang o straeon ac enghreifftiau, fel yr argymhellir yn adroddiad Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Caiff cwricwlwm newydd pob ysgol ei drafod â rhieni a chymunedau lleol a bydd yn adlewyrchu eu blaenoriaethau, fel yr argymhellir yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.</p>	Tymor canolig	Gwell amrywiaeth – lleiafrifoedd ethnig, yn y gweithlu addysgu, adnoddau i athrawon ar wrth-hiliaeth, amrywiaeth a hanes pobl Ddu.
	<p>Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ac yn annog mwy o blant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bawb i addysg a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn unol â'n huchelgeisiau fel rhan o Cymraeg 2050. Mae hyn yn cynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, y cyfnod addysg statudol, addysg ôl-16 ac addysg bellach yn ogystal â Chymraeg i oedolion. (gweler y Nod ar y Gymraeg).</p> <p>Gwneir hyn drwy gynnwys trefniadau monitro fel rhan o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ffurfiol, trafodaethau ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel rhan o'u strategaeth ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth, a nifer y bobl sy'n ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg, chwalu tybiaethau na all plant o gartrefi Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol nad ydynt o bosibl yn siarad Saesneg ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	Tymor canolig	Mwy o ddysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael y cyfle i ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn hefyd yn herio ein partneriaid grant (e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith, y Mudiad Meithrin, RhAGO sy'n cefnogi gweithgarwch Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol drwy eu Fforymau Cynllunio Cymraeg mewn Addysg i ystyried eu rôl wrth gyfleu agweddau cadarnhaol ynghylch hil, ethnigrwydd, cydraddoldeb yn ogystal â'r Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol.		
Gwella amrywiaeth y gweithlu addysg a chynnwys dysgu proffesiynol gwrth-hiliol.	Byddwn yn atgyfnerthu ac yn gwella hyfforddiant i bob athro yng Nghymru ar gydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth, gan adeiladu ar y Meini Prawf Achredu sy'n bodoli eisoes ar gyfer cynwysoldeb a chydaddoldeb. Caiff manylion y broses hon eu llywio gan argymhellion Gweithgor yr Athro Charlotte Williams sy'n canolbwyntio ar hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol athrawon, yn ogystal â'i adroddiad terfynol, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2021. Yn benodol, mae'n ystyried sut y gall pob athro feithrin hyder ac effeithiolrwydd wrth addysgu straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd y rhain yn sail i gam gweithredu newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, fel yr argymhellwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.	Tymor byr	Deall lefelau hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar draws partneriaethau er mwyn gallu eu gwella a sicrhau cysondeb.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Byddwn yn atgyfnerthu'r gwerthoedd a'r agweddau yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ysgogi pob athro i fod yr athro gorau posibl, er mwyn adlewyrchu rôl athrawon ac arweinwyr wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a bod yn wrth-hiliol yn well. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanbarthau i ddarparu dysgu proffesiynol a fydd yn galluogi pob athro ac arweinydd i ddangos ei fod yn hyrwyddo'r gwerthoedd hyn mewn ffordd gadarnhaol. Bydd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o ragfarnau a stereoteipiau ar sail hil a chyfleoedd i fyfyrion amynt, a helpu athrawon i gyfleu disgwyliadau cadarnhaol ac uchel i ddisgyblion Du a rhai o ethnigrwydd cymysg yn yr ystafell ddosbarth, ac wrth ymgymryd â gweithredoedd bugeiliol a disgyblu.</p>	Tymor canolig	Ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol mewn ffordd gadarnhaol ac yn bod yn wrth-hiliol.
	<p>Byddwn yn datblygu strategaeth a chynllun gweithredu erbyn mis Medi 2021 er mwyn cynyddu'r niferoedd yn y gweithlu addysg o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chynnwys grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli. Bydd hyn yn ystyried yr argymhellion yn adran arweinyddiaeth a chynrychiolaeth y Cynllun Gweithredu hwn er mwyn sicrhau bod dulliau recriwtio a dethol yn adlewyrchu'r arferion gorau er mwyn denu athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys argymhellion Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru). Byddwn hefyd yn gwneud defnydd cynyddol o gyfryngau digidol i gynyddu nifer y dysgwyr a gaiff eu haddysgu gan athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	Short / Medium / Long term	<p>Bydd y strategaeth yn llywio cynllun gweithredu a fydd yn nodi camau gweithredu penodol y byddwn yn eu cymryd er mwyn ymdrin â'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Tangynrychiolaeth yn y gweithlu 2. Amrywiaeth ehangach y gweithlu ym mhob ardal, gan gynnwys y rheini lle na cheir cyfran uchel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol. 3. Cynyddu nifer y cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ymuno â'r gweithlu a gwella dilyniant eu gyrfa. 4. Cynlluniau gweithredu gan Bartneriaethau AGA er mwyn cynyddu ceisiadau i gyrsiau o gymunedau ethnig lleiafrifol.
	<p>Byddwn yn sicrhau bod rhaglen E-sgol yn ceisio denu athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n siarad Cymraeg i addysgu pynciau, sesiynau adolygu neu sesiynau ymwybyddiaeth ar-lein mewn ysgolion ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd gwledig lle ceir gweithlu addysgu llai amrywiol.</p>	Tymor canolig	Niferoedd cynyddol o athrawon ethnig lleiafrifol sy'n siarad Cymraeg yn addysgu pynciau.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr ysgol a grwpiau cymorth ysgol yn hyderus wrth arwain trafodaethau cadarnhaol ynghylch gwrth-hiliaeth, amrywiaeth ddiwylliannol, drwy gydweithio â Phrifysgol Bangor a grwpiau cynghori pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i ddiwygio a chyflwyno terminoleg safonol newydd yn Gymraeg sy'n adlewyrchu cymunedau diwylliannol a hiliol ac ethnig Cymru yn y ffordd orau, a'i chynnwys yn Y Termiadur Addysg.	Tymor canolig	Mwy o hyder wrth ddeall a hyrwyddo gwrth-hiliaeth.
Gwella dealltwriaeth o amrywiaeth a hiliaeth yn y sector addysg ehangach	Byddwn yn gweithio gydag Estyn i benderfynu sut y gellir atgyfnerthu fframwaith arolygu diwygiedig ar gyfer gwrth-hiliaeth ac felly ar gyfer dysgwyr ac athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'u cydnabod, eu deall a'u cefnogi. Byddwn yn anelu at sicrhau bod hyn yn cynnwys y modd y gall ysgolion greu ymdeimlad o berthyn a diogelwch i ddysgwyr ac ymarferwyr, gan adeiladu ar argymhellion adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac argymhellion Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Erbyn Hydref 2021.	Tymor byr	Drwy arolygu, byddwn yn fwy atebol am wrth-hiliaeth ac yn meddu ar ddealltwriaeth well o sut mae'r sector addysg yn cefnogi dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn creu ymdeimlad o berthyn a diogelwch.
	Byddwn yn diwygio'r canllaw ar y gyfraith i lywodraethwyr ysgol er mwyn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol erbyn mis Tachwedd 2021. Byddwn yn darparu hyfforddiant i bob Llywodraethwr ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac ar wrth-hiliaeth, yn arbennig er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r consortia rhanbarthol yn barod i ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant hwn, yn unol ag argymhellion adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.	Tymor byr	Bydd llywodraethwyr yn meithrin gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol a gwrth-hiliaeth.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Byddwn yn rhoi gwybodaeth a chynghor i wasanaethau cymorth i lywodraethwyr awdurdodau lleol ar bwysigrwydd hyfforddiant gwrth-hiliaeth a'r rhan hanfodol sydd gan dimau arweinyddiaeth ysgolion i'w chwarae wrth roi polisiau gwrth-hiliaeth effeithiol ar waith. Yn ogystal, byddwn yn ystyried sut y gellir sicrhau bod rhestrau chwarae Hwb neu ddeunyddiau hyfforddi ar-lein eraill ar wrth-hiliaeth a chydraddoldeb ehangach ar gael i lywodraethwyr. Byddwn hefyd yn gofyn am adborth ar ddichonoldeb cyflwyno rôl Hyrwyddwr Gwrth-hiliaeth fel rhan o gyrff llywodraethu ysgolion erbyn diwedd mis Hydref 2021.</p>	Tymor byr	Bydd llywodraethwyr yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac ymdeimlad o berchenogaeth dros bolisiau cydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth.
	<p>Fel rhan o'n Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant, rydym wedi darparu cyllid o £600,000 i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn gyfredol er mwyn rhoi ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu ar waith mewn ysgolion. Gall awdurdodau lleol benderfynu, drwy drafod ag ysgolion, pa ymyriadau sydd fwyaf priodol yn eu hardaloedd, er y gall ymyriadau gynnwys meithrin gwydnwch ymhlith dysgwyr ac ymdrin â stigma a gwahaniaethu. Rydym yn ymwybodol bod problemau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl yn effeithio ar rai grwpiau o ddysgwyr yn fwy nag eraill, ac y byddant o bosibl yn ei chael hi'n anodd neu'n anghyfforddus trafod anawsterau emosiynol o ganlyniad i stigma. Mae'r dysgwyr hyn yn cynnwys y rheini sy'n rhan o un neu fwy o'r grwpiau agored i niwed neu'r grwpiau a fu ar y cyrion yn y gorffennol, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig fel plant a phobl ifanc LGBT+; plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches; plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn a Theithwyr; a phlant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	Tymor canolig	Caiff dysgwyr eu cefnogi mewn ffordd briodol ac amserol drwy drawma hiliaeth ac achosion eraill o wahaniaethu, gan eu galluogi felly i barhau â'u haddysg a chyflawni eu potensial

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Wrth i ni roi ein dull ysgol gyfan ar waith, byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r broses weithredu a'r angen i ddarparu canllawiau mwy penodol wedi'u teilwra'n well i grwpiau ethnig a grwpiau eraill lleiafrifol er mwyn sicrhau darpariaeth deg a gwrth-hiliol fel y bo'n briodol. .</p>		
	<p>Rydym hefyd wedi buddsoddi £1.252m ychwanegol i wella ac ehangu cymorth cwnsela mewn ysgolion yn 2020-21. Mae'r gwasanaeth yn gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, ac mae data yn dangos bod tua 4.5% o'r rheini a gaiff eu gweld o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Rydym wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i werthuso'r gwasanaeth a byddwn yn ystyried yr argymhellion, gan gynnwys unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â hygyrchedd y gwasanaeth a'r angen i ddarparu canllawiau mwy penodol, wedi'u teilwra'n well i grwpiau ethnig a grwpiau eraill lleiafrifol er mwyn sicrhau darpariaeth deg, pan gyflwynir adroddiad ar y canfyddiadau yn ddiweddarach yn ystod 2021.</p>	Tymor canolig	Mae darpariaeth gwnsela ar gael i fyfyrwyr ethnig lleiafrifol sy'n diwallu eu hanghenion llesiant

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Ym mis Chwefror/Mawrth 2021, byddwn yn cyhoeddi fframwaith ein Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl, sef canllawiau statudol i bob ysgol a gynhelir a phob awdurdod lleol. Bydd y canllawiau yn helpu ysgolion i ddiwallu anghenion llesiant pob un o'u dysgwyr a staff drwy adolygu eu hanghenion llesiant, rhoi strategaethau ar waith i ddatblygu eu cryfderau ac ymdrin â'u gwendidau ac adolygu a gwerthuso cynnydd fel rhan o welliant parhaus. Mae'r fframwaith yn cydnabod bod rhai dysgwyr yn wynebu risg uwch o lesiant gwael ac o gael deilliannau andwyol. Dylai uwch-dimau arwain ysgolion fod yn gweithredu mewn ffordd gynhwysol, wrth-hiliol nad yw'n stigmatiddio er mwyn sicrhau llesiant da i bob un o'u dysgwyr, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall fod angen cymorth ychwanegol ar wahanol adegau ac ymyriadau cynnar wedi'u targedu'n fwy ar rai dysgwyr, er mwyn atal profiadau negyddol. Dylai uwch-dimau arwain ysgolion ystyried eu poblogaeth o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu eu cynlluniau llesiant.</p>	Hirdymor	Gwasanaethau sy'n gallu ymateb yn well i anghenion dysgwyr ethnig lleiafrifol

Addysg bellach

Mae sefydliadau addysg bellach (AB) yn chwarae rhan hanfodol yn eu cymunedau, gan gynnig amrywiaeth eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i bob oedran ac ar bob lefel. Yn aml, maent yn cynnig "ailgyfle" i'r rheini na wnaethant ffynnu yn yr ysgol, yn ogystal ag oedolion sy'n awyddus i ailhyfforddi a meithrin sgiliau sylfaenol.

Daw cyfran uchel o ddysgwyr AB o gefndiroedd difreintiedig a grwpiau gwarchoddedig. Mae tua saith y cant o ddysgwyr mewn colegau AB o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; ac mae cyfran yr athrawon AB o'r grwpiau hynny, sef tua pedwar y cant, yn llawer uwch na'r ganran gyfatebol yn y sector ysgolion. Serch hynny, nid oes digon o waith ymchwil wedi'i wneud ar gydraddoldeb hiliol yn y sector AB. Nid ydym yn gwybod digon am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr o wahanol gefndiroedd ethnig, nac am y rhesymau sylfaenol dros unrhyw broblemau neu fylchau. Nid oes gennym ychwaith drosolwg systemig o'r modd y mae colegau yn gweithio i sicrhau na chaiff achosion o aflonyddu a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau gwarchoddedig eu goddef.

Mae'r camau gweithredu a nodir isod yn anelu at ymdrin â hyn, drwy ganolbwyntio'n bennaf ar wella ein sail tystiolaeth a'n dealltwriaeth o ddata ar staff a dysgwyr AB. Mae angen hefyd i ni ddeall mwy am brofiad dysgwyr a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn colegau, a'r dulliau gweithredu y mae colegau yn eu rhoi ar waith i ymdrin â'r risg y ceir achosion o wahaniaethu. Mae angen i ni wneud hyn cyn mynegi camau gweithredu manwl, er mwyn sicrhau ein bod yn deall beth yw'r problemau a ble maent yn digwydd. Fel rhan o'n cynllun adfer ehangach ar gyfer

COVID-19, mae'n bwysig i ni sicrhau ein bod yn deall sut y gall COVID-19 fod wedi effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr ethnig lleiafrifol, a'n bod yn cefnogi'r sector i ymateb yn effeithiol.

Mae Polisi Dysgu Oedolion (2017) Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi cyflogadwyedd, llesiant, dwyieithrwydd, teuluoedd, integreiddio, ac wrth helpu pobl o bob oed i fyw bywyd mwy annibynnol a bodlon. Mae'n rhoi cymorth i bob oedolyn wella ei Sgiliau Hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i fanteisio ar gyfleoedd gwaith neu i ddatblygu yn ei swydd.

Mae Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol – gan gynnwys Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn faes blaenoriaeth a ariennir a gyfeiriwyd at bob darparwr cyfleoedd dysgu i oedolion yn y gymuned yng Nghymru drwy ein Polisi SSIE (2019). Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd integreiddio, ac i helpu'r rheini sy'n mudo i Gymru i gyfranogi'n llawn yn y cymunedau a ddaw'n gartref iddynt. Mae gallu cyfathrebu'n hyderus yn hanfodol er mwyn iddynt ddefnyddio'r set sgiliau a gynnigir ganddynt. Fel rhan o'n cynllun, byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y rhaglen SSIE wrth ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddi, ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i ymdrin â'r deilliannau.

Rydym yn parhau i weithredu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) – fframwaith hollgynhwysol sy'n cydnabod cymwysterau o bob sector a phob lefel o'r system addysg, ni waeth ble yr ymgwymerir â'r dysgu na chan bwy. Mae FfCChC yn cynnal cysylltiadau â fframweithiau cymwysterau gweinyddiaethau eraill y DU a chyfeirir ato yn Fframwaith Cymwysterau Ewrop (EQF). Mae hyn yn sicrhau y gellir cydnabod cymwysterau a'u

cymharu'n gyffredinol, gan gynnig cludadwyedd a'r gallu i drosglwyddo i ddysgwyr a gweithwyr.

Roedd Cynllun Cyflawni Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches 2019 yn cynnwys cam gweithredu i "gefnnogi cyflogadwyedd ffoaduriaid drwy sicrhau bod Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cael ei hyrwyddo i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a darparwyr gwasanaethau i gynorthwyo i gydnabod cymwysterau". Er mwyn ymdrin â'r cam gweithredu hwn, datblygwyd canllaw newydd ac fe'i cyflwynwyd i weithwyr achosion sy'n rhoi cyngor a chymorth i ffoaduriaid yng Nghymru ar ddefnyddio FfCChC er mwyn deall a chymharu cymwysterau rhyngwladol. Yn ogystal, diweddarwyd cynnwys canllawiau FfCChC i ddysgwyr a chyflogwyr yn briodol er mwyn cynnwys cyfeiriadau at UK Naric, a all roi cyngor ar gymharu cymwysterau rhyngwladol.

Cytunodd Aelodau Grŵp Cynghori FfCChC, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rhoi FfCChC ar waith yn y DU, y byddai datblygu astudiaeth achos ar ffoaduriaid/ceiswyr lloches yn ddefnyddiol maes o law. Ni nodwyd deunydd addas i'w ddefnyddio i ddatblygu astudiaeth achos nac awdur technegol eto. Mae Colegau Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori FfCChC, hefyd wedi bod yn cynnal ymarfer cwrmpasu i gadarnhau arferion cydnabod dysgu blaenorol cyfredol yn y sector addysg alwedigaethol yng Nghymru a bydd gweminar a gynhelir ym mis Chwefror yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio dulliau cydnabod dysgu blaenorol gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn llywio'r broses o ddatblygu canllawiau newydd.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Gwella ein sail tystiolaeth a'n dealltwriaeth o broffiliau ethnig yn y sector Addysg Bellach, a gweithio i sicrhau eu bod yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gan golegau.</p>	<p>Cynnal gwaith dadansoddi manwl ar y data ar ddysgwyr sy'n nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol er mwyn canfod ble y gellir gwneud gwelliannau uniongyrchol ac effeithiol.</p> <p>Cynnal gwaith dadansoddi penodol ar ddeilliannau dysgwyr a lefelau cymwysterau yn ôl ethnigrwydd (wedi'i rannu yn ôl rhyw).</p> <p>Sicrhau y caiff gwaith dadansoddi newidynnau ethnigrwydd ei gynnwys fel mater o drefn fel rhan o adroddiadau ystadegol, gan gynnwys deilliannau dysgwyr, arolygon staff a dysgwyr.</p>	Tymor byr	Gwell sail tystiolaeth ar ethnigrwydd ac argymhellion ar gyfer ymdrin â'r bylchau a'r materion a nodwyd.
	<p>Gwaith gyda chynrychiolwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ym mhob rhan o'r sector i ddatblygu adnoddau a systemau cymorth mewn ymateb i'r dadansoddiad hwn (2022-23).</p>	Tymor canolig	Dull system gyfan o sicrhau bod cyfranogiad a deilliannau dysgwyr o wahanol gefndiroedd ethnig yn deg ac y caiff ffactorau sylfaenol eu deall ac yr ymdrinnir â nhw.
<p>Cynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i bob aelod o staff a myfyriwr, mewn sector Addysg Bellach lle yr ymdrinnir ag achosion o aflonyddu a gwahaniaethu hiliol.</p>	<p>Fel rhan o brosiect Datblygu'r Gweithlu Ôl-16, ystyried cynrychiolaeth tiwtoriaid, aseswyr, arweinwyr a staff cymorth yn y gweithlu ôl-16 sy'n nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gan ganolbwyntio ar recriwtio a chadw (2021-23).</p>	Tymor byr Tymor canolig	Cynyddu amrywiaeth staff, yn arbennig staff ethnig lleiafrifol, ar bob lefel yn y sector AB yng Nghymru.
	<p>Gweithio gyda rhanddeiliaid Addysg Bellach, staff a myfyrwyr i atgyfnerthu polisïau a gweithdrefnau er mwyn mynd i'r afael ag aflonyddu a bygythiadau hiliol.</p>	Tymor byr	<p>Mae systemau sefydliad cyfan cadarn ar waith ym mhob Sefydliad Addysg Bellach er mwyn codi pryderon am ymddygiad hiliol a mynd i'r afael ag ef.</p> <p>Mae'r sector Addysg Bellach yng Nghymru yn amrywiol, yn arbennig o ran lleiafrifoedd ethnig ac mae manau cynhwysol yn amlwg i staff ac i fyfyrwyr, a cheir tystiolaeth o hynny mewn arolygon boddhad myfyrwyr a staff ac o adborth profiad bywyd.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Sicrhau bod y ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn diwallu anghenion cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llawn</p>	<p>Cynnal adolygiad er mwyn ystyried y materion gweithredol a godwyd ynghylch dysgu oedolion yn y gymuned, yn enwedig y cysylltiad rhwng hyfforddiant SSIE a hyfforddiant galwedigaethol.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Mwy o gyfleoedd i bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol wneud cynnydd tuag at gyflogaeth deg a boddhaus.</p>
<p>Sicrhau bod Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn parhau i gefnogi egwyddorion gwrth-hiliaeth, cydnabod dysgu blaenorol ac yn hwyluso'r broses o ddeall a chymharu cymwysterau rhyngwladol.</p>	<p>Cynnal cysondeb rhwng FfCChC a'r fframweithiau cymwysterau eraill yn y DU a Fframwaith Cymwysterau Ewrop er mwyn helpu i sicrhau y gellir parhau i gymharu cymwysterau ac y gall dysgwyr symud rhwng gwledydd. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo FfCChC fel ffordd o hwyluso dealltwriaeth o gymwysterau a chydabod y cymwysterau hynny a chyfeirio ymholiadau gan ddysgwyr rhyngwladol mewn perthynas â chyfwerthedd cymwysterau rhyngwladol a sut maent yn cymharu â'i gilydd.</p> <p>Byddwn yn coladu gwybodaeth ynghyd ag enghreifftiau o'r mathau o gymwysterau nad ydynt yn cael eu cydnabod na'u derbyn gan sefydliadau neu gyflogwyr ledled Cymru ar hyn o bryd, i'n helpu i ddeall rhwystrau at gyflogaeth.</p>	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Caiff cymwysterau a dysgu eu deall a'u cydnabod, gan hwyluso cynnydd a symudedd dysgwyr/dinasyddion, a'u gallu i drosglwyddo.</p> <p>Mwy o gysondeb o ran y dulliau gweithredu a ddefnyddir er mwyn asesu dysgu blaenorol.</p>

Addysg Uwch

Rydym yn cydnabod gwerth a buddiannau gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth yn y sector addysg uwch (AU) i staff a myfyrwyr. Er bod anghydraddoldebau amlwg yn y sector addysg uwch (AU), caiff arferion da eu datblygu mewn prifysgolion yng Nghymru er mwyn cynyddu'r amrywiaeth hon a gwella'r cryfderau cysylltiedig. Mae gan brifysgolion yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel yr aseswyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). Serch hynny, ceir tystiolaeth o anghydraddoldebau ar sail hil ymhlith staff a myfyrwyr yn y sector addysg uwch. Noda tystiolaeth o Brifysgolion (UJK) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod y graddau y mae uwch-arweinwyr ledled y DU yn cymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol yn amrywio rhwng prifysgolion. Mae materion yn amrywio o wahaniaethau o ran cyfraddau mynediad a chynnydd i fylchau wrth ddyfarnu graddau i brofiadau negyddol, gan gynnwys aflonyddu a bwlio, wrth astudio neu weithio yn y sector.¹³ Er enghraifft, nododd yr adroddiad *A yw Cymru'n Decach? 2018*¹⁴ yn 2015/16 fod lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr Gwyn Prydeinig 8.5 pwynt canran yn uwch na myfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (ethnig lleiafrifol o hyn ymlaen). Mae adroddiad *Universities UK, Tackling racism in higher education*, yn nodi bod 24% o fyfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi profi aflonyddu hiliol mewn prifysgolion ym Mhrydain ers dechrau eu cwrs, a bod mwy na 7 o bob 10 aelod o staff a oedd wedi profi aflonyddu hiliol

wedi cyfeirio at weithredoedd micro-ymsodol ac ymddygiad diraddiol.¹⁵ Adlewyrchwyd y data ffeithiol hyn yn glir ym mhrofiadau bywyd pobl ethnig leiafrifol a gymerodd ran yn y digwyddiadau cyraedd gwraidd y mater a'r digwyddiadau bord gron a gynhaliwyd gennym.

Canfu ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu hiliol mewn addysg uwch¹⁶ yn 2018 fod aflonyddu hiliol yn brofiad cyffredin mewn prifysgolion a ariennir yn gyhoeddus ym Mhrydain, a'i fod yn digwydd yn eang, gan gynnwys aflonyddu hiliol, ymosodiadau corfforol, galw enwau a micro ymosodedd. Tynnodd sylw at faterion a oedd yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth yn y sector mewn perthynas ag aflonyddu hiliol, diffyg hyder ymhlith staff prifysgolion wrth ymdrin â materion hiliol, a materion ynghylch cofnodi achosion a'r ffaith nad oedd sefydliadau yn cael gwybod am bob achos. Yn amlwg, mae angen sicrhau y caiff newid diwylliannol gwirioneddol ei annog er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â hiliaeth yn y sector AU ac er mwyn sicrhau bod y profiad o AU yn brofiad cadarnhaol i fyfyrwyr a staff ethnig lleiafrifol. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys ymrwymiad uwch-reolwyr, modelau rôl cadarnhaol a sicrhau bod systemau priodol ar waith i ymdrin â'r materion hyn, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n annog unigolion i roi gwybod am ddiwyddiadau, a theimlo'n hyderus y caiff y digwyddiadau hyn eu hystyried o ddifrif ac y cymerir camau clir a phriodol.

Rydym am fynd i'r afael â hiliaeth ar bob lefel o addysg uwch yng Nghymru, o fewn sefydliadau ac ym mhob rhan o'r sector. Byddwn yn parhau i weithio gyda CCAUC a'i gorff olynol arfaethedig, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ynghyd â staff, myfyrwyr a sefydliadau cyfan, er mwyn ymdrin ag arferion gwrth-hiliol ym mhob rhan o'r sector AU. Byddwn yn disgwyl i CCAUC barhau i nodi ei ddisgwyliadau yn hyn o beth yn glir wrth feithrin ei gydberthnasau â'r sector AU a'r Llywodraeth. Mae hynny'n cynnwys disgwyliad y bydd prifysgolion yn gweithredu ar sail dull gwrth-hiliol sefydliad cyfan mewn perthynas â'r mater hwn, o dan arweiniad a pherchenogaeth uwch-reolwyr, ac y bydd yn rhan benodol o'u systemau llywodraethu, eu strwythurau a'u polisïau.

Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed ar draws y sector AU yng Nghymru i ymdrin â hiliaeth ac yn cydnabod bod CCAUC a sefydliadau AU yn cymryd camau i ymdrin â hiliaeth. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru y bydd CCAUC a sefydliadau AU yn gwneud cynnydd cyflym a chyson wrth fynd i'r afael â hiliaeth, a gwella profiad staff a myfyrwyr o AU ni waeth beth fo'u cefndir hiliol. Rydym yn disgwyl agwedd dim goddefgarwch mewn perthynas â hiliaeth yn y sector AU yng Nghymru. Er mwyn gwireddu hyn, rydym wedi nodi nodau a chamau gweithredu sy'n adeiladu ar waith sy'n mynd rhagddo eisoes a gwaith sy'n datblygu ymhellach gyda CCAUC a sefydliadau AU yng Nghymru i ymdrin ag

13 www.nusconnect.org.uk/resources/race-for-equality-a-report-on-the-experiences-of-black-students-in-further-and-higher-education-2011

14 www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf

15 www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2020/tackling-racial-harassment-in-higher-education.pdf

16 www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged.pdf

anghydraddoldeb hiliol fel y mae'n effeithio ar staff a myfyrwyr. Bydd yn cynnwys mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu arferion da mewn meysydd fel ehangu mynediad,¹⁷ gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol a datblygu cysylltiadau â chyflogwyr.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar amrywiaeth o ddata, gan gynnwys niferoedd myfyrwyr a staff, adroddiadau gan CCAUC a thystiolaeth gan unigolion fel y'i hamlygir mewn adroddiadau fel *Tackling racial harassment in higher education* gan Universities UK.¹⁸ Mae'n dibynnu ar barodrwydd unigolion a sefydliadau fel ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb dros nodi agweddau ac ymddygiad hiliol a mynd i'r afael â nhw a, lle bo angen, ysgogi newid diwylliannol gwirioneddol. Mae'n golygu newid sylweddol o ran ymddygiad sefydliadau. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod systemau adrodd cadarn ar waith, bod unigolion yn teimlo bod y sefydliad yn gwrandao amynt a'u bod yn cael eu cefnogi, a bod atebion go iawn yn cael eu creu. Mae hefyd yn golygu cymryd camau i ymdrin â materion fel cyfraddau derbyn, cadw a chynnydd, bylchau wrth ddyfarnu graddau ac anghydraddoldebau o ran cyflogau staff.

Nid mater o fodloni'r gofynion sylfaenol a nodir mewn cyfraith mohono. Mae cynyddu amrywiaeth hiliol o fewn sefydliadau o fudd i bawb sy'n gweithio ac yn astudio ynddynt, gan wella'r profiad o addysg uwch a sicrhau bod modelau rôl cadarnhaol i'w gweld. Mae mwy i'w wneud gan weithio ar draws asiantaethau a phortffolios Gweinidogol, er mwyn ysgogi newidiadau fel iechyd a lles, sgiliau a busnesau.

Camau gweithredu i Lywodraeth Cymru yw'r camau gweithredu a nodir yma, ond ni allwn ysgogi'r newid hwn ar ein pen ein hunain. Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fel y rheoleiddiwr cydraddoldebau yng Nghymru, gan gynnwys CCAUC a'r sector AU, fonitro atebolrwydd a chydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol ac i CCAUC weithio gyda sefydliadau i ddatblygu eu dulliau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth. Byddwn hefyd yn gofyn i unigolion yn y sefydliadau hynny, gan gynnwys myfyrwyr a staff ar bob lefel, chwarae eu rhan wrth greu newid parhaus.

17 <https://www.uniswales.ac.uk/policy/widening-access/>

18 <https://universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2020/tackling-racial-harassment-in-higher-education.pdf>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i bob aelod o staff a myfyriwr, lle yr ymdrinnir ag achosion o aflonyddu a gwahaniaethu hiliol yn brydlon ac yn effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu data sy'n canolbwyntio ar staff a myfyrrwyr – gan gynnwys ystadegau a data profiadau bywyd ar hiliaeth yn y sector AU a gweithio gyda rhanddeiliaid unigol a sefydliadol i ddatblygu ymateb polisi gwrth-hiliol priodol ac effeithiol. • Gweithio gyda CCAUC a rhanddeiliaid staff a myfyrrwyr i atgyfnerthu polisiâu a gweithdrefnau mewn prifysgolion er mwyn mynd i'r afael ag aflonyddu a bygythiadau hiliol. • Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ac ymateb i faterion a phrofiadau penodol a godwyd gan fenywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel staff a myfyrrwyr. 	Tymor byr	Addysg Uwch yng Nghymru i ddod yn fan mwy gwrth-hiliol, cadarnhaol a chynhwysol i staff a myfyrrwyr.
<p>Sicrhau bod arferion gwrth-hiliol ym mhob polisi a gweithdrefn yn galluogi myfyrrwyr ethnig lleiafrifol i ymgymryd ag addysg uwch, gwneud cynnydd a llwyddo ni waeth beth fo'u cefndir hiliol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Creu llwybrau cadarn gyda rhanddeiliaid er mwyn cefnogi cyfleoedd i fyfyrwyr ethnig lleiafrifol ymgymryd ag addysg uwch a llwyddo. • Deall y gwahaniaethau o ran profiadau addysg uwch a deilliannau addysg uwch rhwng gwahanol grwpiau ethnig lleiafrifol ac ymdrin â nhw. 	Tymor canolig	Gall myfyrrwyr ddisgwyl profiad a deilliannau cadarnhaol yn y sector AU ni waeth beth fo'u cefndir hiliol ac ethnig.
<p>Sicrhau y caiff staff ethnig lleiafrifol eu galluogi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth mewn addysg uwch, a llwyddo a gwneud cynnydd, ni waeth beth fo'u cefndir hiliol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau gwybodaeth am fylchau cyflog ethnigrwydd • Gweithio gyda CCAUC a sefydliadau a chynrychiolwyr staff AU i fonitro cyflogau staff yn ôl ethnigrwydd ac i ddatblygu ymateb priodol er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau. • Gweithio gyda CCAUC, prifysgolion a chynrychiolwyr staff i ymdrin ag anghydraddoldebau ar sail hil sy'n ymwneud â recriwtio, cadw a chynnydd staff. • Byddwn yn annog prifysgolion i barhau i ddatblygu rhaglenni er mwyn helpu staff i ddatblygu a gwneud cynnydd. • Caiff pobl ethnig leiafrifol eu hadlewyrchu ar Fyrddau a phwyllgorau mewn sefydliadau AU ac yn CCAUC. 	Tymor canolig	<p>Gall staff o grwpiau ethnig lleiafrifol lwyddo a gwneud cynnydd yn y sector AU ar sail eu cyflawniadau a'u rhinweddau personol, ni waeth beth fo'u cefndir hiliol.</p> <p>Mae'r cynnydd o ran cynrychiolaeth ethnig leiafrifol ar Fyrddau AU a chyrrff cysylltiedig yn adlewyrchu amrywiath Cymru.</p>

Cyflogadwyedd a Sgiliau

Mae Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o ymrwymadau allweddol er mwyn helpu'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mewn ffordd unigoleddig wrth ddarparu cymorth cyflogadwyedd, a hyrwyddo cynhwysiant, gan ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n gweithredu ein rhaglenni ddangos ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb a chydraddoldeb.

Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod bod rhai pobl, gan gynnwys pobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol), menywod a phobl anabl yn profi canlyniadau is yn y farchnad lafur.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig nifer o raglenni cyflogadwyedd i bobl ddi-waith i'w galluogi i feithrin sgiliau ac ennill cymwysterau i'w helpu i ddod o hyd i swydd neu gadw swydd. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, Twf Swyddi Cymru, ReAct, PaCE a Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol, yn ogystal â'n gwasanaeth cyngor Cymru'n Gweithio.

Nododd adroddiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a'r adroddiad grantiau cymunedol, yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, nad yw ein hymgyrchoedd cyfathrebu na'n negeseuon yn llwyddo'n gyson i gyrraedd pob cymuned ledled Cymru, ac yn arbennig, gymunedau ethnig lleiafrifol. Nid yw pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, i'r rheini sy'n chwilio am waith nac i'r rheini sydd mewn gwaith ac am wneud cynnydd. Rhaid i ni barhau i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol ac arloesol o hysbysu gwahanol gymunedau ledled Cymru am yr hyn a gynnigir gennym.

Byddwn yn cynnal adolygiad gwrth-hiliol o'n rhaglenni cyflogadwyedd er mwyn sicrhau bod eu gweithrediadau yn gynhwysol ac nad oes perygl y byddant yn gwaethygu unrhyw anghydraddoldebau a gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes wrth helpu pobl i ddod o hyd i waith teg a boddhaus. Byddwn yn ystyried effaith ein camau gweithredu ar bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, gan gofio eu bod yn amrywiol a bod ganddynt wahanol anghenion. Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith ymgysylltu presennol â rhanddeiliaid o gymunedau ethnig lleiafrifol er mwyn canfod yn union sut y dylem eu hysbysu am yr hyn a gynnigir gennym a sut y dylem wella ymwybyddiaeth o'n darpariaeth dysgu a sgiliau ôl-16 ac ymddiriedaeth ynddi. A byddwn yn nodi pa rwystrau sy'n bodoli o hyd sy'n atal pobl rhag manteisio ar gymorth cyflogadwyedd a sgiliau a chael budd o'r cymorth hwnnw, a'u dileu.

Mae sicrhau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad yn flaenoriaethau allweddol yn ein sector ôl-16. Ond rydym yn cydnabod bod angen cymryd camau pellach er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig sy'n atal pobl rhag manteisio ar y cyfleoedd sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n bodoli yng Nghymru. Fel rhan o'n Polisi Prentisiaethau, rydym yn cyllido Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n gyfrifol am sicrhau ffocws estynedig er mwyn cynyddu ymrwymiad darparwyr prentisiaethau i wella cyfranogiad gan unigolion o grwpiau gwarchoddedig ar raglenni prentisiaethau. Mae'r Hyrwyddwr wedi ymgymryd â chrynwaith ymgysylltu â llawer o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fel rhan o'i gwaith beunyddiol ers iddi ymgymryd â'r rôl ac yn benodol, yn ystod y misoedd diwethaf wrth ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb newydd pum mlynedd o hyd ar ran y rhwydwaith darparwyr prentisiaethau. Mae darparwyr yn disgwyl cyhoeddi'r Strategaeth yn ystod y misoedd nesaf.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Gwella hygyrchedd a pherthnasedd rhaglenni i sicrhau gwell canlyniadau i grwpiau ethnig lleiafrifol mewn perthynas â rhaglenni Sgiliau Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a gwella'r data perfformiad sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni hynny.</p>	<p>Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r data a gesglir gennym am ddysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn Rhaglenni Cyflogadwyedd ac yn parhau i ddatblygu trefniadau ar gyfer dadansoddi cyfranogiad a chanlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn ein hadroddiadau ystadegol (wedi'u dadgyfuno yn ôl grwpiau ethnig lleiafrifol gwahanol lle y bo'n bosibl).</p> <p>Byddwn yn adolygu ac yn gwerthuso'r data a gesglir gennym am Raglenni Cyflogadwyedd. Wedyn, byddwn yn cynnal adolygiad gan ddefnyddio gwrth-hiliaeth fel lens ar gyfer ein rhaglenni cyflogadwyedd – gan gynnwys Cymru'n Gweithio, ReACt, Hyfforddeiaethau, Twf Swyddi Cymru, Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd.</p> <p>Gofynnir i Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio roi datblygiadau ar waith sy'n eu galluogi i gysylltu â grwpiau ethnig lleiafrifol mewn ffordd fwy effeithiol a pherthnasol. Defnyddio cyngor gyrfaoedd a gwasanaethau arweiniad er mwyn helpu unigolion a gwneud y dewisiadau gyrfa cywir. Byddwn yn datblygu cynigion wedi'u cyd-awduro er mwyn gwella dyheadau gyrfa pobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.</p>	<p>Tymor byr Erbyn Ebrill 2023</p>	<p>% uwch o bobl ethnig lleiafrifol yn yr holl raglenni a nodwyd ac yn defnyddio'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â demograffeg cymdeithas ehangach.</p> <p>Gwell lefelau perfformiad.</p> <p>Gwell lefelau boddhad cwsmeriaid.</p> <p>Gwell ymwybyddiaeth o ddewisiadau gyrfa.</p>
<p>Cefnogi pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol drwy Raglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.</p>	<p>Byddwn yn cynnal adolygiad gan ddefnyddio gwrth-hiliaeth fel lens ar gyfer ein Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol. Cynnal gwaith dadansoddi ar yr ystadegau am gyfranogwyr sy'n nodi eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol er mwyn canfod ble y gellir gwneud gwelliannau uniongyrchol ac effeithiol wrth roi rhaglenni ar waith. Adolygu trefniadau ymgysylltu partneriaid cyflenwi â sefydliadau ethnig lleiafrifol cymunedol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy Raglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.</p> <p>Adolygu'r lleoliadau lle ceir darpariaeth gymunedol er mwyn gwella hygyrchedd y ddarpariaeth i unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol.</p>	<p>Tymor byr Erbyn Ebrill 2023</p>	<p>Profiad a chyfleoedd teg i gyfranogwyr wneud cynnydd tuag at gyflogaeth.</p> <p>Mwy o unigolion o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ymgymryd â Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Bydd rhaglenni cyflogadwyedd yng Nghymru yn cynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i bob aelod o staff a myfyriwr, lle yr ymdrinnir ag achosion o aflonyddu a gwahaniaethu hiliol.</p>	<p>Bydd yr adolygiad yn cynnwys asesiad o wrth-hiliaeth yng ngweithlu'r darparwyr dysgu a'r sefydliadau cyflenwi sy'n cynnig ein rhaglenni a'n gwasanaethau cyflogadwyedd.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno rhaglen o hyfforddiant gwrth-hiliaeth a sesiynau ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth i bob darparwr a dysgwyr sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni.</p> <p>Byddwn yn sicrhau bod darparwyr yn parhau i fonitro risgiau cynyddol COVID-19 wrth ystyried anghenion dysgwyr a staff o gymunedau ethnig lleiafrifol, a byddwn yn cwblhau asesiadau risg fel y bo'n ofynnol.</p>	<p>Tymor byr Erbyn Ebrill 2023</p>	<p>Meithrin ymddiriedaeth ymhlith y rheini sy'n darparu'r data.</p> <p>Ni fydd unrhyw effaith anuniongyrchol nac anghymesur ar ddysgwyr o ganlyniad i unrhyw amharodrwydd i fynychu darpariaeth wyneb-yn-wyneb o ganlyniad i risg ganfyddedig uwch i'w hiechyd.</p> <p>Mae lleoliadau cyflogadwyedd yn fannau amrywiol a chynhwysol i staff.</p> <p>Dull system gyfan er mwyn codi pryderon am ymddygiad hiliol a mynd i'r afael ag ef.</p>
<p>Profi dulliau gweithredu cyflogadwyedd newydd mewn perthynas â gwrth-hiliaeth.</p>	<p>Drwy'r Porth Sgiliau, byddwn yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar arferion recriwtio gwrth-hiliol a sesiynau ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth i fusnesau.</p> <p>Creu cronfa her cydraddoldeb newydd i gefnogi gwaith peilot arloesol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â lleiafrifoedd ethnig a'u cefnogi ledled Cymru.</p> <p>Defnyddio Cronfa Ddysgu Undebol Cymru (WULF) Gweithio gydag undebau llafur i ddatblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd y gweithlu, gan roi pwyslais penodol ar ddileu rhwystrau i unigolion nad ydynt yn draddodiadol yn ddysgwyr.</p> <p>Byddwn hefyd yn ystyried llwybrau ar gyfer datblygu fframwaith wedi'i gyd-awduro ar gyfer dysgu fel teulu, fel llwybr ar gyfer meithrin sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Mwy o gyfleoedd i bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol wneud cynnydd tuag at gyflogaeth deg a boddhaus.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Cefnogi pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau.</p>	<p>Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau er mwyn sicrhau mwy o ddiddordeb ac er mwyn sicrhau bod y rhaglen prentisiaethau yn fwy perthnasol.</p> <p>Mae'r Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol mewn Prentisiaethau wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu sylweddol gyda llawer o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a sefydliadau cynrychioliadol wrth ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb newydd bum mlynedd o hyd ar ran y rhwydwaith darparwyr prentisiaethau. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu presennol hwnnw â rhanddeiliaid a chymunedau er mwyn ystyried sut y dylem roi gwybod am ein darpariaeth a gwella ymwybyddiaeth.</p> <p>Ymhlith y mesurau a gynigir fel rhan o'r strategaeth honno mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Deunydd hyrwyddo wedi'i dargedu - Digwyddiadau wedi'u targedu mewn cymunedau - Recriwtio a hyrwyddo Llysgenhadon Prentisiaethau ethnig lleiafrifol - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol i ddarparwyr - Fforymau trafod â grwpiau/dysgwyr ethnig lleiafrifol - Gweithdrefnau recriwtio dall – enwau a chyfeiriadau - Hyfforddiant ar weithredu cadarnhaol <p>Byddwn yn ystyried y Strategaeth Cydraddoldeb sydd wrthi'n cael ei datblygu gan ddarparwyr prentisiaethau yng Nghymru a fydd yn nodi sut y gall y rhwydwaith greu newid mewn perthynas â materion cydraddoldeb, gan gynnwys hil.</p>	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Mwy o unigolion o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ymgymryd â rhaglenni prentisiaethau.</p>

Cynllun Gweithredu Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Naratif

Mae gan y byd gwaith rôl hanfodol i'w chwarae yn ein llesiant unigol a chymdeithasol. Mae gwaith yn fecanwaith cymdeithasol y mae ein holl gymunedau yn rhyngweithio drwyddo i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae ein llesiant cyfunol yn dibynnu arnynt. Ar lefel unigol, mae gwaith teg, diogel a chyson yn grymuso pobl i ddiwallu eu hanghenion, yn darparu ymdeimlad o gyflawniad ac yn galluogi unigolion i gyfrannu, datblygu a thyfu. Ar lefel gymdeithasol, mae'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cyfranogiad a datblygiad cymdeithasol ac economaidd.

Mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod unigolion sydd â gwaith teilwng yn byw bywydau hapusach ac iachach. Fodd bynnag, gwyddom nad yw gwaith teg, diogel a chyson yn rhywbeth cyffredinol nac yn rhywbeth a ddosberthir yn gyfartal. Dengys canfyddiadau cyson yn adroddiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac adroddiadau eraill fod anghydraddoldebau hiliol cyson sydd wedi hen ymwreiddio ym maes cyflogaeth ac incwm. Mae'r rhain yn cynnwys tangynrychiolaeth ar lefelau uwch, cyfraddau is o godiadau cyflog, a gorgynrychiolaeth mewn swyddi â chyflog is sy'n fwy ansefydlog.

Yn ogystal â'r hyn y mae adroddiadau ymchwil yn ei ddweud wrthym, rydym wedi clywed yn uniongyrchol gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol am eu profiadau bywyd a'r rhwystrau, yr ymddygiadau a'r diwylliannau sefydliadol annerbiniol y maent wedi dod ar eu traws yn y gweithle ac sy'n eu hatal rhag gallu datblygu. Nid yw'r anghydraddoldebau hyn yn dderbyniol ac rydym yn benderfynol o ddefnyddio ein pwerau a'n dylanwad i newid y canlyniadau hyn er gwell.

Rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau ar gyfer cenedl gwaith teg – gan ddefnyddio pob dull ysgogi sydd gennym i helpu i wireddu canlyniadau gwaith teg a gwella bywydau gwaith. Fel rhan o hynny, byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn treiddio i bob agwedd ar ein dull o ymdrin â gwaith teg er mwyn sicrhau bod cefnogi gwrth-hiliaeth yn y gwaith wrth wraidd hynny. Er mwyn helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd, byddwn yn ymgorffori mesurau ar ddata cyflog, data cyflogaeth a data eraill ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n berthnasol i'r byd gwaith yn ein dangosyddion canlyniadau gwaith teg. Ac rydym yn ymrwymo i wneud hynny eleni. Byddwn yn defnyddio'r mesurau hynny i wella ein dealltwriaeth a'n sail tystiolaeth o faterion gwaith teg mewn perthynas â hil, a byddwn yn eu defnyddio i lywio ein datblygiad polisi a'n hymyriadau yn y dyfodol. Wrth

gwrs, byddwn hefyd yn parhau i wrando ar brofiadau bywyd pobl, gan gydnabod y gall data adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol ond nad ydynt o reidrwydd yn rhoi profiad bywyd unigol i ni.

Er mwyn helpu i weithredu'r camau yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, byddwn yn defnyddio pŵer a dylanwad ein dull partneriaeth gymdeithasol sefydledig, ac yn ei ddefnyddio i weithio'n agos gyda chyflogwyr ac undebau llafur i ddatblygu atebion ar y cyd i heriau cyffredin. Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau bod cyflogwyr ac undebau llafur yn gweithredu fel hyrwyddwyr newid – gan ein helpu i ledaenu ymwybyddiaeth a gweithredu arferion da mewn gweithleoedd ledled Cymru. Yn benodol, byddwn yn defnyddio Cyngor Partneriaeth y Gweithlu – sy'n dwyn ynghyd gyflogwyr ac undebau llafur yn y sector cyhoeddus yng Nghymru – i ystyried a chytuno ar y camau gweithredu pellach y dylai gwasanaethau cyhoeddus datganoledig eu cymryd fel cyflogwyr. Yn benodol, bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu 'Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth' a geir yn y CGCH. Bydd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod llais gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llywio ac yn llunio camau gweithredu yn y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod y rhaglen waith newydd a ddatblygir eleni yn cynnwys amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth.

Byddwn yn cymryd camau i wella cydymffurfiaeth y gweithle â chyfraith cydraddoldeb, gan gynnwys drwy feithrin cydberthnasau mwy effeithiol â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill. Byddwn yn ystyried datblygu mecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth gan bartneriaid cymdeithasol ac eraill er mwyn helpu i ganfod, atal ac adfer achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Gan weithio gydag undebau llafur a chyflogwyr, byddwn yn herio rhagfarn yn y gweithle ac yn annog polisi dim goddefgarwch o ran gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle o'r cam arferion recriwtio a thrwy gydol gyrfaeodded unigolion. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gyflawni rhwymedigaethau cydraddoldeb statudol yn unig a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cymdeithasol i helpu cyflogwyr i gydnabod bod gweithlu amrywiol ac amgylcheddau gwaith sy'n helpu gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gyfranogi, datblygu a ffynnu o fudd i bawb.

Mae cyflawni'r nodau a'r camau gweithredu hyn yn galw am ymdrech gyson a pharhaol ynghyd â phroses fyfyrion onest. Er mai'r bwriad yw y bydd y gwaith o gyflawni hyn yn dechrau ac yn datblygu'n gyflym yn ystod 2021, i raddau helaeth, nid oes dyddiad terfyn lle y cyflawnir cam gweithredu heb yr angen am weithgarwch pellach, oherwydd bydd lle bob amser i wella a datblygu ymhellach.

Hefyd, o gofio cyflymder newid yn y byd gwaith, bydd angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o risgiau a chyfleoedd newydd a datblygol a'u heffaith anghymesur yn ôl hil. Mae hyn yn pwysleisio gwerth llunio'r nodau a'r camau gweithredu hyn yng nghyd-destun ehangach partneriaeth gymdeithasol a'r gydberthynas ddynamig y mae'n ei darparu i ystyried a llunio ein hymatebion i'r heriau a'r cyfleoedd hyn mewn amser real.

Nodau

Nod 1

Byddwn yn defnyddio ein dull partneriaeth gymdeithasol a'n strwythurau i ddatblygu a chytuno ar newidiadau o ran prosesau, polisiau a gweithdrefnau sefydliadol ac yn eu rhoi ar waith gyda'r nod o wella canlyniadau gwaith teg i weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Nod 2

Byddwn yn gwella cydymffurfiaeth gweithleoedd â chyfraith cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle o'r cam recriwtio a thrwy gydol gyrfaeodded unigolion.

Nod 3

Byddwn yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn hyrwyddo arferion gwrth-hiliol yn y gweithle drwy weithredu'r agenda gwaith teg.

Nodau, Camau Gweithredu, Canlyniadau ac Effaith

Nod	Camau Gweithredu	Canlyniadau ac Effaith
<p>Byddwn yn defnyddio ein dull partneriaeth gymdeithasol a'n strwythurau i ddatblygu a chytuno ar newidiadau o ran prosesau, polisiau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n gwella canlyniadau gwaith teg i weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn eu rhoi ar waith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Yn ystod 2021, byddwn yn cynnwys amcan amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth yn rhaglen waith newydd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu¹⁹ ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa well i gefnogi'r camau gweithredu yn y CGCH, gan gynnwys datblygu canllawiau ac arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus datganoledig i gefnogi'r CGCH. - Ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol ac eraill er mwyn cytuno ar fecanweithiau i nodi, lledaenu a gweithredu arferion gorau a chefnogi'r gwaith o gyfleu enghreifftiau da erbyn diwedd 2021. - Hyrwyddo ymwybyddiaeth, cefnogaeth ac eiriolaeth barhaus ar gyfer CGCH ar bob lefel o'r system partneriaeth gymdeithasol, hyd at a chan gynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a gadeirir gan Weinidogion Cymru. 	<p>Ymgysylltu'n llawn â chyflogwyr ac undebau llafur fel partneriaid er mwyn helpu i roi'r CGCH ar waith ac i sicrhau y caiff yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar weithleoedd.</p> <p>Nodi llais a phrofiad gweithwyr mewn perthynas ag arferion gweithleoedd.</p> <p>Manteisio i'r eithaf ar botensial gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i weithredu fel cyflogwyr sy'n dangos esiampl, gan gynnwys prosesau recriwtio, cynrychioli a datblygu gwell i weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar draws y sector cyhoeddus datganoledig.</p>
<p>Byddwn yn gwella cydymffurfiaeth gweithleoedd â chyfraith cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn y gweithle o'r cam recriwtio a thrwy gydol gyrfaoedd unigolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gwella cydberthnasau a chyfleoedd i gydweithio â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac asiantaethau gorfodi perthnasol eraill, gan ddechrau gyda gwaith ymgysylltu mwy effeithiol ac ystyrlon yn ystod 2021. - O fewn y 18 mis nesaf, datblygu mecanweithiau ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth gan bartneriaid cymdeithasol ac eraill er mwyn helpu i ganfod, atal ac adfer achosion o ddiffyg cydymffurfio. - Defnyddio ein dulliau ysgogi i wella mynediad at Undebau Llafur a'r cymorth a ddarparant wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu mewn gweithleoedd. Penodi'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i oruchwylio'r gweithgarwch hwn – gan ddechrau yn ystod 2021. 	<p>Gweithleoedd tecach, llai o enghreifftiau o achosion o ddiffyg cydymffurfio na sylwir arnynt, a grymuso unigolion i herio ymddygiadau annerbyniol yn y gweithle.</p> <p>Gweithleoedd mwy amrywiol, cydlynus a chynhyrchiol. A llais a chyfranogiad mwy effeithiol ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth herio gwahaniaethu.</p>

Nod	Camau Gweithredu	Canlyniadau ac Effaith
<p>Byddwn yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn hyrwyddo arferion gwrth-hiliol yn y gweithle drwy weithredu'r agenda gwaith teg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Yn 2021, byddwn a) yn datblygu mesurau canlyniadau gwaith teg sy'n cynnwys metrigau ar ddata cyflog, data cyflogaeth a data eraill (gan gynnwys data ar rywedd pobl ethnig leiafrifol) ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n berthnasol i'r byd gwaith; b) yn defnyddio'r mesurau hynny i lywio a llunio dulliau o ymdrin â gwaith teg yn y tymor canolig a'r tymor hwy ac c) yn parhau i wrando ar brofiadau bywyd pobl. - Gwella gweithrediad, cyrhaeddiad ac effaith y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi erbyn diwedd 2021. - Sicrhau yr ymgorfforir cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth yn ein holl ymyriadau i gefnogi, hwyluso ac annog gweithleoedd tecach, mwy cyson a diogel. Penodi'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i oruchwylio – gan ddechrau yn ystod 2021. 	<p>Dealltwriaeth well a sail tystiolaeth gryfach o faterion gwaith teg mewn perthynas â hil. Bydd gafael gadarnach ar faint y broblem yn helpu i dargedu camau gweithredu effeithiol a rhoi ffocws iddynt.</p> <p>Mwy o ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn y Cod a chadwyni cyflenwi tecach, gyda mwy o sefydliadau yn cymryd camau i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.</p>

Entrepreneuriaeth

Entrepreneuriaeth: Mae ein gwaith yn cynnwys hyrwyddo entrepreneuriaeth i bobl ifanc, cefnogi busnesau newydd sy'n cychwyn a rhoi cyngor a chymorth i fusnesau bach a chanolig sefydledig. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu mewn ffordd gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a'r cysylltwyr, sy'n rhoi'r cyngor busnes arbenigol. Rydym yn cydnabod bod angen i bob rhan o'r gwasanaeth ymgysylltu ag unigolion o'n cymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol) a diwallu eu hanghenion.

Cynlluniwyd y gwasanaeth presennol i gynnig gwasanaeth cynhwysol sy'n cydnabod anghenion ac yn cefnogi dyheadau unigolion sy'n awyddus i ddechrau neu dyfu eu busnes, boed ar sail hunangyflogedig, dechrau busnes twf uchel neu gynnal busnes sy'n bodoli eisoes, ac i ddiwallu'r anghenion a bodloni'r dyheadau hynny. Ceir cydnabyddiaeth a thystiolaeth hefyd y gall fod angen cymorth ychwanegol ar lawer o unigolion o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (o ran dechrau busnes) er mwyn datblygu eu cynnig busnes. Os felly, mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgymorth er mwyn gweithio gydag unigolion neu grwpiau o fewn cymunedau lleol.

Fel rhan o'r gwasanaeth, rhoddir cyngor a chymorth i fusnesau er mwyn adolygu a mabwysiadu eu polisiau a'u harferion cyflogaeth. Rydym yn ceisio dylanwadu ar eu dull gweithredu, gan eu hannog i fabwysiadu arferion Gwaith Teg a dileu achosion o wahaniaethu a rhagfarn wrth recriwtio a chadw staff.

Er mwyn estyn allan ac ymgysylltu ag unigolion o'r gymuned ethnig leiafrifol, rydym yn cydnabod bod angen i ni sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn fwy addas ar gyfer yr unigolion hynny a'n bod yn defnyddio modelau rôl er mwyn sicrhau bod unigolion ethnig leiafrifol yn fwy ymwybodol o'n gwasanaethau ac yn gwbl hyderus yn eu defnyddio.

Rydym yn cydnabod y gallwn ddatblygu'r gwaith a wnawn ar hyn o bryd ac y gallwn gyfrannu ymhellach at wireddu'r newid sydd ei angen wrth ddileu achosion o wahaniaethu.

Mae ein camau gweithredu yn anelu at ddatblygu ein dull gweithredu presennol o ran ymgysylltu ag unigolion sy'n awyddus i ddechrau busnes a pherchenogion busnesau sefydledig o'r gymuned ethnig leiafrifol a'u cefnogi.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Sicrhau bod gwasanaethau contract Busnes Cymru yn adlewyrchu poblogaeth Cymru.</p>	<p>Bydd tendrau newydd i ddarparu gwasanaethau Busnes Cymru yn cynnwys gofyniad sy'n gofyn i gynigwyr sut maent yn bwriadu adlewyrchu demograffeg y boblogaeth a wasanaethir ganddynt yn eu sail cleientiaid ac o ran eu staff, yn arbennig ar gyfer rolau cyhoeddus fel cynghorwyr a mentoriaid.</p> <p>Caiff y gofynion eu cynnwys yn y Gwahoddiad nesaf i Dendro i ddarparu gwasanaethau Busnes Cymru o hydref 2022.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Gwasanaeth Busnes Cymru sy'n ymgysylltu'n weithredol â demograffeg entrepreneuriaid ethnig lleiafrifol ac yn ei adlewyrchu.</p>
<p>Sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion cleientiaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	<p>Gweithio gyda chyrrff cynrychioliadol ac unigolion i ddatblygu arferion da wrth ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y broses gyflenwi yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion a chefnogi dyheadau cleientiaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Hydref 2021 – Mawrth 2022.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Gwasanaeth Busnes Cymru sy'n hyderus yn ddiwylliannol, sy'n deall croestoriadedd yn well ac sy'n cynnig gwell profiad i ddefnyddwyr a lefelau boddhad uchel.</p>
<p>Gwella trefniadau ymgysylltu â'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	<p>Adolygu ein gweithgareddau marchnata ac ymgysylltu er mwyn ehangu ein cyrhaeddiad mewn perthynas â grwpiau ac unigolion ethnig lleiafrifol a sicrhau y caiff entrepreneuriaid ethnig lleiafrifol eu hadlewyrchu'n briodol yn ein deunydd cyhoeddusrwydd.</p> <p>Dechrau'r adolygiad erbyn haf 2021.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Mae'r gymuned ethnig leiafrifol yn fwy ymwybodol o wasanaethau Busnes Cymru ac yn fwy hyderus yn y gwasanaethau hynny.</p>

Tai

Mae COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cartref gweddus, priodol a fforddiadwy i lesiant meddwl a llesiant corfforol pawb ac i bob agwedd ar eu bywydau. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw amlwg at yr anghydraddoldebau sylweddol sy'n bodoli wrth i rai pobl gael gafael ar gartrefi o'r fath.

Edrychodd yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol COVID-19 yn benodol ar dai a llety fel rhan o'i adroddiad ym mis Mehefin 2020. Mae'r adroddiad yn nodi materion o ran tai gorlawn, sy'n effeithio ar rai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol) mewn ffordd anghymesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at yr anghydraddoldebau anghymesur a wynebir gan bobl ethnig lleiafrifol mewn perthynas ag ansawdd tai gwael; ansawdd aer gwael; fforddiadwyedd a diffyg tai cymdeithasol ar lefel leol sy'n diwallu anghenion amrywiol pobl.

Mae'r Grŵp Llywio, mentoriaid cymunedol a llawer o bobl a sefydliadau ethnig lleiafrifol wedi cynnig eu harbenigedd ac wedi sôn am eu profiad bywyd er mwyn llywio'r nodau a'r camau gweithredu. Rydym wedi clywed yn glir iawn bod angen i egwyddorion gwrth-hiliaeth fod yn sail i'r holl gamau gweithredu a gymerir gennym; rhaid i atebolrwydd a thryloywder fod yn greiddiol i'n dull gweithredu; mae angen ymgysylltu mewn ffordd lawer gwell â phobl ethnig lleiafrifol er mwyn llywio'r broses o lunio polisiau a darparu gwasanaethau yn well; ac mae cyswllt cryf rhwng tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol a'r anghydraddoldeb y mae pobl ethnig lleiafrifol yn ei wynebu o ran tai a llety. Pwysleiswyd hefyd fod angen i ni ystyried 'croestoriadedd', sef y ffordd y mae gwahanol agweddau ar hunaniaeth unigolyn yn cyfuno er mwyn creu gwahanol brofiadau a rhwystrau lluosog, gan gynnwys menywod, pobl anabl, pobl ifanc, pobl hŷn, pobl LGBTQ+, grwpiau crefyddol ac anghrefyddol a'r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Mae gwrth-hiliaeth weithredol yn greiddiol o ran cyflawni newid: nodi ble mae polisiau, gweithdrefnau a threfniadau cyflwyno yn achosi anghydraddoldeb hiliol ac ymdrin â hynny, a bwrw ati i greu diwylliant gwrth-hiliol. Mae hyn yn dibynnu ar newid diwylliannol ac arweinyddiaeth gadarn â ffocws penodol er mwyn sicrhau y daw cydraddoldeb hiliol yn realiti, yn ogystal â chydraddoldeb, hawliau dynol a chynhwysiant yn fwy cyffredinol. Rhaid i hyn gael ei ategu gan yr atebolrwydd a ddarperir gan ddeddfwriaeth cydraddoldebau a hawliau dynol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ym maes tai a llety, yn ogystal â'r holl feysydd eraill yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gwyddom fod angen data a thystiolaeth well o lawer, a bod angen ymgysylltu â'r amrywiaeth lawn o bobl ethnig lleiafrifol mewn ffordd ystyrlon – bydd y rhain yn agweddau 'hanfodol' ar ein dull gweithredu wrth symud ymlaen.

Rydym wedi clywed tystiolaeth bwerus iawn am yr achosion penodol o wahaniaethu, hiliaeth ac anghydraddoldeb y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol; pennwyd nod penodol er mwyn canolbwyntio ar hyn. Mae'r term 'tai' yn golygu nad yw pobl, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol, yn ystyried yr angen am lawer mwy o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, a safleoedd o ansawdd gwell, na mynediad at gartrefi symudol, ac mae'n bwysig trafod nid yn unig tai, ond llety a chartrefi hefyd, gan gynnwys cartrefi symudol a safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.

Mae ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr yn wynebu anghydraddoldebau penodol. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu tai i geiswyr lloches (y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am hynny), mae cyfrifoldeb arnom i'w cefnogi o'r adeg y byddant yn cyrraedd yng Nghymru. I'r rheini y dyfernir statws ffoadur iddynt, gwyddom y gall achosion o wahaniaethu, hiliaeth, anghydraddoldeb a ffactorau systemig eu hatal rhag cael gafael ar dai addas ac mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn a'r cynllun Cenedl Noddfa yn ceisio ymdrin â hyn.

Nod Cyffredinol

Mae cartrefi diogel, boed yn dai brics a mortar, trelars/cartrefi symudol a safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, neu gartrefi eraill, yn hanfodol i lesiant pobl ac i bob agwedd ar eu bywydau – gan gynnwys iechyd a lles meddwl ac iechyd a lles corfforol; cyflawniad a chyfluoedd addysgol; canlyniadau cyflogaeth; a llesiant cymdeithasol a diwylliannol. Ein nod cyffredinol yw y gall pobl ethnig leiafrifol fyw mewn cartrefi gweddus a fforddiadwy sy'n diwallu anghenion amrywiol pobl. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen gwneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff pobl ethnig leiafrifol eu cynrychioli o fewn sefydliadau ar lefel uwch ac ar bob lefel, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y cymunedau y mae'r sefydliadau hynny yn gweithio o'u mewn;
- Gwella cydraddoldeb hiliol a gwrth-hiliaeth, gan gynnwys agwedd dim goddefgarwch at hiliaeth ac aflonyddu, mewn trefniadau arweinyddiaeth, cyflogaeth, polisiau a darparu gwasanaethau'r sector tai;
- Ymgysylltu â'r bobl ethnig leiafrifol amrywiol (yn enwedig menywod ethnig leiafrifol) y mae'r sefydliadau yn gweithio gyda nhw, gan ddefnyddio profiadau bywyd i lywio gwaith cynllunio a chyflawni;
- Pwyslais cadarn ar fynd i'r afael â thlodi, sy'n cael effaith anghymesur ar rai pobl a chymunedau ethnig lleiafrifol.



Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Cynrychiolaeth			
<p>Cynyddu lefelau cynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol o fewn swyddi uwch-arweinyddiaeth ac ar bob lefel o weithlu'r sector tai yn sylweddol er mwyn iddynt adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn gweithredu o'i mewn.</p>	<p>Sicrhau bod byrddau, grwpiau cynghori, uwch-arweinwyr a gweithlu sefydliadau yn adlewyrchu'r bobl ethnig leiafrifol amrywiol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan bobl ddu ac ethnig leiafrifol, a phartneriaid fel Tai Pawb, y Sefydliad Siartredig Tai (CIH), Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), CLILC a Cymorth er mwyn: rhori Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru, sef y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ar waith ar y cyd â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn arbennig mewn perthynas â'r nodau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> sicrhau arferion recriwtio agored a thryloyw sicrhau ymrwymiad byrddau cryfhau'r arweinyddiaeth creu cymuned o unigolion (yn enwedig menywod ethnig leiafrifol) sydd â diddordeb, sy'n ymwybodol ac sydd bron yn barod i fod yn aelodau o Fwrdd (h.y. creu cyflenwad cyson, cadarn). Sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau lleol a sefydliadau cymorth y trydydd sector yn dangos sut y byddant yn sicrhau bod gwrth-hiliaeth a chydraddoldeb hiliol wedi'u rhoi ar waith yn eu sefydliadau, fel cyflogwyr ac fel darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys mentrau fel adduned Gweithredu nid Geiriau Tai Pawb. 	<p>Tymor byr, canolig a hir</p>	<p>Byrddau a gweithluoedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.</p> <p>Mae gweithluoedd yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn gweithredu o'i mewn.</p> <p>Diwylliant gwrth-hiliol yn y sector tai lle mae'n ddiogel herio hiliaeth a lle y caiff y rheini sy'n wynebu hiliaeth gymorth.</p> <p>Datblygu llwybr i staff ethnig lleiafrifol ar bob lefel ac i aelodau Byrddau.</p>
	<p>Darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a dim goddefgarwch i Fyrddau a grwpiau o staff ar ddeall a herio hiliaeth.</p>	<p>Tymor byr, canolig a hir</p>	<p>Bydd Byrddau ac aelodau o staff yn y sector tai yn barod i herio hiliaeth ac i roi cymorth i'r bobl sy'n gwneud hynny.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Sicrhau bod yr hyn a ddisgwylir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran cynrychiolaeth mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth, yn glir yn y safonau rheoleiddio diwygiedig sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.	Tymor byr a pharhaus	Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn gweithio o'u mewn ym mhob maes busnes, gan gynnwys recriwtio aelodau i'r Bwrdd ac aelodau o staff, ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
	Sicrhau bod byrddau a grwpiau cynghori ar dai Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, yn adlewyrchu llais pobl ethnig leiafrifol ac yn eu cynrychioli wrth drawsnewid gwasanaethau digartrefedd.	Tymor byr, canolig a hir	Bydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai yn adlewyrchu llais pobl ethnig leiafrifol ac yn eu cynrychioli, felly hefyd y byrddau a'r grwpiau cynghori eraill ar dai.

Safonau, darpariaeth a gwasanaethau

Sicrhau bod safonau, darpariaeth a gwasanaethau tai a llety yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, yn cynnwys ystyriaethau gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb a hawliau dynol, ac yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol gwahanol ac amrywiol.	<p>Gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig, Tai Pawb, y Sefydliad Siartredig Tai (CIH), TPAS Cymru, CHC, a Cymorth a CLLC er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol i arweinwyr a staff mewn perthynas â darparu gwasanaethau i denantiaid a chwsmeriaid. Darparu canllawiau i sefydliadau helpu staff a thenantiaid i ddeall sut i roi gwybod am achosion o hiliaeth a throseddau casineb a rhoi cymorth i'r rheini sy'n rhoi gwybod amdanynt (gan gynnwys tenantiaid ethnig lleiafrifol wrth gynllunio'r canllawiau hynny). Sicrhau bod landlordiaid yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth, aflonyddu a throseddau casineb a rhoi cymorth priodol. 	Tymor byr, canolig a hir	<p>Ymateb a chymorth priodol ac uniongyrchol i'r rheini sy'n wynebu hiliaeth a/neu droseddau casineb gan y sector tai.</p> <p>Sector tai â chymhwysedd diwylliannol y mae gwrth-hiliaeth yn greiddiol iddo.</p> <p>Polisi tai a llety sy'n adlewyrchu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol.</p>
	<p>Gan adeiladu ar yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd ar dai gorlawn ymhlith pobl a chymunedau ethnig lleiafrifol, nodi gwaith ymchwil a/neu waith dadansoddi posibl er mwyn deall yn well y cysylltiad rhwng tai gorlawn a'r risg uwch o ddal COVID-19 ymhlith pobl ethnig leiafrifol.</p>	Tymor byr a chanolig	Dealltwriaeth well o dai gorlawn ymhlith pobl ethnig leiafrifol er mwyn nodi opsiynau i ymdrin â thai gorlawn.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru i sicrhau y caiff anghenion gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth pobl ethnig leiafrifol eu diwallu mewn perthynas â thai a llety, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, menywod ethnig leiafrifol, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid.</p>	Tymor byr, canolig a hir	Gwell mynediad at wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i bobl ethnig leiafrifol.
	<p>Sicrhau bod yr hyn a ddisgwylir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran safonau, darpariaeth a gwasanaethau mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth, yn glir yn y safonau rheoleiddio diwygiedig sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.</p>	Byr	Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran gwrth-hiliaeth ac yn dangos eu bod yn cyflawni hynny.
	<p>Gweithio gydag awdurdodau lleol (ALLau) i ddatblygu canllawiau newydd ar gyfer Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Dylid cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • galluogi gwaith dadansoddi o ran anghenion tai grwpiau allweddol (pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl, pobl ddigartref, pobl hŷn, y rheini â chyflyrau iechyd meddwl, menywod ethnig leiafrifol, ac ati) o fewn yr ALL, deall argaeledd tai priodol a'r angen a amcangyfrifir yn y dyfodol ac felly, beth yw'r diffyg, os o gwbl, ar gyfer pob grŵp allweddol. • Llywodraeth Cymru i roi hyfforddiant a chymorth parhaus i bob ALL. <p>Sicrhau bod pob Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, a'i asesiad o anghenion pobl ethnig leiafrifol a grwpiau eraill, yn llywio'r prospectws fel rhan o waith monitro'r rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol.</p>	Tymor byr, canolig a hir	Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol sy'n cofnodi anghenion cymunedau lleol gan gynnwys pobl ethnig leiafrifol amrywiol.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Sicrhau cydraddoldeb i bobl ethnig leiafrifol, gan ymdrin yn benodol ag unrhyw rwystrau penodol y mae pobl/grwpiau/menywod ethnig lleiafrifol yn eu hwynebu er mwyn sicrhau mynediad, darpariaeth a chanlyniadau cyfartal wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd a chartrefi. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn agwedd annatod a phenodol ar y broses o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd (gan gynnwys ystyried anghenion a dyraniadau blaenoriaethol yn y dyfodol) a sicrhau y caiff llwyddiant wrth ddiwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol ei gynnwys wrth werthuso'r broses drawsnewid. • Sicrhau bod y fframwaith polisi a deddfwriaethol yn cefnogi'r broses o gomisiynu gwasanaethau cymorth tai a llety sy'n ystyried agweddau diwylliannol, er mwyn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol. • Sicrhau bod yr holl ganllawiau i Awdurdodau Lleol, fel y canllawiau Ailgartrefu Cyflym neu'r Cod Canllawiau ar ddyraniadau, yn cynnwys ystyried amrywiaeth lawn pobl ethnig leiafrifol. 	<p>Rhan o broses drawsnewid 3-5 mlynedd</p>	<p>Gwasanaethau tai a digartrefedd sy'n diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Parhau â'n gwaith i helpu'r rheini nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyllid cyhoeddus a dinasyddion yr UE nad ydynt wedi gwneud cais eto am Statws Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i gael gafael ar loches a'r gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl i'w cael. Dylid cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhoi hyfforddiant i 400 o swyddogion tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol er mwyn sicrhau eu bod yn deall hawliau mudwyr, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyllid cyhoeddus. - Cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y llwybrau cyfreithiol ar gyfer cael cymorth i'r rheini nad ydynt yn gaellu cael gafael ar gyllid cyhoeddus. - Rhoi cyllid i'r Trydydd Sector er mwyn helpu i ehangu a phroffesiynoli trefniadau 'lletya' i'r rheini y mae gobaith realistig y byddant yn cael caniatâd i aros. - Ystyried cynlluniau tai a rennir gyda darparwyr tai a'r trydydd sector er mwyn dod o hyd i ffyrdd arloesol o helpu mudwyr digartref. 	<p>Tymor byr a chanolig</p>	<p>Bydd llai o fudwyr yn ddigartref yng Nghymru ac yn agored i achosion o gamfanteisio</p> <p>Bydd ceiswyr lloches a gaiff eu gwrthod yn gallu cael cyngor cyfreithiol er mwyn deall pa mor debygol ydynt o gael statws ffoadur</p> <p>Bydd awdurdodau lleol yn deall eu rhwymedigaethau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt gefnogi mudwyr yng Nghymru yn well</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Yn ystod y 5 mlynedd nesaf</p> <p>Sicrhau bod yr adolygiadau o ddeddfwriaeth a pholisi tai a deddfwriaeth a pholisi cysylltiedig yn ystod tymor y Senedd nesaf, gan gynnwys o ran digartrefedd a dyraniadau, yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion yr amrywiaeth eang o bobl ethnig leiafrifol, ac yn eu diwallu.</p>	5 mlynedd	Mae'r polisi a'r fframwaith statudol ar gyfer digartrefedd yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol
Sector rhentu preifat			
<p>Sicrhau bod tai a llety a'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector rhentu preifat yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn cynnwys ystyriaethau gwrth-hiliaeth ac yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol gwahanol ac amrywiol</p>	<p>Datblygu Cynllun Gweithredu i'r Sector Rhentu Preifat er mwyn gwella ansawdd y sector, gyda gwrth-hiliaeth yn rhan greiddiol ohono. Dylid cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwaith ymchwil pellach i gyffredinrwydd hiliaeth a gwahaniaethu yn y sector rhentu preifat a phenderfynu ar opsiynau i ymdrin â hyn (gan gynnwys deddfwriaeth, polisiau a threfniadau cyflwyno posibl). Adolygu'r cymorth a ddarperir i denantiaid wrth gael gafael ar denantiaethau yn y sector rhentu preifat a'u cadw, gan gynnwys a yw'n diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol. Penderfynu ar opsiynau ar gyfer gwella safonau eiddo (gan gynnwys nifer y tai gorlawn) yn y sector rhentu preifat, a rôl a gallu awdurdodau lleol i orfodi safonau yn y sector rhentu preifat. Ystyried opsiynau a dulliau ysgogi ar gyfer sicrhau fforddiadwyedd cael gafael ar denantiaethau yn y sector rhentu preifat a'u cadw i'r rheini ar incwm is. Gweithio gyda rhanddeiliaid i atgyfnerthu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant gwrth-hiliaeth i landlordiaid, asiantiaid a thenantiaid yn y sector rhentu preifat. 	18 mis	<p>Gwell dealltwriaeth o raddau'r materion a'r rhwystrau yn y sector rhentu preifat er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer ymdrin â'r sefyllfa.</p> <p>Dealltwriaeth o safon stoc y sector rhentu preifat, a'r opsiynau i'w rhoi ar waith er mwyn ymdrin â hyn.</p> <p>Gwell dealltwriaeth a hyder ymhlith landlordiaid ac asiantiaid wrth fynd i'r afael â hiliaeth.</p> <p>Cymorth ar waith i denantiaid sy'n wynebu achosion o aflonyddu, hiliaeth a throseddau casineb.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
Ymgysylltu a chyfathrebu			
<p>Sicrhau bod trefniadau ymgysylltu hygyrch ar waith i ymgysylltu â phobl ethnig leiafrifol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod polisiau Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl ethnig leiafrifol amrywiol a bod gan bobl ethnig leiafrifol lais a dylanwad mewn perthynas â thai a llety.</p>	<p>Sicrhau bod gohebiaeth ac ymgyrchoedd cyfathrebu'r Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio yn ymgysylltu â phobl ethnig leiafrifol wrth eu cynllunio a'u cyflwyno, a sicrhau y caiff sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig a phobl ethnig leiafrifol eu cynnwys wrth ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso.</p>	<p>Tymor byr, canolig a hir</p>	<p>Mae ymgyrchoedd cyfathrebu Tai ac Adfywio yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bobl ethnig leiafrifol yng Nghymru ac yn mynd i'r afael â hiliaeth ac achosion o aflonyddu.</p> <p>Mae pobl ethnig leiafrifol, ni waeth beth fo'u profiad na'u hiaith, yn deall eu hopsiynau o ran tai, systemau, hawliau a disgwyliadau.</p>
	<p>Sicrhau bod gan denantiaid ethnig lleiafrifol sianeli ar gyfer lleisio pryderon, herio a dylanwadu drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig a phartneriaid gan gynnwys Tai Pawb, Cymorth, CIH, CHC a TPAS Cymru. Sicrhau bod yr hyn a ddisgwyllir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ran ymgysylltu a chyfathrebu mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cynnwys gwrth-hiliaeth, yn glir yn y safonau rheoleiddio diwygiedig sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. 	<p>Tymor byr, canolig a hir</p>	<p>Gwrandewir ar denantiaid ethnig lleiafrifol a gallant ddylanwadu ar wasanaethau.</p>
	<p>Er mwyn cefnogi ein dull o sicrhau gwell atebolrwydd am wasanaethau tenantiaid mewn awdurdodau lleol a chan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (rheoleiddio meysydd), gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig, CLLC, CHC a TPAS i sicrhau y caiff data am gyfranogiad tenantiaid ethnig lleiafrifol eu casglu a'u cyhoeddi, i'n helpu i ddeall y ffactorau sy'n atal tenantiaid rhag cyfranogi a'u dileu.</p>	<p>18 mis</p>	<p>Lefelau cyfranogiad uwch ymhlith tenantiaid ethnig lleiafrifol a mwy o ddylanwad iddynt dros wasanaethau.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Gweithio gyda sefydliadau wedi'u harwain gan leiafrifoedd ethnig, Tai Pawb, CIH, CHC, CLLC a phobl ethnig leiafrifol i ddeall sut y gall camau pellach tuag at reoleiddio meysydd (h.y. rheoleiddio awdurdodau lleol yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) fod o fudd pellach i bobl a chymunedau ethnig lleiafrifol, a gweithredu'n unol â hynny.	3 blynedd	Bydd trefniadau rheoleiddio meysydd yn cynnwys gwrth-hiliaeth.
Cydnabod bod angen llety diogel sy'n ystyried agweddau diwylliannol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r diffyg safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.	Adolygu'r polisi cyllido presennol ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd, gyda'r bwriad o dreialu dulliau ychwanegol neu newydd o gyllido safleoedd, gan gynnwys cymorth i safleoedd preifat.	18 mis	Ffyrdd mwy hygyrch a hyblyg o sicrhau safleoedd sy'n fwy priodol yn ddiwylliannol.
	Ailddrafftio'r Canllawiau Safleoedd er mwyn sicrhau y caiff anghenion cymunedau o ran dyluniad a lleoliad eu hadlewyrchu'n well yn y ddogfen hon.	18 mis	Safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol sydd wedi'u teilwra at anghenion y cymunedau. Bydd lleoliad ac ansawdd safleoedd parhaol a rhai dros dro yn gydnaws â mathau eraill o dai cymdeithasol.
	Cefnogi awdurdodau lleol, yn unigol ac ar sail ranbarthol, i sicrhau eu bod yn darparu safleoedd tramwy yn y Gogledd ac yn y De erbyn mis Ebrill 2023.	18 mis	Safleoedd tramwy yn y Gogledd a'r De.
	Comisiynu cynllun hyfforddi cenedlaethol i dimau opsiynau tai awdurdodau lleol yng Nghymru, a gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol, er mwyn gwella'r dull gweithredu a ddefnyddir a'r cymorth a gynigir i aelodau'r gymuned sy'n gofyn am help mewn perthynas â digartrefedd a phroblemau llety, drwy greu "hyrwyddwyr" neu "arweinwyr" Sipsiwn a Theithwyr ym mhob awdurdod.	18 mis	Staff awdurdod lleol sy'n wybodus ac yn dangos sensitifrwydd diwylliannol wrth drafod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
	Sicrhau y caiff y mecanweithiau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes eu defnyddio'n llawn i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth bresennol.	18 mis	

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	3 blynedd Treialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o gyllido safleoedd parhaol.	3 blynedd	
	Ystyried y potensial ar gyfer cynllun rhentu cartrefi symudol wedi'i weithredu drwy dai cymdeithasol er mwyn gwella ansawdd a chost y ddarpariaeth rhentu yng Nghymru.	3 blynedd	Mwy o ddarpariaeth llety o ansawdd gwell sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac wedi'i theilwra at anghenion Sipsiwn a Theithwyr.
	Parhau i gynnal cyfarfod rheolaidd â rhanddeiliaid er mwyn llywio camau gweithredu a pholisiau Llywodraeth Cymru.	3 blynedd	Gwaith ymgysylltu rheolaidd a pharhaus rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, gan arwain at gydberthnasau cryf, gonest ac agored.
	5 mlynedd Creu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy er mwyn hwyluso bywydau teithwyr, gan ystyried manau aros dros dro wedi'u negodi, fel y bo'n briodol.	5 mlynedd	Rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy yng Nghymru.
	Darparu cymorth dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.	5 mlynedd	Mae aelodau etholedig yn wybodus ac yn sensitif i anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Ni chaiff iaith, safbwyntiau na gweithredoedd hiliol tuag at gymunedau o Sipsiwn a Theithwyr eu goddef a chânt eu condemnio'n eang.

Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon

Naratif

Mae diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn hanfodol i hunaniaethau pobl. Maent yn adlewyrchu'r gwerthoedd, y credoau a'r agweddau sy'n ein diffinio fel pobl ac sy'n llywio'r ffordd rydym yn uniaethu â'n gilydd. Maent yn mynegi ein gwreiddiau a phwy ydym heddiw mewn ffordd gadarnhaol; ond yn anffodus, mae camsyniadau neu anwybodaeth ynghylch amrywiaeth gyfoethog ein diwylliant a'n cymdeithas hefyd yn llywio canfyddiadau sy'n ysgogi anghydraddoldeb ac a all hefyd effeithio ar ein hiechyd a'n lles, fel pobl ac fel gwlad. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda nifer o gyrff diwylliant, treftadaeth a chwaraeon i gyflwyno polisiau a gwasanaethau i bobl Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o gyrff a noddir (Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a sawl un o Is-adrannau Llywodraeth Cymru sydd naill ai'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol (fel Cadw) neu am gefnogi'r sector ehangach (yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon a Cymru Greadigol). Gyda'i gilydd, mae'r holl gyrff hyn yn gweithio i hyrwyddo ac annog cyfranogiad gweithredol ym mywyd diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon cyfoethog ac amrywiol ein gwlad.

Gall diwylliant, treftadaeth a chwaraeon fod yn gyfryngau pwerus ar gyfer mynegi ein hundod a'n cydlyniant, dathlu ein hetifeddiaeth gyffredin a hyd yn oed ein cyflawniadau a'n llwyddiannau. Er enghraifft, ym maes chwaraeon elit, mae Cymru yn aml yn mwynhau llwyddiant byd-eang – ond wrth i ni gyd rannu yn llwyddiant ein timau rygbi, pêl-droed neu athletau, caiff eu sylfeini hiliol ac ethnig amrywiol yn aml eu cuddio gan gysgod hiliaeth, yn bersonol neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Yn aml, gellir defnyddio gwahaniaethau o ran diwylliant a threftadaeth i ddiffinio'r rheini yr ystyrir eu bod 'yn dod o'r tu mewn' ac 'yn dod o'r tu allan'. Gall agwedd ffurfio mai dim ond y rheini â threftadaeth gyndeidiol 'frodorol' a all anelu o ddifrif at hunaniaeth Gymreig neu Brydeinig. Gellir allgáu unrhyw un arall o'r fraint o 'berthyn' ac o'r buddiannau sy'n gysylltiedig â statws unigolion sy'n 'dod o'r tu mewn'.

Ond mae cyfansoddiad cymdeithas Cymru yn llawer mwy cymhleth nag a awgrymir o bosibl gan y stereoteipiau syml hyn. Mewn gwirionedd, mae gennym gymysgedd ddiwylliannol gyfoethog fuddiol; mae pobl o lawer o gefndiroedd diwylliannol gwahanol wedi byw ochr yn ochr â'i gilydd ers cenedlaethau. Fodd bynnag, gall canfyddiad negyddol fod yn drech o hyd, a hynny'n aml yn ddiarwybod, sy'n datgan os nad ydych yn wyn, neu os nad ydych yn cydymffurfio â rhai 'normau' diwylliannol penodol, yna nid ydych yn rhan ohonom 'ni'. Os na chaiff agweddau o'r fath eu herio, gallant fod yn rhan annatod o hiliaeth bersonol a sefydliadol.

Gall dathlu ein diwylliant a'n treftadaeth amrywiol a chyffredin, gwerthfawrogi'r dylanwadau a'r safbwyntiau byd-eang sydd wedi helpu i lywio ein cymdeithas, ac annog mynediad gweithredol a chyfartal o ran cyfranogi ym mhob math o ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon, fod yn her bwerus i'r naratif hwn. Yn wir, nid dim ond dymuniad yw hyn, mae wedi'i nodi mewn rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae cyfraith ryngwladol a chyfreithiau sy'n benodol i Gymru yn gosod rhwymedigaethau cyfrwymol ar gyrff ac awdurdodau cyhoeddus i ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i sicrhau y gall pob aelod o gymdeithas fwynhau'r hawliau hyn mewn ffordd ddirwystr a chyfartal.

Mae Erthygl 22 o'r Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol yn nodi 'Y mae gan bawb [...] hawl i hawliau cymdeithasol a diwylliannol sy'n anhepgorol i'w hurddas ac i ddatblygiad rhydd eu personoliaeth'. Mae Erthygl 27 yn nodi 'Y mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymdeithas'. Mae'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol yn datblygu'r syniadau hyn. Er enghraifft, mae Erthygl 27 yn nodi bod gan leiafrifoedd yr hawl i fwynhau eu diwylliant eu hunain, i arddel ac arfer eu crefydd eu hunain, ac i ddefnyddio eu hiaith eu hunain. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn agosach i gartref. Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus a enwir i weithio er mwyn cyflawni'r saith nod a nodir, gan gynnwys: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon

a gweithgareddau hamdden. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn](#), sy'n diffinio sawl hawl sy'n uniongyrchol berthnasol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â dim gwahaniaethu, rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd, grwpiau lleiafrifol a brodorol, a gweithgareddau chwarae, diwylliannol ac artistig.

Bwriedir i'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun hwn gydnabod a threchu'r anfanteision a brofwyd gan grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel grwpiau ethnig lleiafrifol) yn y gorffennol ac y maent yn eu profi hyd heddiw; dileu achosion o wahaniaethu a rhwystrau sy'n atal pobl rhag mwynhau eu hawliau yn llawn ym mhob agwedd ar ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon; a chydabod a dathlu amrywiaeth hiliol ac ethnig y gorffennol a'r presennol yng Nghymru.

Yn y sesiwn polisi cyrraedd gwraidd y mater, rhannwyd tystiolaeth o brofiadau bywyd, a mynegwyd cred bod cyrff cyhoeddus wedi bod yn ofalus, ac weithiau wedi bod yn amharod i gefnogi a chynrychioli grwpiau ethnig lleiafrifol amrywiol, oherwydd cyfyngiadau gwirioneddol neu ganfyddedig o ran defnyddio arian cyhoeddus ar gyfer rhaglenni 'gwleidyddol' neu grefyddol. Awgrymwyd y gallai hyn fod wedi cyfyngu ar ryddid mynegiant ac o ganlyniad, y gallai hyd yn oed fod wedi achosi iddynt fethu â bodloni ymrwymadau cyfreithiol.

Mae grwpiau ethnig lleiafrifol (yn enwedig menywod ethnig lleiafrifol) yn aml yn teimlo, i raddau sylweddol anghymesur, eu bod wedi gorfod gofalu amdanynt eu hunain ac na fu llawer o ddewis ganddynt ond datblygu gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon ar eu pen eu hunain, heb gyllid na chymorth. Er bod hynny'n caniatáu rhywfaint o ryddid ac awtonomi, roedd y rhwystrau a wynebwyd wrth gael gafael ar gyllid a chyfleusterau yn llesteirio parhad a'r gallu i ehangu a gwella. Er mwyn trechu hyn, mae cymorth ariannol ac adnoddau dynodedig gan y sector cyhoeddus a chyrff a ariennir yn gyhoeddus, er mwyn helpu i ddatblygu mentrau ethnig lleiafrifol, yn hanfodol er mwyn annog creadigrwydd a thalent ac ymgysylltu â nhw.

Yn y sesiwn bord gron ddilynol, trafodwyd yr heriau a wynebir mewn perthynas â'r rhyddid i fynegi hunaniaeth drwy iaith, a hawl cenedlaethau'r dyfodol i gael cyfleoedd i ddysgu am eu hetifeddiaeth ddiwylliannol, eu gwreiddiau a'u llinach unigryw a gwerthfawr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y thema hon i agweddau eraill ar y cynllun, gan nodi ei bod yn cyfrannu at ymdeimlad llawer ehangach o iechyd a lles cymdeithasol. Yn ystod y sesiwn hon, cafwyd cefnogaeth gyffredinol o blaid y nodau a'r camau gweithredu a oedd yn dod i'r amlwg, ond tynnwyd sylw at sawl her o ran eu rhoi ar waith. Er enghraifft, pwysleisiwyd bod perchenogaeth y naratif diwylliannol yn hollbwysig. Roedd yn rhaid herio'r cysyniad ohonyn 'nhw' fel buddiolwyr a 'ni' fel cymwynaswyr, gan sicrhau bod egwyddorion hawliau yn parhau'n hollbwysig a chan osgoi'r fagl o adrodd straeon diwylliannol

neu dreftadaethol pobl ethnig leiafrifol drwy hidlen 'lens' neu safbwynt gwahanol.

Mae'r cynlluniau a'r polisiau sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys cynlluniau cydraddoldeb hiliol ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, yn ogystal â'r gwaith parhaus i ddatblygu contractau cyllido sy'n cysylltu cynnig o gymorth gan Lywodraeth Cymru ag ymrwymadau sy'n cyflawni yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn cynnig fframwaith i ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon chwarae rhan unigryw wrth gau'r bwlch rhwng cymunedau; gan feithrin ymddiriedaeth a datblygu profiad cyffredin.

Bu'r cyrff a noddir gennym yn rhan weithredol o'r trafodaethau a gafwyd wrth ddatblygu'r nodau a'r camau gweithredu hyn ac maent eisoes yn cymryd camau i roi mesurau gwrth-hiliol ar waith ac i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Dyma ychydig enghreifftiau:

- Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn recriwtio [Asiant er Newid](#) i drawsnewid y ffordd y mae'n ymgysylltu â phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a phobl fyddar ac anabl ac yn datblygu cyfleoedd iddynt fwynhau, cymryd rhan a gweithio yn y celfyddydau.
- Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnal prosiect i ddatrefedigaethu asedau diwylliannol ac arferion gwaith.
- Cyhoeddodd Amgueddfa Cymru ddatganiad ar ei [gwefan](#), mewn ymateb i fudiad Mae Bywydau Du o Bwys, a sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r gwaith o gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn y datganiad.

- Lansiodd Chwaraeon Cymru [ymgyrch #RhannwchEichStori](#), gan annog pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fanteisio ar gyfleoedd chwaraeon, cymryd rhan mewn chwaraeon neu gael eu hallgáu o chwaraeon, heb feirniadaeth na rhagfarn. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.storiesmatter.co.uk/cy/

Mae sawl un o'r cyrff a noddir gennym hefyd yn aelodau o [Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru](#) a fydd yn lansio ei hamcanion strategol cyffredin yn 2021.

Er mwyn adeiladu ar hyn, gan atgyfnerthu'r ymrwymiad i wrth-hiliaeth, i'r hawliau a amlinellwyd wrth bennu'r weledigaeth ar gyfer y CGCH ac i werthoedd tryloywder a bod yn agored, a gwerth profiad bywyd, mae angen edrych ar bob polisi a phroses er mwyn ystyried sut y mae hiliaeth sefydliadol ar hyn o bryd yn atal canlyniadau cyfartal i gymunedau ethnig lleiafrifol.

Y bwriad yw nad dim ond mewn ffordd drafodol yr ystyrir uchelgais y nodau a'r camau gweithredu a nodir isod, ond mewn ffordd drawsnewidiol hefyd, ac mewn ffordd a all gyflawni newidiadau amlwg – gydag arferion yn arwain at ganlyniadau cyfartal i bobl ethnig lleiafrifol (gan gynnwys i fenywod ethnig lleiafrifol yn benodol) a sefyllfa lle y bydd mynediad teg i weithgareddau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon yn gwella canlyniadau i bob grŵp gwarchoddedig, a thrwy hynny, gefnogi arferion gorau. Byddai angen trafodaethau pellach, gyda'r sefydliadau a grybwyllir isod a chyda rhanddeiliaid eraill, er mwyn nodi rolau penodol a chytuno arnynt. Bydd y rhain yn amrywio fesul achos (e.e. gallent gynnwys trafodaethau i lywio cwmpas neu i ddatblygu'r gwaith sydd ei angen, neu gallent gynnwys arwain / cymryd rhan mewn gweithgaredd cyflwyno, neu mewn rhai achosion, gymryd cyfrifoldeb dros nodau neu gamau gweithredu penodol).

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
1. Atebolrwydd			
<p>Sicrhau bod y cyrff cyhoeddus rydym yn gyfrifol amdanynt yn atebol am roi mesurau a chamau gweithredu gwrth-hiliol ar waith, fel y nodir yn y cynllun gweithredu hwn.</p>	<p>Cyd-lunio dangosyddion arweinyddiaeth a pherfformiad clir o ran gwrth-hiliaeth ar gyfer cyrff llywodraethu ac uwch-arweinwyr enwebedig, y byddant yn atebol am eu cyflawni fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad.</p> <p>Creu amgylcheddau gwaith sy'n hynod gynhwysol ac amrywiol.</p> <p>Cymryd camau i gynyddu amrywiaeth ethnig ar bob lefel o'r gweithlu, ac yn benodol, o fewn timau arwain ac ar fyrddau, yn ogystal ag o fewn swyddo cynllunio, dylunio, curadu a gwneud penderfyniadau, boed yn swyddi â thâl neu'n swyddi di-dâl.</p> <p>Nodi pa ddata sydd eu hangen a chytuno ar draws cyrff cyhoeddus sut y cânt eu casglu a sut y gellir ymddiried ynddynt.</p> <p>Cyhoeddi nodweddion llwyddiant (ar gyfer pob corff perthnasol, gan nodi bwriad clir a metrigau perthnasol.</p>	<p>Tymor byr</p> <p>Hirdymor</p> <p>Hirdymor</p> <p>Tymor byr</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Bydd uwch-arweinwyr a chyrff llywodraethu yn atebol.</p> <p>Bwrdd, uwch-arweinwyr a gweithlu sy'n amlwg yn fwy amrywiol.</p> <p>Amgylcheddau gwaith amrywiol a chynhwysol.</p> <p>Caiff data penodedig (data caled a phrofiadau bywyd) eu casglu a'u defnyddio mewn ffordd ddeallus.</p> <p>Gwelliant amlwg o ran lefelau boddhad defnyddwyr â'r prosesau ar gyfer ymdrin ag achosion o wahaniaethu, ynghyd â gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion am arferion hiliol.</p>
	<p>Adolygu'r systemau presennol ar gyfer rhoi gwybod am gwynion sy'n ymwneud â gwahaniaethu, eu huwchgwyfeirio, ymchwilio iddynt ac ymdrin â nhw; eu diweddarau neu eu diwygio fel y bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben, y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn dryloyw ac yn gwbl effeithiol – gan gynnwys wrth nodi pob math o wahaniaethu hiliol a'i ddileu. Dylai'r systemau hyn ddiogelu ein gweithlu, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd a dylent ymdrin â chyflogaeth, trefniadau contract neu gyswilt ag unrhyw agwedd ar ein swyddogaethau neu ein polisiau.</p> <p>Annog unigolion i chwythu'r chwiban a rhoi mecanweithiau effeithiol ar waith i gyfleu'r mesurau uchod i bob parti perthnasol.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Bydd pob cyflogai yn deall ystyr gwrth-hiliaeth ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei fraint a'i ragfarn ddarwybod.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Hyrwyddo arferion ac egwyddorion gwrth-hiliol yn ein sefydliadau – er enghraifft, fel elfen graidd o fewn dysgu a datblygu proffesiynol, gan godi ymwybyddiaeth o faterion fel gwahaniaethu hiliol, braint dybiedig a rhagfarn ddiarwybod, ac effeithiau hiliaeth strwythurol yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau.		
2. Cyllid			
Gweithio gyda'r cyrff cyhoeddus rydym yn eu cyllido i ddefnyddio eu pwerau gwario i roi arferion gwrth-hiliol ar waith, hwyluso mynediad a chanlyniadau cydradd, a chynyddu lefelau cyfranogiad pobl ethnig leiafrifol i'r eithaf.	<p>Cynnal asesiadau ariannol manwl (gan gynnwys asesiadau o wariant y gweithlu) a chyflwyno adroddiad ar sut y caiff adnoddau cyllido eu defnyddio ar hyn o bryd i ddileu achosion o wahaniaethu hiliol, ymdrin ag anfantais hanesyddol a rhoi cymorth i bobl ethnig leiafrifol mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol (caiff terfynau amser a cherrig milltir eu hychwanegu'n ddiweddarach).</p> <p>Defnyddio'r holl ddulliau ysgogi sydd ar gael er mwyn rhoi arferion gwrth-hiliol ar waith, hwyluso mynediad teg a chanlyniadau cydradd, a chynyddu lefelau cyfranogiad grwpiau a dangynrychiolwyd yn flaenorol i'r eithaf.</p> <p>Nodi adnodd penodol wedi'i neilltuo er mwyn cefnogi gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon ar lawr gwlad ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol, gan ystyried anfanteision croestoriadol, materion penodol sy'n ymwneud ag ieithoedd cymunedol a'r grwpiau mwyaf difreintiedig (e.e. ceiswyr lloches a Sipsiwn, Roma a Theithwyr).</p> <p>Nodi rhaglen gymorth benodol i annog menywod a merched o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i fyw bywydau egniol, gan ystyried unwaith eto anfanteision croestoriadol, ieithoedd a'r grwpiau mwyaf difreintiedig.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr</p> <p>Tymor canolig</p>	<p>Adrodd ar yr asesiadau hyn o fewn 12 mis, gan gynnwys argymhellion ar gyfer camau gweithredu cadarn a meintiol.</p> <p>Gwelliant amlwg o ran mynediad pobl ethnig leiafrifol at / ceisiadau pobl ethnig leiafrifol i / defnydd pobl ethnig leiafrifol o'r cynlluniau cyllido / gwasanaethau a gynigir.</p> <p>Gwelliant amlwg o ran mynediad menywod a merched ethnig lleiafrifol at wasanaethau.</p> <p>Safonau wedi'u cyhoeddi o fewn 12-24 mis.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Gweithio gyda chyrff cyllido i ddatblygu safonau wedi'u cydgyllunio ar gyfer gwahoddiadau cydweithredol am geisiadau gan sefydliadau bach ledled Cymru, gan sicrhau eu bod yn hwyluso mynediad teg ac yn arwain at welliant gwirioneddol mewn canlyniadau i grwpiau ethnig lleiafrifol.</p> <p>Lle mae cynlluniau ariannu ar gyfer sefydliadau bach eisoes yn bodoli, adolygu'r prosesau (gan gynnwys y ffordd y caiff ymgeiswyr eu cefnogi i wneud ceisiadau) a'r safonau sydd ar waith a sicrhau eu bod yn hwyluso mynediad a chanlyniadau teg i sefydliadau lleiafrifoedd ethnig.</p> <p>Casglu a defnyddio data (data caled a phrofiadau bywyd) a gwybodaeth er mwyn dangos tystiolaeth o effaith buddsoddiadau a'r gwersi a ddysgwyd ohonynt, er mwyn llywio camau gweithredu yn y dyfodol a datblygu arferion llawn gwybodaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.</p>	<p>Tymor canolig</p> <p>Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Cynlluniau sy'n bodoli eisoes wedi'u hadolygu o fewn 12 mis a'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys argymhellion ar gyfer newid.</p>
3. Dathlu amrywiaeth ddiwylliannol			
<p>Helpu pob rhan o gymdeithas yng Nghymru i groesawu a dathlu ei threftadaeth ddiwylliannol amrywiol, gan ddeall y rhyddid i fynegiant diwylliannol a chydabod yr hawl i hynny ar yr un pryd.</p>	<p>Cydweithio â sefydliadau cymunedol a'u cefnogi i gynnig cyfleoedd i unigolion a grwpiau ethnig lleiafrifol fynegi eu creadigrwydd, treftadaeth, iaith, hunaniaeth ddiwylliannol a gwreiddiau, gan annog a galluogi camau gweithredu cymunedol ar lawr gwlad.</p> <p>Nodi cyfleoedd i ysgogi cymorth ar gyfer rhaglen drawsgymuned o weithgareddau ar raddfa fach sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd i ddathlu ein treftadaeth ddiwylliannol amrywiol ond cyffredin.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Wedi'u galluogi a'u gwireddu ar sail unigol ac ar draws gweithgareddau diwylliannol, yn lleol a ledled Cymru.</p> <p>Mae Twristiaeth i Gymru yn adlewyrchu delwedd gadarnhaol a delwedd wrth-hiliol o'r grwpiau a'r cymunedau amrywiol a geir yng Nghymru.</p> <p>Caiff unigolion creadigol o grwpiau ethnig lleiafrifol eu cefnogi ac maent yn ffynnu, gan ychwanegu at frithwaith cyfoethog y celfyddydau yng Nghymru.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Gweithio gyda phartneriaid twristiaeth i sicrhau bod camau gweithredu ac ymgyrchoedd marchnata yn wrth-hiliol ac yn adlewyrchu gwir ddyfnder ein treftadaeth ddiwylliannol amrywiol, gan osgoi unrhyw stereoteipiau ac enghreifftiau o neilltuo diwylliannol.</p> <p>Gweithio gyda phob partner priodol, gan gynnwys y diwydiannau creadigol a chyrrff y celfyddydau i gefnogi, hyrwyddo a meithrin celfyddydau gweledol a chelfyddydau perfformio grwpiau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys mathau traddodiadol a'r amrywiaeth gyfoethog o gelf stryd, ffasiwn, barddoniaeth, dawns a cherddoriaeth gyfoes.</p> <p>Cysylltu â sefydliadau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yn rhyngwladol (yn benodol yn rhannau deheuol y byd) er mwyn annog ymgysylltiad â hanesion, ieithoedd a diwylliannau amrywiol a gwerthfawrogiad ohonynt.</p>	<p>Tymor byr</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor canolig Hirdymor</p>	<p>Cysylltiadau â chymunedau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon byd-eang sy'n wrth-hiliol ac nad ydynt yn echdynnol.</p>
4. Y Naratif Hanesyddol			
<p>Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus er mwyn iddynt gydnabod eu cyfrifoldeb dros osod y naratif hanesyddol yn llawn, gan hyrwyddo a chyflwyno disgrifiad cytbwys, dilys wedi'i ddatrefedigaethu o'r gorffennol – disgrifiad sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau ethnig lleiafrifol.</p>	<p>Adolygu ac ymdrin yn briodol â'r ffordd y caiff pobl a digwyddiadau â chysylltiadau hanesyddol hysbys o ran caethwasiaeth a threfedigaethedd eu coffáu yn ein manau a'n casgliadau cyhoeddus, gan gydnabod y niwed a wnaeth eu gweithredoedd ac ailfframio'r ffordd y caiff eu hetifeddiaeth ei chyflwyno er mwyn cydnabod hyn yn llawn.</p> <p>Defnyddio ffyrdd newydd o adrodd y straeon o safbwynt pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ein horielau, ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, gan ddathlu eu cyfraniad a chydabod eu presenoldeb yn hanes Cymru.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Caiff digwyddiadau a chysylltiadau hanesyddol hysbys â chaethwasiaeth a threfedigaethedd eu portreadu mewn ffordd wrth-hiliol, gan gydnabod anghyfiawnderau hanesyddol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Cymryd camau i ddymchwel y rhwystrau i gasgliadau treftadaeth a chasgliadau diwylliannol ledled Cymru, drwy gynnig a hyrwyddo profiadau arloesol ac ymgysylltiol sy'n berthnasol i gymunedau ethnig lleiafrifol ac y gall y cymunedau hynny uniaethu â nhw.</p> <p>Ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyfrifol perthnasol nodi sut y byddant yn adolygu ac yn ailgynllunio'r naratif mewn ffordd a gaiff ei llywio gan brofiadau bywyd defnyddwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol ledled Cymru.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Hirdymor</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	
5. Addysg a Dysgu			
<p>Nodi a chyrraedd targedau i Lywodraeth Cymru a chyrrff a noddir ddarparu deunyddiau dysgu, deunyddiau addysgol, deunyddiau dehongli a deunyddiau marchnata sy'n cydnabod ac yn dathlu cymysgedd ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol ein cymdeithas, annog ymgysylltiad corfforol a deallusol eang a hyrwyddo arferion ac egwyddorion gwrth-hiliol drwy gydol y broses.</p>	<p>Adolygu cynnwys ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol i wella gwelededd ac annog hygyrchedd – gan chwilio am grwpiau ac unigolion ethnig lleiafrifol a gweithio gyda nhw i ddatgelu straeon nas adroddwyd a dathlu llwyddiant.</p> <p>Gwellu trefniadau dosbarthu drwy amrywiaeth ehangach o rwydweithiau a sianeli, gan ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau a dulliau cyflwyno a chefnogi ymgysylltiad.</p> <p>Cefnogi rhaglenni sy'n hwyluso ffyrdd newydd o ymgysylltu, sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi cyfleoedd dysgu drwy brofiad ac sy'n galluogi pobl ethnig leiafrifol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon – e.e. drwy raglenni gwirfoddoli wedi'u cyllido a'u strwythuro'n briodol.</p> <p>Adeiladu ar straeon pobl ethnig leiafrifol o fewn rhaglenni addysgol a diwylliannol sy'n bodoli eisoes a chysylltu'r straeon hynny, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, Hwb a Chasgliad y Werin Cymru.</p>	<p>Tymor byr</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Cyflwynwyd deunyddiau dysgu, deunyddiau addysgol, deunyddiau dehongli a deunyddiau marchnata sy'n cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltiad ffisegol a deallusol gwrth-hiliol.</p>

Troseddau, cyfiawnder, agweddau atgas a chydlyniant cymunedol

Caiff y system cyfiawnder troseddol ei nodi'n aml fel maes lle y bu anghyfiawnder hiliol amlwg a chynyddol²⁰.

Er nad yw rhannau helaeth o'r polisi cyfiawnder troseddol wedi'u datganoli yng Nghymru, mae'r ystadegau gofidus sy'n dangos bod unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'u gorgynrychioli yn y system llysoedd a charchardai, bod y cymunedau hyn wedi'u tangynrychioli yn y famwriaeth a chynnydd eithriadol yn nifer y troseddau casineb ar sail hil a gofnodir²¹, yn dangos bod angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio pa bŵer a dylanwad bynnag sydd ganddi er mwyn rhoi newid y mae ei angen yn ddirfawr ar waith

Mae Erthygl 7 o'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil yn creu rhwymedigaeth i fabwysiadu mesurau effeithiol ar unwaith, yn enwedig ym meysydd addysgu, addysg, diwylliant a gwybodaeth, gyda'r bwriad o drechu rhagfarnau sy'n arwain at achosion o wahaniaethu ar sail hil, yn ogystal â lledaenu dibenion ac egwyddorion Siarter y Cenhedloedd Unedig, y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil, a'r Confensiwn. Rydym yn ymwybodol o'r rôl y mae'r System

Cyfiawnder Troseddol yn ei chwarae wrth gyflawni'r rhwymedigaeth hon, yn enwedig wrth herio agweddau ac ymddygiad hiliol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wasanaethau sy'n croestorri ag achosion a chanlyniadau cyflawni a phrofi troseddau; mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, elfennau o gyllid yr heddlu, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cydlyniant cymunedol ac ymdrin â throseddau casineb. Fel y nododd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, gallwn hefyd annog dulliau gweithredu cyfannol ac ataliol o ran mynd i'r afael â throseddau a'u lleihau a hyrwyddo cyfleoedd adsefydlu drwy [ein] rheolaeth uniongyrchol dros amrywiaeth o wasanaethau a'r trefniadau ar gyfer cyllido'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys iechyd, addysg, gofal cymdeithasol i blant, tai a digartrefedd, a gwasanaethau ieuencid a chymunedol.

Mae'r adran isod yn amlinellu meysydd gwaith allweddol lle y gall Llywodraeth Cymru arwain newid neu ddylanwadu arno. Caiff y nodau a'r camau gweithredu lefel uchel hyn eu hategu gan y camau gweithredu trawsbynciol a nodwyd yn gynharach yn y Cynllun. Yn ei adolygiad yn 2017, argymhellodd David Lammy y dylid defnyddio egwyddor 'esbonio neu ddiwygio' i ymdrin â gwahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder

troseddol. Argymhellodd "os na all asiantaethau gynnig esboniad seiliedig ar dystiolaeth am y gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng y grwpiau ethnig, yna, dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny".

Er nad oes dulliau ysgogi ar gael i ni allu cymhwyso'r egwyddor at bob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, rydym yn ymwybodol o argymhelliad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y dylem gymhwyso'r egwyddor hon at feysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'n bosibl y bydd cyflwyno Uned Gwahaniaethau ar sail Hil yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith i Gymru ac mae'n amlwg o'r adborth gan randdeiliaid a thystiolaeth bod data cryfach yn allweddol wrth nodi tueddiadau o ran gwahaniaethau hiliol neu anfanteision posibl ac wrth gymryd camau effeithiol. Bydd nod o'r fath yn rhan bwysig o'r ymarfer cwmpasu ar gyfer yr uned.

Mae profiad unigolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel dioddefwyr troseddau yn elfen bwysig o'r bennod hon; yn benodol, troseddau casineb ar sail hil. Dim ond canran fach o'r digwyddiadau ar sail casineb, y profiadau gwaethygedig ar sail hil a'r achosion o ficro-ymosodedd fel y'i gelwir a brofir gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yw'r digwyddiadau hiliol a gofnodir.

20 WCPP (2020)

21 2,634 offences in 2019/20 – double the number in 2012/13. The majority (65%) of offences in 2019/20 were race-based hate crimes (cited by the WCPP -2020).

Mae hiliaeth a gweithredoedd, agweddau ac ymddygiad casineb cysylltiedig yn creu rhaniadau ac yn ysgogi gwrthdaro. Mae troseddau ac ymddygiad casineb hiliol yn niweidio pobl ac yn peri niwed i'r wlad rydym yn byw ynddi. Maent yn ein hatal rhag datgelu, gwerthfawrogi a mwynhau a dathlu gwahaniaeth yn ein cymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydlyniant cymunedol, agweddau atgas a throseddau casineb yn cynnwys continwwm. Mae adborth gan randdeiliaid yn nodi'n glir mai dim ond fel "crib y rhewfryn" y dylid ystyried y digwyddiadau casineb a gofnodir ac mai dim ond pan fydd ymddygiad wedi'i ategu gan agweddau a gwerthoedd hiliol, nid yn unig ar ran unigolyn, ond ar draws y gymdeithas, y ceir ymddygiad o'r fath. Er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb yn effeithiol, rhaid i ni hefyd ymdrin ag agweddau a gwerthoedd sy'n seiliedig ar gasineb, cynnydd poblyddiaeth a'r ffaith bod iaith hiliol agored fel petai wedi'i normaleiddio. Ar y sail hon, mae'r bennod hon yn cynnwys camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ymgyrchoedd a chodi ymwybyddiaeth ynghylch effaith troseddau casineb.

Rydym bob amser yn anelu at gymunedau cydlynus ledled Cymru. Ein gweledigaeth yw Cymru lle y caiff pawb eu parchu a'u gwerthfawrogi a lle y gallwn fwynhau a dathlu ein gwahaniaethau, gwlad a chymdeithas lle y bydd pawb yn teimlo ymdeimlad o berthyn a lle na dderbynnir anoddefgarwch, casineb, camau rhaniadol nac ymddygiad â chymhelliant hiliol.

Rhaid rhoi'r broses cydlyniant cymunedol ar waith er mwyn sicrhau bod gwahanol grwpiau o bobl yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal. Mae cymuned gydlynus yn ardal lle y bydd y rheini o wahanol gefndiroedd yn rhannu cydberthnasau cadarnhaol, yn teimlo'n ddiogel yn y gymdogaeth ac yn meddu ar ymdeimlad o barch at ei gilydd a gwerthoedd cyffredin.

Lle na chyflawnir cydlyniant, gall tensiynau ac agweddau atgas ddod i'r amlwg. O dan amgylchiadau eithriadol, mae'r agweddau hyn esgor ar droseddau casineb a hyd yn oed weithredoedd terfysgol. Fodd bynnag, yn ogystal â chanolbwyntio ar y camau catalydd hyn, dylid ymdrin hefyd â'r agweddau atgas amlwg a all gael effaith ddinistriol ar gydberthnasau rhwng grwpiau a llesiant unigolion.

Ni all nifer fach o bobl ar eu pen eu hunain fynd i'r afael â throseddau casineb ac agweddau atgas, mae angen dull gweithredu cyfunol. Mae angen i bobl a sefydliadau ledled Cymru gyfan gydnabod y niwed a wnaed i'r unigolion sydd wedi dioddef troseddau casineb, a'r angen i ymdrin â gweithredoedd ac agweddau'r unigolion sydd wedi'u cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru yn galw ar bobl Cymru i gydsefyll i gydnabod hiliaeth, troseddau casineb hiliol, ymddygiad ac agweddau atgas ac i ymdrin â nhw. Nid dim ond y dioddefwyr ddylai fod yn gyfrifol am roi gwybod am droseddau casineb ac am fynd i'r afael â throseddau o'r fath. Mae pob un ohonom yn rhannu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi, felly mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i gydnabod troseddau casineb ac agweddau atgas a'u dileu. Yn yr un modd, byddwn yn ceisio hyrwyddo a dathlu amrywiaeth, addysgu a dathlu caredigrwydd a pharch gan anelu at sefyllfa lle y bydd y mathau hyn o ymddygiad cadarnhaol bob amser yn trechu dros gasineb ac anghyfiawnder.

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n profi achosion o gam-drin atgas a hiliol, neu sy'n dyst iddynt, yn ymwybodol sut y gallant roi gwybod amdanynt ac y byddant yn teimlo'n fwy hyderus yn gwneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio gyda chymunedau a phartneriaid ledled Cymru i'w gwneud hi'n haws i bobl wneud hyn a hefyd i sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn gwneud popeth y gallwn i alluogi hyn ac i sicrhau bod y rheini sy'n cyflawni'r troseddau hyn yn cael eu dwyn ger bron eu gwell.

Gall troseddau casineb ddad-ddynoli dioddefwyr a chyflawnwyr. O ran cyflawnwyr, er y gall mesurau cosbol gynnig atebion i ryw raddau, yn y tymor hir, rhaid cynnig cyfleoedd iddynt ddeall effaith eu gweithredoedd ac ystyried eu system gredoau. Byddwn yn gweithio gyda chyflawnwyr, mewn ffordd debyg i'r rhaglenni llwyddiannus sydd ar waith ar gyfer unigolion sy'n cyflawni mathau eraill o gam-drin, fel y gwasanaethau cam-drin domestig cymunedol achrededig.

Bu'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol ar waith gan Lywodraeth Cymru ers 2012, a'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth ers 2014. Yn y blynyddoedd ers hynny, mae ein rhaglenni wedi cynyddu o ran eu heffaith ac o ran eu pwysigrwydd. Mae troseddau casineb a gofnodir wedi dyblu, fwy neu lai, yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf ac mae'r drafodaeth a geir yn y cyfryngau ac ar-lein yn ymddangos yn gynyddol ranedig ac ymosodol. Ond gellir teimlo'n obeithiol hefyd, wrth i fwy o bobl nag erioed yng Nghymru nodi eu bod yn perthyn i'w cymuned a bod y bobl yn eu hardal yn trin ei gilydd â pharch. Serch hynny, mae llawer mwy i'w wneud er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad wrth-hiliol. Troseddau casineb ar sail hil yw bron i 70% o'r holl droseddau casineb a gofnodir yng Nghymru ac mae'n bosibl na roddir gwybod am gymaint â hanner yr holl droseddau casineb am amrywiaeth o resymau.

Bydd y camau gweithredu isod yn ein helpu i gynyddu ein hymdrechion i ymdrin ag agweddau atgas cyn iddynt arwain at droseddau casineb ond byddant hefyd yn ein helpu i roi cymorth i dioddefwyr pan fydd troseddau yn digwydd.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>I Gymru fod yn wlad wrth-hiliol sy'n teimlo fel lle diogel i fyw, drwy ddileu agweddau atgas a chefnogi dioddefwyr troseddau casineb â chymhelliant hiliol.</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth o effaith troseddau casineb ar sail hil drwy gyfres o ymgyrchoedd cyfathrebu. Bydd yr ymgyrchoedd hyn wedi'u hanelu at gyflawnwyr a gwylwyr tawel. Bydd ymgyrchoedd yn meithrin ymwybyddiaeth o nodweddion troseddau casineb ar sail hil, sut i fod yn wrth-hiliol pan fydd achosion yn digwydd, a ble i gael cymorth a chyngor. Caiff ymgyrchoedd eu datblygu ar y cyd â'r rheini y mae troseddau casineb ar sail hil wedi effeithio arnynt. Disgwylir i'n hymgyrch gyntaf 'Mae Casineb yn Brifo Cymru' gael ei lansio ym mis Mawrth 2021. Bydd ymgyrchoedd yn parhau drwy gydol ffrâm amser y cynllun.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Bydd gwylwyr tawel yn deall troseddau casineb yn well ac yn cael eu cymell i weithredu mewn ffordd wrth-hiliol er mwyn helpu dioddefwyr.</p> <p>Caiff agweddau atgas eu hystyried yn gymdeithasol annerbyniol.</p> <p>Bydd cyflawnwyr yn ofni cael eu herlyn ac yn deall effaith eu gweithredoedd.</p>
	<p>Gwella ein cymorth a'n heiriolaeth i'r rheini sydd wedi cael profiad o drosedd gasineb hiliol drwy Ganolfan Gymorth Casineb Cymru.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Bydd mwy o ddiodesdefwyr yn teimlo'n hyderus wrth fynd â'u camdrinwyr i'r llys neu wrth ddod o hyd i ateb amgen addas.</p> <p>Bydd mwy o erlyniadau yn codi ymwybyddiaeth o'r broblem ac yn atal darpar gyflawnwyr.</p>
	<p>Ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda chyflawnwyr troseddau casineb er mwyn deall yn well sut y gellir lleihau achosion o gam-drin hiliol.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Byddwn yn deall yn well ffyrdd effeithiol o droi darpar gyflawnwyr a chyflawnwyr a gafwyd yn euog yn aelodau gwrth-hiliol o gymdeithas.</p> <p>Bydd cyflawnwyr a drawsnewidiwyd yn ein helpu i ddarbwylo eraill i beidio â gwneud yr un camgymeriadau ag y gwnaethon nhw.</p>
	<p>Nodi a chynnig gwelliannau i gyfraith a phrosesau troseddau casineb drwy Fwrdd Troseddau Casineb Cymru.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Dylai % y diodesdefwyr a gaiff gymorth gan Ganolfan Gymorth Casineb Cymru sy'n fodlon ar ganlyniad eu hachos trosedd gasineb wella dros amser.</p> <p>Dylai eiriolaeth ar sail tystiolaeth wedi'i hategu gan brosiectau pilot arwain at well penderfyniadau polisi gan Lywodraeth y DU.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Trechu agweddau atgas hiliol ar-lein.	Tymor canolig	Bydd cymryd rhan yn HateLab yn gwella amlygrwydd agweddau hiliol ar-lein. Bydd yn ein galluogi i brofi dulliau gweithredu er mwyn deall beth sy'n gweithio wrth atal ymdrechion i ledaenu cynnwys atgas.
Mynd i'r afael â hiliaeth drwy greu cymunedau cydlynus ac integredig.	Gwella ein cymorth wrth greu cydlyniant cymunedol drwy adolygu'r llwyddiannau a'r meysydd i'w gwella yn ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol.	Tymor byr Tymor canolig	Caiff ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol ei hategu gan ddull gweithredu mwy cyson ar sail tystiolaeth. Dylai hyn gynyddu effaith y Rhaglen. Byddem yn disgwyl i bobl deimlo eu bod yn perthyn yn well i'w hardal ac i nodi gwell cydlyniant cymunedol.
	Bydd y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau drwy leihau achosion o wahanu a chynnyddu empathi a dealltwriaeth.	Tymor byr	Dylai % y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol; % y bobl sy'n cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu; a % y bobl sy'n cytuno bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch oll gynyddu.
	Sicrhau bod timau cydlyniant yn gweithredu fel cyswllt rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus er mwyn annog cyfranogiad wrth lunio polisiau a sicrhau cyfle cyfartal i gymunedau ethnig lleiafrifol.	Tymor byr	Dylai prosesau llunio polisiau gynnwys cymunedau ethnig lleiafrifol yn fwy. Dylai cymunedau ethnig lleiafrifol deimlo eu bod yn cael mwy o gyfle i ymgysylltu â phrosesau llunio polisiau.
	Cynnal gwaith ymchwil i nodi safbwyntiau'r cyhoedd yng Nghymru mewn perthynas â chydlyniant cymunedol ac agweddau atgas.	Tymor byr Tymor canolig	Bydd gwaith ymchwil yn gwella ein gallu i ddeall a yw ein camau gweithredu yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd gennym. Rydym yn disgwyl gweld mesurau cydlyniant cymunedol yn cynyddu a chynnydd hefyd yn yr hyder i roi gwybod am droseddau casineb. Rydym yn disgwyl nodi gwell dulliau ar gyfer liniaru agweddau atgas ar-lein ac all-lein.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Rydym yn addo cydweithio â phartneriaid datganoledig ac annatganoledig i ymdrin â gorgynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol, a thangynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gweithio o fewn y system honno. Ein nod cyffredinol yw y bydd pawb a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael canlyniadau cyfartal, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd.</p>	<p>Drwy Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru, byddwn yn gweithio er mwyn deall anghymesureddeidd hiliol a'i achosion yn well ac i ymdrin â hynny ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Y Grŵp Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol i gadarnhau'r canlyniadau.</p>
	<p>Byddwn yn gweithio gyda Grŵp Cyflawni Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol a fydd yn ymdrin â gorgynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y system cyfiawnder troseddol, tangynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n gweithio o fewn y system honno, ac i atgyfnerthu cydberthnasau rhwng y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.</p>	<p>Tymor canolig</p>	<p>Bydd y Grŵp Cyflawni yn pennu'r canlyniadau ac yn eu cyflwyno.</p>
	<p>Byddwn yn gwrandao ar brofiadau personol pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys dioddefwyr, tystion, carcharorion, diffynyddion ac ati) er mwyn diwallu eu hanghenion yn well drwy'r Cynllun Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Bydd yn arwain at ddull gweithredu mwy cyson ar sail tystiolaeth mewn perthynas â datblygu camau gweithredu i ymdrin â'r materion.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo eu bod yn cael mwy o gyfle i ymgysylltu â phroses llunio polisiau'r system cyfiawnder troseddol.</p> <p>Gwell cydberthnasau rhwng cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r system cyfiawnder troseddol.</p>
	<p>Byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar y Glasbrintiau Troseddolwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuencid yn ystyried anghydraddoldebau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol ac yn ystyried sut y gellir ymdrin â gwahaniaethau drwy strategaethau ymyrryd ac atal.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Meithrin dealltwriaeth o brofiadau bywyd menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y System Cyfiawnder Troseddol er mwyn llywio a datblygu rhaglen waith.</p> <p>Bydd gweithgareddau a wneir o dan y Glasbrintiau yn ystyried anghydraddoldeb hiliol ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymdrin â gwahaniaethau.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	Byddwn yn annog y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i gynnwys arferion gwrth-hiliol ac i nodi anghenion penodol plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth iddynt ddatblygu eu hadroddiad terfynol (y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2021).		Bydd adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim wedi ystyried arferion gwrth-hiliol ac anghenion penodol plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
	Bydd Llywodraeth Cymru yn dangos cefnogaeth i gymunedau o Sipsiwn a Theithwyr drwy wrthod unrhyw bolisi gwrth-Sipsiwn a Theithwyr a fyddai'n troseddoli cymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu'n gorfodi mwy o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr i wrthod ffyrdd traddodiadol o fyw.		Byddwn yn anelu yn gyntaf at ddatgymhwysu'r ddeddfwriaeth arfaethedig i Gymru. Os na fydd modd gwneud hynny, byddwn yn ystyried sut y gellir lliniaru effaith y ddeddfwriaeth yng Nghymru (gan ddibynnu'n sylweddol ar gamau gweithredu arfaethedig yn y bennod tai a llety).
Byddwn yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael ledled Cymru i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y mae Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi effeithio arnynt.	Gwaith gyda'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru i ddatblygu strategaeth gyllido gynaliadwy a thymor hir ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol yng Nghymru, yn ystod pandemig y Coronafeirws a thu hwnt.	Tymor byr	Caiff canlyniadau eu nodi a'u cynnwys fel rhan o Strategaeth Genedlaethol newydd.
Sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin ar sail anrhydedd o fewn cymunedau gweithredol, ac o fewn y gymuned ehangach.	Caiff canlyniadau eu nodi a'u cynnwys fel rhan o Strategaeth Genedlaethol newydd.		
Mwy o ymwybyddiaeth o anghenion penodol grwpiau gwahanol o fewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes i gyflawnwyr, drwy hyfforddiant i ymarferwyr, er mwyn galluogi trefniadau gweithio trawsddiwyllynnol effeithiol.	Caiff canlyniadau eu nodi gan y Grŵp.		
Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Arweinyddiaeth Cam-drin ar sail Anrhydedd i weithio gyda sefydliadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i nodi anghenion parhaus y gymuned mewn perthynas â cham-drin ar sail anrhydedd, priodasau dan orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a diwallu'r anghenion hynny.			

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Byddwn yn sicrhau y gall aelodau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt i ddatrys problemau lles cymdeithasol.</p>	<p>Drwy'r Gronfa Gyngchori Sengl, mae cyllid grant ar gael er mwyn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor. Mae model cyflenwi gwasanaeth y Gronfa Gyngchori Sengl yn cynnwys Partneriaid Mynediad a Phartneriaid Cyngor. Mae Partneriaid Mynediad yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys grwpiau sy'n cefnogi/ cynrychioli cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, sy'n estyn allan i ddefnyddwyr eu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut y gallant gael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt.</p>		<p>Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gallu arfer eu hawliau lles cymdeithasol.</p>

Y Gymraeg

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn ehangol ac yn gynhwysol: mae'r Gymraeg yn iaith i bawb ac yn ffordd o uno pobl o wahanol gefndiroedd. Gall dysgu ieithoedd newydd olygu y byddwn ni, fel unigolion, yn fwy agored i ddiwylliannau eraill. Rydym yn dathlu amrywiaeth ieithyddol Cymru a'r ffaith y gall dysgu a defnyddio ail neu drydedd iaith gyfoethogi bywydau pobl.

Fel gwlad, rydym wedi dechrau ar daith tuag at gyrraedd 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a dyblu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg bob dydd. Yn ystod y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, roedd tua 10,000 o'r 562,000 o bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn dod o gymunedau ethnig lleiafrifol. Rydym am weld y nifer hwn yn cynyddu, a byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol. Wrth wneud hynny, byddwn yn gwrandao ar brofiadau bywyd siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol ac yn dysgu ohonynt.

Fel rhan o'r ymdrech i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050, rydym am godi ymwybyddiaeth ac annog mwy o blant ethnig lleiafrifol i ymgymryd ag addysg cyfrwng Cymraeg, p'un a yw'r Gymraeg yn famiaith iddynt, neu'n ail neu drydedd iaith iddynt. Diben hyn yw sicrhau mynediad cyfartal i bawb i addysg a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac mae'n cynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, y cyfnod addysg statudol, addysg ôl-16 ac addysg bellach yn ogystal â Chymraeg i oedolion.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Deall y rhwystrau a'r cyfleoedd i bobl ethnig lleiafrifol yn well, ac felly ddymchwel y rhwystrau a gwella mynediad i'r Gymraeg i gymunedau ethnig lleiafrifol ym maes addysg, dysgu iaith, y gweithle a gweithgareddau cymunedol, a hynny i blant, pobl ifanc ac oedolion.</p>	<p>Comisiynu gwaith ymchwil er mwyn deall profiad bywyd y 10,000 o siaradwyr Cymraeg, fwy neu lai, sy'n dod o gymunedau ethnig lleiafrifol sy'n byw yng Nghymru er mwyn llywio camau gweithredu ar gyfer y dyfodol i ddiddymu hiliaeth yng Nghymru.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Dealltwriaeth well o ddarlun cyfredol y rhwystrau a'r cyfleoedd wrth gael mynediad i gyfleusterau Cymraeg mewn nifer o feysydd.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Caiff adolygiad ei gynnal gan randdeiliaid addysg perthnasol i ddechrau er mwyn casglu gwybodaeth fanwl am y darlun cyfredol a'r rhwystrau sy'n atal unigolion o'r gymuned ddu ac ethnig leiafrifol rhag cael addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Drwy raglen gymorth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cydgysylltu fforwm ar-lein er mwyn i Awdurdodau Lleol rannu gwybodaeth ac arferion da cyfredol o ran ymgysylltu, strategaethau marchnata a chyrraedd y gymuned hon.</p> <p>Cynnwys ymgysylltu a marchnata addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr unigolion o'r gymuned Ddu ac Ethnig Leiafrifol sy'n manteisio ar addysg o'r fath fel rhan o'r broses fonitro flynyddol.</p> <p>Cynnwys marchnata ac ymgysylltu â'r gymuned Ddu ac Ethnig Leiafrifol a chymorth i bartneriaid allanol fel rhan o strategaeth marchnata a chyfathrebu Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Mwy o blant o gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.</p>
	<p>Adolygiad mewnol gan y Ganolfan i nifer y bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd, a'r strategaethau presennol sydd ar waith i'w hannog i wneud hynny.</p> <p>Casglu data ar ethnigrwydd.</p> <p>Pennu targedau penodol fel rhan o gyllid grant a chynllun gweithredu i wella cynrychiolaeth o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	<p>Tymor byr</p> <p>Tymor byr Tymor canolig</p>	<p>Mwy o oedolion o gymunedau ethnig lleiafrifol ledled Cymru yn manteisio ar ddarpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<p>Adolygiad mewnol gan dderbynwyr y grant i nifer y bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd, a'r strategaethau presennol sydd ar waith i'w hannog i wneud hynny.</p> <p>Digwyddiad dysgu er mwyn rhannu arferion da o ran ymgysylltu, hyrwyddo mynediad a gwella niferoedd. Sefydlu Cymuned Ddysgu er mwyn sicrhau trafodaethau a datblygiadau parhaus.</p>	Tymor byr Tymor canolig	Mwy o unigolion o gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru yn mwynhau gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
	<p>Pennu targedau penodol fel rhan o gyllid grant a chynllun gweithredu i wella cynrychiolaeth o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Cyflwyno cylch gwaith i'n partneriaid Cymraeg a gaiff eu cyllido gan grant i ymdrin â'r ffactorau sy'n atal pobl rhag ymgymryd â gweithgareddau neu gymryd rhan mewn digwyddiadau Cymraeg, a hyrwyddo gwrth-hiliaeth o fewn cyd-destun eu gwaith.</p>		
	Parhau i gymryd rhan yng ngwaith grŵp terminoleg Gymraeg a sefydlwyd gan Brifysgol Bangor i sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir i drin a thrafod materion sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth yn gyfredol, yn briodol ac yn gyson, ac yn seiliedig ar fewnbwn gan siaradwyr Cymraeg o gymunedau ethnig lleiafrifol.	Tymor canolig	Datblygu terminoleg safonol sy'n hawdd i bawb ei deall er mwyn trafod materion sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth sy'n adlewyrchu cymuned ddiwylliannol ethnig Cymru.
	<p>Prifysgol Bangor i barhau i arwain y grŵp terminoleg Gymraeg er mwyn diwygio a gweithredu terminoleg safonol, ac wrth wneud hynny, sicrhau yr ymgysylltir â chynrychiolwyr siaradwyr Cymraeg o gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Y grŵp terminoleg i drafod a datblygu dulliau ymgysylltu effeithiol er mwyn sicrhau y caiff y derminoleg newydd ei deall a'i defnyddio.</p> <p>Cynnwys y derminoleg newydd yn y Termiadur Addysg.</p>		

Yr amgylchedd

Yn fyd-eang ac yn lleol, mae newid yn yr hinsawdd ac arferion sy'n dinistrio'r amgylchedd yn cael effaith anghymesur ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ethnig lleiafrifol). Mae'n bosibl hefyd y bydd ganddynt lai o fynediad at fannau gwyrdd. Fodd bynnag, mae eu treftadaeth, eu diwylliant a'u crefyddau yn cynnig cysylltiad cryf iddynt â'u hamgylchedd a pharch tuag ato. Yn hanesyddol, nid ydym wedi cyrraedd grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau gwarchoddedig eraill i'w helpu i fanteisio ar fyd natur, i fanteisio ar y gwelliannau y mae natur yn eu cynnig o ran llesiant, nac i gymryd rhan mewn camau gweithredu i adfer a gwella byd natur.

Mae'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn bwriadu creu 'natur ar garreg eich drws'. 2020-21 oedd blwyddyn gyntaf y rhaglen ac mae cannoedd o brosiectau o bob math a maint yn mynd rhagddynt mewn cymunedau ledled Cymru. Mae tri Rheolwr Cynllun yn rhoi cynlluniau cyfalaf ar waith er mwyn galluogi cymunedau ledled Cymru i gymryd rhan wrth adfer a gwella natur "ar garreg eich drws". Mae'r rhaglen yn bwriadu canolbwyntio ar ardaloedd lle ceir amddifadedd, ardaloedd trefol a lled-drefol a'r cymunedau hynny nad oes llawer o gyfleoedd natur ar gael iddynt.

Mae pob prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn creu asedau cyfalaf naturiol ac yn canolbwyntio ar o leiaf un o fesurau cymedrig y Prif Weinidog sy'n cael effaith leol e.e. lleihau pleleiddiaid, perllannau cymunedol, newid arferion torri gwair, tyfu cymunedol, plannu planhigion gwylt, mynediad cyhoeddus at ddŵr yfed ac ati. Mae pob prosiect cymunedol yn defnyddio gwirfoddolwyr. Mae'r rhaglen gyfalaf yn parhau yn 2021-22. Eleni, rydym am geisio gweithredu er mwyn sicrhau y gallai amrywiaeth ehangach o gymunedau gymryd rhan yn Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn y dyfodol. Yn 2021-22, byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda grwpiau ethnig lleiafrifol a phobl ag anableddau. Y cam cyntaf yw ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid er mwyn nodi a chyd-greu camau gweithredu i leihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyfranogi yn y rhaglen bresennol. Amcan tymor hir yw y gall grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau anabledd gymryd rhan mewn prosiectau yn y dyfodol i greu 'lleoedd ar gyfer natur' ar garreg eu drws.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>Parhau i greu mwy o leoedd lleol ar gyfer natur ledled Cymru.</p> <p>Yn arbennig, cefnogi cyfranogiad ehangach gan y rheini o grwpiau gwarchoddedig; yn arbennig y rheini o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl.</p>	<p>Mae'r camau gweithredu yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gweithio gyda chynrychiolwyr o'r Fforwm Hil, y Fforwm Anabledd, y Fforwm Ffoaduriaid, Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ystyried rhaglen bresennol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac i nodi unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cyfranogi. - Cydweithio i nodi sut y gellid lleihau'r rhwystrau hynny sy'n atal pobl rhag cyfranogi. - Cyd-awduro unrhyw gamau gweithredu a nodwyd. - Cytuno ar y cyd ar ddull ar gyfer monitro unrhyw ganlyniadau sy'n gymesur ac yn hydryn. 	<p>Tymor byr</p>	<p>Amcan tymor hir yw y gall grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau anabledd gymryd rhan mewn prosiectau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn y dyfodol i greu 'lleoedd ar gyfer natur' ar garreg eu drws.</p> <p>Grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau anabledd yn creu lleoedd ar gyfer natur ac o ganlyniad, yn lleihau achosion o allgáu.</p>

Nodau a chamau gweithredu trawsbynciol

Wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (CGCH), daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg. Ymddengys fod diffyg dulliau gweithredu strwythurol mewn perthynas â nifer o faterion. Hefyd, ni chaiff y gwersi a ddysgir o'r adborth a ddarperir gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a chan wneuthurwyr polisi, eu hystyried yn ddigonol. Mae angen ymdrin â'r ddau fater.

Mae'r themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys y canlynol:

1. Yr angen i ystyried gwahanol ddulliau gweithredu strwythurol i'r rhai a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ryngweithio ac ymgysylltu, a chyllido a monitro'r trefniadau ar gyfer cyllido cymunedau du ac ethnig leiafrifol;
2. Ym mha ffordd y mae profiad unigolion ar draws gwahanol wasanaethau cyhoeddus yn eu dadrymuso, ac na allant gael gafael ar eiriolaeth, cymorth na help pan fyddant yn wynebu hiliaeth;
3. Yr angen i sicrhau bod prosesau asesu effaith yn fwy ystyrlon;
4. Yr angen am ddata mwy cyfredol am brofiadau bywyd a data sy'n gadarn ac yn 'ronynnog';

5. Yr angen i adlewyrchu'r ymdrechion ychwanegol gan wirfoddolwyr o grwpiau leiafrifol na chânt eu cydnabod yn aml. .

Felly, rydym wedi cynnwys pum nod trawsbynciol er mwyn ymateb i'r pryderon hyn. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-lunio'r nodau hyn, a'r camau gweithredu dilynol. Byddwn yn ymchwilio i'r hyn sydd ei angen, yn hytrach na rhoi atebion parod ar waith. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn dechrau cyn y daw'r ymgynghoriad i ben, er mwyn dangos ein hymrwymiad i weithredu ar unwaith.

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>1a: Sicrhau bod y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu yn gydnaws â'r gwersi a ddysgwyd, arferion gorau, ac fel y cytunwyd drwy ddeialog â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>	<p>Pennaeth Cyfathrebu Llywodraeth Cymru i lunio a chynnal 'map' Cymru gyfan unigol o grwpiau o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau ffydd, grwpiau ethnig a grwpiau croestoriadol eraill sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig lluosog. Gellir defnyddio'r map hwn at wahanol ddibenion polisi er mwyn sicrhau bod un ffynhonnell ar gael i bob rhan o Lywodraeth Cymru ei defnyddio.</p> <p>Dylai'r 'map' hwn wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnwys gwaith imiwneiddio a mapio cysylltiedig, rhestr o grwpiau rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol rydym yn ymgynghori â nhw, a chynnwys actifyddion allweddol sy'n barod i ymgysylltu ar wahanol feysydd polisi ac ati. Dylai'r broses hon fod yn seiliedig ar y gwaith Profi, Orlhain a Diogelu a'r gwaith imiwneiddio a wnaed/a gomisiynwyd. - Nodi grwpiau ac actifyddion cymunedol â diddordeb mewn gwahanol feysydd polisi, a chadw'r manylion hyn ar gronfa ddata (o dan GDPR). - Cydgysylltu'n rheolaidd â grwpiau cymunedol er mwyn diweddarw'r manylion hyn. <p>Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cydgysylltu â sefydliadau sy'n bodoli eisoes â chylch gwaith i ymgynghori a rhoi llais e.e. swyddfeydd y gwahanol Gomisiynwyr, sefydliadau ethnig lleiafrifol. - Gweithio gyda Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, cytuno sut y bydd yn sicrhau deialog â grwpiau ethnig lleiafrifol, bwydo'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru, ac adrodd yn ôl i'r grwpiau a gymerodd ran yn y broses. 	<p>Tymor byr</p>	<p>Porth unigol er mwyn cyfathrebu'n well â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.</p> <p>Dinasyddion mwy gwybodus.</p> <p>Gwell cysylltiadau â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'u cymunedau.</p> <p>Mwy o ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
	<ul style="list-style-type: none"> - Llunio papur arferion gorau unigol ar gyfer eitemau fel cyfieithiadau, pryd y mae'n ddefnyddiol defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru a phryd nad yw'n ddefnyddiol gwneud hynny, canllaw ar sut i gyfathrebu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n ymdrin â'i bryderon, a sut i ddefnyddio gwahanol dulliau e.e. dulliau allgymorth i gyrraedd gwahanol grwpiau cymunedol. - Dysgu o waith gweithwyr allgymorth COVID-19, a buddsoddi, os yw'n bosibl, mewn dulliau allgymorth pellach (Gorgyffwrdd â'r Nod Iechyd). 		
<p>1b: Adolygu a chyd-gynllunio gwell dulliau gweithredu ar gyfer cyllido sefydliadau ethnig lleiafrifol</p>	<p>Cam gweithredu: Cyllid</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adeiladu ar yr hyn a fynegwyd eisoes gan gymunedau er mwyn penderfynu beth sydd wedi gweithio/nad yw wedi gweithio o ran y ffordd y mae Llywodraeth Cymru, a'r trydydd partiön sy'n gweinyddu cyllid ar ei rhan (e.e. CGGC), yn cefnogi cymunedau ethnig lleiafrifol. - Cysylltu camau gweithredu â'r adolygiad o grantiau a gomisiynwyd eisoes gan y Prif Weinidog. - Nodi arferion da o fannau eraill, ac o fewn Llywodraeth Cymru, e.e. y Gronfa Natur. - Cyd-lunio a chytuno ar Fframwaith â'r Grŵp Atebolrwydd, yn amlinellu nodweddion cydweithio da, cymorth a gwaith monitro cymesur, wrth gyllido cymunedau ethnig lleiafrifol. Dylai'r Fframwaith hwn fod yn addas i'w ddefnyddio gan bob un o Adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, a chan bawb sy'n gweinyddu cyllid ar ei rhan. - Monitro'r defnydd o'r Fframwaith hwn. 	<p>Tymor byr Canolig Hir</p>	<p>Ffrydiau cyllido mwy cyson a chynaliadwy sy'n galluogi sefydliadau ethnig bach a mawr i gynllunio eu dyfodol.</p> <p>Dileu unrhyw ragfarn a hiliaeth sefydliadol a systemig sy'n rhan o'r system gyllido.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>2. Nodi gwasanaethau cyfredol a rhai ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â chwynion dioddefwyr hiliaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Cynnull cyfarfod bord gron o bawb sy'n ymwneud â derbyn cwynion am droseddau casineb/hil er mwyn ystyried y bylchau a'r synergeddau, a sut y gellir atgyfnerthu arferion presennol. - Galluogi hyfforddiant er mwyn helpu'r rheini sy'n ymdrin â chwynion* i gydnabod hiliaeth groestoriadol, lle y caiff pobl ethnig leiafrifol eu targedu am nodweddion gwarchoddedig lluosog (Rhyw, Oedran, Anabledd, Cyfeiriadedd rhywiol, Crefydd, Trawsrywedd) (* gan gynnwys: swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sefydliadau cysylltiadau hiliol sy'n cynnig cymorth, sefydliadau cyfreithiol sy'n helpu i gyflwyno cwynion ffurfiol, pobl â phrofiad bywyd o drawma sy'n ceisio sicrhau bod eu cwyn yn cael ei chlywed, undebau llafur, y famwriaeth, aelodau'r Bwrdd Troseddau a Chyfiawnder). - Nodi beth arall sydd ei angen er mwyn 'cau'r bwlch' ar gyfer achwynwyr unigol. - Cwmpasu'r ffordd a nodir ar gyfer diwallu anghenion a'r adnoddau y cytunir amynt. - Cyfleu pa wasanaethau sydd ar gael. 	<p>Tymor byr i ganolig</p>	<p>Bydd gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fwy o hyder wrth roi gwybod am droseddau casineb.</p> <p>Daw'r llwybr tuag at sicrhau cyfiawnder yn esmwythach i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>3. Gwella'r broses o gynnal asesiadau effaith yn sylweddol, er mwyn sicrhau bod pobl ethnig leiafrifol a'u cymunedau yn fodlon bod y dull gweithredu yn gwneud gwahaniaeth go iawn wrth nodi effaith unrhyw bolisi ar wahanol grwpiau.</p>	<p>Adolygu'r dull gweithredu cyfredol â rhanddeiliaid a swyddogion polisi; nodi gwahanol dulliau gweithredu y gellid eu profi er mwyn cael gwell canlyniadau.</p> <p>Treialu dulliau prif-ffrydio cydraddoldeb fel rhan o'r broses o ddatblygu polisiau.</p> <p>Datblygu canllawiau a hyfforddiant enghreifftiol a sicrhau eu bod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.</p> <p>Cynnwys cylch gwaith cryfach ar gyfer asesu effaith o fewn prosesau caffael a chyllid grant y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cyflawni canlyniadau buddiol i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.</p> <p>Rhannu canllaw arferion gorau a monitro ei effaith.</p> <p>Nodi sut mae cylch gwaith yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil yn cefnogi camau gweithredu i sicrhau cydweddoldeb mynediad at ddata a gwaith ar asesu effaith.</p>	<p>Tymor byr</p>	<p>Polisiau sy'n fuddiol i bobl o leiafrifoedd ethnig, lle mae lleisiau a phrofiadau byw o bob rhyw wedi'u cynnwys wrth ddatblygu polisi, yn hytrach na'u hychwanegu ar ôl eu sefydlu.</p>

Nod	Camau gweithredu	Pryd	Canlyniad
<p>4. Sicrhau data ystyrllon, cadarn a defnyddiadwy ar ethnigrwydd, er mwyn gallu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - meithrin ymddiriedaeth gan y rheini sy'n eu darparu; - sicrhau'r lefel o ddata sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniadau; - gwerthfawrogi profiadau bywyd llawn cymaint â data meintiol ac osgoi gofynion cyson; - sicrhau y caiff data eu defnyddio'n briodol i lywio prosesau ar gyfer llunio, adolygu ac ailgynllunio polisiau. <p>Noder: Dylid croesgyfeirio'r nod hwn â'r nodau data yn y meysydd polisi perthnasol (pob maes fwy neu lai) lle y nodwyd anghenion a bylchau penodol yn adroddiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sesiynau 'cyrraedd gwraidd y mater', sesiynau 'bord gron' a chyfarfodydd y Grŵp Llywio.</p>	<p>Camau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nodi bylchau data, deall pam bod y bylchau yn bodoli a sut y gellir cael gafael ar y data coll drwy ddulliau eraill. - Cwblhau'r ymarfer cwmpasu ar gyfer yr Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Ymchwil a Data Cydraddoldebau er mwyn deall y rôl y bydd y ddwy uned hyn o bosibl yn ei chwarae wrth gefnogi casgliadau data ehangach, yn enwedig gan na fydd data'r Cyfrifiad ar gael am o leiaf ddwy flynedd arall. 	<p>Tymor byr</p> <p>Tymor canolig</p>	<p>Nid yw'r data yn rhagddyddio camau gweithredu, yn enwedig os bydd profiad bywyd yn nodi fel arall. Caiff data caled eu hategu â phrofiad bywyd os bydd angen. Mae data ar ethnigrwydd yn cynnwys gwahanu yn ôl rhyw, anabledd a'r holl nodweddion gwarchoddedig eraill.</p> <p>Mae'r data ar gael yn hawdd ac yn cael eu defnyddio ym mhob maes polisi, er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau a wneir ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol yn well.</p>
<p>5. Yr angen i adlewyrchu'r ymdrechion ychwanegol gan wirfoddolwyr o grwpiau lleiafrifol na chânt yn aml eu cydnabod.</p>	<p>Ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio credydau amser fel ffordd o wobrwyo gwaith cynnar nad yw'n daladwy/na chaiff ei wobrwyo'n ariannol fel rhan o ffrydiau cyllido.</p> <p>Cyd-greu systemau gwobrwyo sy'n canmol, yn cymell ac yn cydnabod gwaith cynnar na chaiff ei gyllido gan gymunedau ethnig lleiafrifol.</p>	<p>Tymor byr</p> <p>Tymor byr</p>	<p>Cydnabod a gwobrwyo gwaith a wneir gan gymunedau a gyda chymunedau, na chaiff ei gydnabod ac na thelir amdano ar hyn o bryd.</p>

Adran 3

14. Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym?

Mae'r rheini sy'n gweithio gyda phobl sy'n nodi eu bod yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac ar ran y bobl hynny wedi cynnal amrywiaeth o waith ymchwil a gwerthuso dros gyfnod o ddegawdau er mwyn dangos profiadau'r cymunedau hyn a'r anfantais gynhenid a achosir gan hiliaeth unigol, strwythurol a systemig. Defnyddiwyd yr adroddiadau hyn i ddatblygu'r Cynllun hwn a dyma oedd sail y dystiolaeth a adolygwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru²². Ceir crynodeb byr o'r dystiolaeth berthnasol isod gan ddefnyddio themâu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Cawsom wybodaeth hefyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn amlinellu ei argymhellion o ran y camau gweithredu y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd, yn ei fam ef, i ymdrin ag anghydraddoldeb hiliol yn y meysydd bywyd canlynol – Addysg, Cyflogaeth, Cyfranogiad, Tai, Iechyd a Mynediad at Gyfiawnder.

Nid yw'r dystiolaeth ganlynol, sy'n cynnwys data meintiol ond hefyd brofiadau byw yn deillio o'r deialogau wedi'u harwain gan y gymuned a gynhaliwyd gan 25 o sefydliadau, yn cael ei chyflwyno er mwyn creu ymdeimlad o anocheledd nac ychwaith i danseilio'r cyflawniadau a'r cryfderau sylweddol o fewn cymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru Fe'i darperir er mwyn dangos yr anfantais systemig a gaiff ei phrofi gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru ac, mewn rhai achosion, yng nghyd-destun ehangach y DU, mewn perthynas â themâu blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Yn ôl y data cyfun ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2019²³, mae 5.2% o'r boblogaeth yng Nghymru yn disgrifio eu hunain fel Asiaidd, Du, 'Grŵp ethnig cymysg/lluosog' neu 'Grŵp ethnig arall'. Y rheini sy'n disgrifio eu grŵp ethnig fel Asiaidd yw'r grŵp ethnig mwyaf ond un yng Nghymru (2.4% o'r boblogaeth).

Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae cyfran y boblogaeth sy'n disgrifio eu hunain fel Asiaidd, Du, 'Grŵp ethnig cymysg/lluosog' neu 'Grŵp ethnig arall' wedi cynyddu'n gyson.

Yn ogystal â throsolwg cenedlaethol, mae cyfran y boblogaeth yng Nghymru sy'n Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn amrywio yn ôl yr ardal is-genedlaethol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2020, mae 19.1% o'r boblogaeth yng Nghaerdydd yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, o gymharu ag 1.4% ym Mhowys.²⁴

Addysg

Mae'n annhebygol iawn y caiff plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol eu haddysgu gan rywun sy'n edrych yn debyg iddyn nhw. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn awgrymu yn 2020 mai dim ond 1.3% o athrawon yng Nghymru oedd yn dod o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol – tua 469 o aelodau o staff allan o 35,171. Mae 0.2% yn nodi'n benodol eu bod yn Ddu, Affricanaidd Caribiaidd neu Ddu Prydeinig, sy'n cyfateb i oddeutu 64 o athrawon. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfrifiad ysgolion diweddaraf²⁵ (mis Ionawr 2020) yn nodi bod 8.6% o ddisgyblion pump oed neu drosodd yng Nghymru yn Ddu, Asiaidd neu'n Ethnig Leiafrifol. Yn ôl tystiolaeth a ddarparwyd gan EYST i'r Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg, ar hyn o bryd nid oes unrhyw benaethiaid o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru²⁶.

22 www.wcpp.org.uk/publication/improving-race-equality-in-wales/

23 Llywodraeth Cymru (2020). Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth: 2017 i 2019. www.llyw.cymru/ystadegau-cydraddoldeb-ac-amrywiaeth-2017-i-2019 – cyrchwyd 24/02/2021

24 Ystadegau blynyddol y gweithlu addysg i Gymru. www.ewc.wales/site/index.php/cy/ystadegau-ac-ymchwil/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html Cyrchwyd 11/11/2020

25 Welsh Government (2020). Schools' census results: as at January 2020. https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2020?_ga=2.101860425.978183370.1616509609-1047252115.1616509609

26 EYST (2018) www.seneddtest.assembly.wales/documents/s71276/TF%2018%20Ethnic%20Minorities%20Youth%20Support%20Team%20Wales%20EYST%20Wales.pdf

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, roedd chwarter yr athrawon/cynorthwyr addysgu a ymatebodd yng Nghymru wedi arsylwi ar achos o wahaniaethu ar sail hil, wedi ymateb i achos o'r fath neu wedi cael gwybod am achos o'r fath gan ddisgybl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 3 o bob 10 disgybl a gymerodd ran yn cyfaddef eu bod wedi bod yn hiliol neu wedi defnyddio iaith hiliol mewn perthynas â disgybl arall²⁷. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r bylchau o ran cyflawniad lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn cau yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod rhwng 2017 a 2019 yng Nghymru, mae ffigurau cyrhaeddiad rhai grwpiau Du ac Ethnigrwydd Cymysg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer cyfnodau allweddol 2-4.

Yn 2019, nid oedd gan gyfran uwch o oedolion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru unrhyw gymwysterau (12 y cant, o gymharu ag 8 y cant ar gyfer y grŵp Gwyn²⁸).

Canfu ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu hiliol mewn addysg uwch fod aflonyddu hiliol yn brofiad cyffredin mewn prifysgolion a ariennir yn gyhoeddus ym Mhrydain, a'i fod yn gyffredin, gan gynnwys aflonyddu hiliol, ymosodiadau corfforol, galw enwau a micro ymosoddedd. Canfu nad yw'r sector addysg uwch yn deall aflonyddu hiliol yn llawn ac nad oes gan staff prifysgolion yr hyder i ymdrin â materion hiliol. Roedd problemau hefyd o ran y ffaith nad oedd sefydliadau yn cael gwybod am bob achos ac o ran cofnodi achosion sy'n cyfyngu ar allu prifysgolion i weithredu²⁹.

O adroddiadau cymunedol

Triniaeth gan eraill, cam-drin hiliol,

ynysigrwydd: Roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn gyffredin i bobl ifanc o gefndiroedd Du ac Ethnig Leiafrifol gael eu trin yn wahanol i eraill. Er enghraifft, roedd pobl yn aml yn mynegi eu treftadaeth drwy steil gwallt, gwisg ac iaith – ond roedd y ffordd roedd y mynegiadau hyn yn cael eu hystyried neu eu trin gan ddisgyblion eraill ac aelodau o staff yn aml yn anghymesur, yn ansensitif neu hyd yn oed yn wahaniaethol. Nodwyd yn helaeth y gall lleoliadau addysg fod yn fannau lle mae pobl o gefndiroedd lleiafrifol yn wynebu camdriniaeth hiliol, a lle y gall arferion fel anwybyddu'r mater ac achosion o stereoteipio negyddol waethygu ei heffaith. Yn aml, mae dioddefwyr yn teimlo'n ynysig iawn.

Rôl athrawon, diffyg amrywiaeth yn y proffesiwn

a safonau addysgu: mae gan athrawon a sefydliadau ran hanfodol i'w chwarae wrth greu amgylchedd cynhwysol i ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo nad oedd staff bob amser yn gwneud hyn. Roedd y diffyg amrywiaeth yn y proffesiwn addysgu yn ffactor allweddol, gan gynnwys athrawon a darlithwyr o gefndiroedd Du ac Ethnig Leiafrifol. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anos creu amgylchedd mwy cynhwysol, a chyflwyno cwricwlwm sy'n sensitif i wahanol draddodiadau. O ran safonau addysgu, mynegodd rai anfodlonrwydd â safonau addysgu Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys dosbarthiadau oedolion i bobl a oedd yn awyddus i wella eu Saesneg er mwyn integreiddio'n well a'u helpu i ddod o hyd i swydd. Fodd bynnag, roedd rhai, gan gynnwys

llawer o gymunedau o ffoaduriaid, o'r farn bod safon yr help a gawsant gan ysgolion ac athrawon wedi bod yn uchel iawn. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn pryderu am y profiad o hiliaeth yn y system addysg ac am lefelau cyrhaeddiad addysgol is ymhlith rhai pobl ifanc o gefndiroedd Du ac Ethnig Leiafrifol. Teimlwyd bod hyn yn tansilio eu cyfleoedd bywyd, yn eu hatal rhag trosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd fel oedolion ac yn gwaethygu anghydraddoldebau.

“Nododd y cyfranogwyr mai prin iawn oedd yr athrawon neu'r penaethiaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn eu hysgolion. Ymgyrch ragweithiol i recriwtio athrawon o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gan annog cymorth hyfforddi i athrawon pob pwnc, gan gynnwys y celfyddydau”.

Race Council Cymru – Gorllewin Cymru

“Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i wella cyrhaeddiad addysgol ymhlith y grwpiau ethnig hynny sy'n tanberfformio er mwyn cefnogi a chynyddu achosion llwyddiannus o bontio o addysg i gyflogaeth”.

Panel Cynghori Is-Sahara

27 Dangos y cerdyn coch i hiliaeth (2020). Hiliaeth yng Nghymru? Archwilio rhagfarn yn y system addysg yng Nghymru.

www.static1.squarespace.com/static/574451fe37013bd0515647ac/t/5ed66832828130220b5020a9/1591109741222/Hiliaeth+Yng+Nghymru+--+Archwilio+Rhogfarn+Yn+Y+System+Addysg+Yng+Nghymru+%28F%29-%28W%29.pdf – cyrchwyd 09/02/2021

28 Llywodraeth Cymru (2020). Lefel y cymwysterau uchaf a ddeler gan oedolion o oed gweithio: 2019 – www.llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddeler-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2019-html – cyrchwyd 29/01/2021

29 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019). Tackling racial harassment: Universities challenged. www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged.pdf – cyrchwyd 09/02/2021

Cyflogaeth ac incwm

Mae pobl sy'n byw mewn aelwydydd yng Nghymru lle mae pennaeth yr aelwyd yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fyw mewn tloidi incwm cymharol o gymharu â'r rheini lle mae pennaeth yr aelwyd yn dod o grŵp ethnig gwyn. Mae dros draean (34.9%) y bobl o gefndir ethnig Du yn byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd bach ac mae bron i 11% o'r bobl sy'n byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o ardaloedd bach yn dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae hynny'n fwy na dwywaith cyfran y bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y boblogaeth gyfan.³⁰

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, roedd cyfraddau cyflogaeth ymhlith yr oedran gweithio (16-64) yng Nghymru ar eu uchaf ymhlith unigolion Gwyn (74%) ac ar eu hisaf ymhlith unigolion ag Ethnigrwydd arall (52%)³¹. Y cyfraddau cyfatebol ar gyfer unigolion Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd cymysg oedd 66%, 64% a 71% yn y drefn honno³². Yn ogystal, roedd bwlch cyflog ethnigrwydd o 1.4% yng Nghymru yn 2019. Mae hyn yn golygu bod cyflogaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru yn ennill cyfartaledd o 1.4% yn llai fesul awr na chyflogaeth Prydeinig Gwyn.³³

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyflogaeth Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o weithio mewn rhai galwedigaethau penodol. Dengys dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru fod 11.2% o weithwyr gofal iechyd a 7.2% (*) o weithwyr gofal cymdeithasol yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Yn ogystal, mae 40.2% (**) o yrwyr tacsï a sioffrwy, 22.8% (**) o gogyddion a 4.8% (**) o yrwyr bysiau, coetsys a cherbydau nwyddau yn weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Er mwyn cymharu, ar draws pob galwedigaeth, mae 5.2% o weithwyr yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (D.S. defnyddir * a ** i nodi bod yr eitemau data yn seiliedig ar feintiau sampl bach (25-40 a 10-25 yn y drefn honno) ac y dylid eu trin yn ofalus).³⁴

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan Ganolfan Astudiaethau Hydredol UCL³⁵, Ymddiriedolaeth Carnegie UK ac Operation Black Vote, mae unigolion cenedlaeth y mileniwm o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 47% yn fwy tebygol o fod ar gontract dim oriau, o gymharu â'u cyfoedion Gwyn. Mae unigolion cenedlaeth y mileniwm o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd 10% yn fwy tebygol o fod ag ail swydd, maent 5% yn fwy tebygol o weithio gwaith sifft ac maent 4% yn llai tebygol o fod ar gontract parhaol na gweithwyr Gwyn. Mae'r gwaith ymchwil yn seiliedig ar wybodaeth gan grŵp cynrychioliadol cenedlaethol o fwy na 7,700

o bobl sy'n byw yn Lloegr a aned rhwng 1989-90 ac sy'n cael eu dilyn gan astudiaeth o'r enw 'Next Steps'. Yn ogystal, canfu'r gwaith ymchwil fod profiadau yn y farchnad swyddi yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig. Er enghraifft, roedd unigolion Pacistanidd cenedlaeth y mileniwm yn fwy tebygol o fod ar gontract dim oriau neu o fod yn gweithio sifftiau, ac yn llai tebygol o fod ar gontract parhaol na'u cyfoedion Gwyn. Fodd bynnag, nid oedd gweithwyr Indiaidd a Charibiaidd yn fwy tebygol na'u cyfoedion Gwyn o fod yn y mathau hyn o swyddi.

Canfu dadansoddiad o arolwg 'Racism at work' Cyngres yr Undebau Llafur 2016-2017³⁶ fod dros 70% o weithwyr Asiaidd a Du a ymatebodd yn nodi eu bod wedi cael profiad o aflonyddu hiliol yn y gweithle yn ystod y 5 mlynedd flaenorol. Nododd tua 60% o weithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a bron i 40% o gyfranogwyr o gefndir treftadaeth gymysg eu bod wedi cael eu trin yn annheg gan eu cyflogwr oherwydd eu hil.

30 Llywodraeth Cymru (2020). Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru. www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/coronafeirws-covid-19-ar-boblogaeth-pobl-dduon-asiadd-a-lleiafrifoedd-ethnig-bame-683.pdf

31 Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Cynhaliwyd ym mis Medi 2020

32 Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Cynhaliwyd ym mis Medi 2020

33 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020). Ethnicity pay gaps: 2019. www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/articles/ethnicitypaygapsingreatbritain/2019

34 Llywodraeth Cymru (2020). Coronafeirws (COVID-19) a'r boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru. www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/coronafeirws-covid-19-ar-boblogaeth-pobl-dduon-asiadd-a-lleiafrifoedd-ethnig-bame-683.pdf

35 Canolfan Astudiaethau Hydredol UCL, Ymddiriedolaeth Carnegie UK ac Operation Black Vote (2020). BAME millennials at greater risk of being in unstable employment – www.ucl.ac.uk/news/2020/mar/bame-millennials-greater-risk-being-unstable-employment

36 Ashe SD, Borkowska M and Nazroo J (2019). Racism Ruins Lives: An analysis of the 2016-2017 Trade Union Congress Racism at Work Survey – www.hummedia.manchester.ac.uk/institutes/code/research/projects/racism-at-work/tuc-full-report.pdf

O adroddiadau cymunedol

Diffyg cyfleoedd, anhawster wrth gadw swydd ac anghysondebau o ran cyflogau: Roedd llawer o adroddiadau yn nodi diffyg cyfleoedd cyflogaeth, yn enwedig swyddi sicr â chyflogau uwch. O ran cadw swydd, nododd rhai eu bod wedi cael eu rhyddhau, neu nad adnewyddwyd eu contractau. Roedd canfyddiad eang nad oedd profiad a chymwysterau pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn aml yn cael eu hystyried mewn ffordd deg wrth recriwtio. Nododd llawer o unigolion eu bod yn gorfod derbyn gwaith llai medrus neu waith â chyflog is na'r hyn yr oeddent yn gymwys i'w wneud yn ôl eu profiad a'u sgiliau neu eu bod wedi symud i sefyllfa hunangyflogedig er mwyn osgoi diwylliannau negyddol mewn gweithleoedd.

Roedd anghysondebau o ran cyflogau yn thema allweddol arall. Nododd llawer eu bod yn cael cyflog annheg o gymharu â chydweithwyr a oedd yn gwneud yr un swydd. Cafwyd enghreifftiau o bobl a oedd yn cael eu diystyru am godiadau cyflog, ac o bobl a oedd yn cael yr un cyflog â chydweithwyr llai profiadol. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod sicrhau cyflogaeth yn hanfodol er mwyn cymryd rhan ystyrion mewn cymdeithas, a bod methu â gwneud hynny yn cynyddu'r ymdeimlad o allgáu cymdeithasol. Roedd hyn yn arbennig o wir i grwpiau nad oeddent yn rhan o'r farchnad lafur, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol, bwlio a hiliaeth, a diffyg uwch-fodelau rôl: Disgrifiodd rhai cyfranogwyr effaith y diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn eu gweithle; er enghraifft, diffyg ymwybyddiaeth o sut y gallai sylwadau di-hid achosi sarhad, neu rwystrau a oedd yn eu hatal rhag dilyn eu crefydd, er enghraifft dim lle i weddio, neu orfod gweithio ar ddiwrnodau neu wyliau crefyddol. Roedd bwlio a hiliaeth hefyd yn faterion arwyddocaol, efallai oherwydd diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a'r ffaith nad oedd cwmnïau wedi gorfod diwallu anghenion pobl o gefndir a ffydd wahanol yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, roedd rhwystrau a oedd yn atal unigolion rhag rhoi gwybod am ymddygiad hiliol. Roedd ofn y caent eu diystyru, neu y byddai rhoi gwybod am y mater yn effeithio ar eu cyfleoedd yn y tymor hwy. Roedd llawer yn teimlo bod y diffyg ffigyrau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn uwch-swyddi yn cael effaith andwyol. Roedd rhai yn teimlo nad oedd cyfle iddynt ddatblygu; roedd eraill yn fwy rhwystredig â'r ffaith nad oedd digon o bobl ddu ac ethnig leiafrifol mewn swyddi dylanwadol i weithredu fel modelau rôl a rhoi cymorth.

“Dywedodd y cyfranogwyr hynny na wnaethant roi gwybod am ddigwyddiad neu drosedd casineb fod y digwyddiadau hynny wedi digwydd yn eu gweithle neu yn eu hardal leol, a'u bod wedi dewis peidio â rhoi gwybod amdano gan eu bod yn pryderu y byddai'n effeithio ar eu swydd neu'n effeithio ar eu bywyd gartref.”

Race Council Cymru – Gogledd Cymru

“Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn teimlo bod eu hethnigrwydd wedi'i gynrychioli ar lefel uwch yn eu gweithle. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nad oedd, ond dywedwyd wrthym nad yw hyn yn effeithio ar eu gweithle o ddydd i ddydd. “Does dim modelau rôl felly mae'n rhaid i ni reoli ein dyheadau ac mae'r lefel ddealltwriaeth o wahanol gefndiroedd ar lefel uwch yn isel”. “Mae pob un o'r prif reolwyr yn wyn ac nid oes ganddynt unrhyw brofiad bywyd o hiliaeth, felly ni allant empathyddio ac maent yn aml yn dangos rhagfarn ddiarwybod.”

Race Council Cymru – Gorllewin Cymru

Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan yr asiantaeth ymgynghori gweithredol ar recriwtio ac amrywiaeth Green Park yn datgelu am y tro cyntaf yn ystod ei chwe blynedd o waith dadansoddi, nad oes unrhyw Gadeiryddion, Prif Swyddogion Gweithredol na Phrif Swyddogion Ariannol du, yn y FTSE100. Yn ogystal, dim ond 10 allan o 297 (3.4%) o arweinwyr yn y tair swydd uchaf sydd o gefndir ethnig lleiafrifol, yr un nifer â'r gyfran pan ddechreuodd Green Park gynnal dadansoddiadau o'r FTSE yn 2014.³⁷ Nid oes gennym ddata cyfatebol ar lefel Cymru gyfan, ond mae arwyddion clir nad yw pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar lefel arweinyddiaeth. Er enghraifft, nododd mwyafrif sylweddol o'r ymgeiswyr (98 y cant) yn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn 2017 eu bod yn dod o grŵp ethnig 'Gwyn' (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/O Ogledd Iwerddon/Prydeinig, Gwyddelig, Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig ac unrhyw gefndir Gwyn arall). Dim ond 1.8 y cant o'r holl ymgeiswyr a nododd eu bod yn dod o grwpiau ethnig eraill (gan gynnwys 'Cymysg/Lluosog', 'Asiaidd/Asiaidd Prydeinig', 'Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig' a 'Grwpiau ethnig eraill'. Yn yr un modd, 1.8 y cant o gynghorwyr sir ac 1.2 y cant o gynghorwyr cymuned a nododd eu bod yn dod o grwpiau ethnig nad oeddent yn grwpiau gwyn.

O adroddiadau cymunedol

Arweinyddiaeth fwy amrywiol: ystyriwyd bod arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol yn hanfodol, er mwyn i ni allu adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth groestoriadol Cymru yn briodol. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wneud mwy i sicrhau y caiff lleisiau pob cymuned eu clywed, a bod y broses o wneud penderfyniadau go iawn yn cynnwys cyfranogiad ystyrlon gan bob grŵp o fewn cymdeithas. Y farn amlwg oedd nad yw arweinwyr ar hyn o bryd yn llwyddo i gynrychioli amrywiaeth poblogaeth Cymru yn llawn, o ran cyfansoddiad deddfwrfeydd democrataidd, comisiynwyr penodedig ac etholedig, cynghorwyr arbennig, swyddogion gweithredol a sefydliadau, nac o ran ystyried pob barn a safbwynt wrth lunio polisiau.

Gwybodaeth am gylch gwaith Llywodraeth Cymru, rhestrau byr ar gyfer ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn unig, gwella cyfranogiad: roedd yr adborth yn nodi bod diffyg gwybodaeth am gylch gwaith Llywodraeth Cymru yn ffactor allweddol a oedd yn atal pobl rhag ymgysylltu yn y maes cyhoeddus. Roedd hyn hefyd yn wir, yn fwy cyffredinol, am y ffordd y caiff penderfyniadau gwleidyddol eu gwneud, a sut y gall pobl a chymunedau ymgysylltu â'r broses o lunio polisiau. Thema arall oedd rôl rhestrau byr ar gyfer ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn unig ar gyfer swyddi arweinyddiaeth penodol, gan gynnwys penodiadau gwleidyddol. Lle y gwnaed yr awgrym hwn, cafwyd cefnogaeth o'i blaid fel ffordd o sicrhau y daw arweinyddiaeth yn fwy cynrychioliadol, ac o annog mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad gan gymunedau ethnig lleiafrifol ledled y wlad. Y goblygiad amlwg oedd bod

diffyg amrywiaeth groestoriadol yn rhwystr go iawn i gyfranogiad ac ymgysylltiad ystyrlon.

"Y gobraith yw y byddai mwy o amrywiaeth [ymhlith arweinwyr] yn helpu pobl i ffynnu, i gyflawni, i arweinwyr fod yn hygyrch ac yn bobl y gellir uniaethu â nhw, i gael mwy o gyfleoedd i ymgynghori ag arweinwyr a chreu modelau rôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ceir ymdeimlad gwirioneddol y byddai unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi llawer mwy ac y byddent yn gallu cyfrannu mewn ffordd fwy cadarnhaol yng Nghymru. Mae yna ymdeimlad dwfn, os ceir gwell cynrychiolaeth, na chaiff straeon eu "hanghofio neu eu hanwybyddu".

Mae Bywydau Du o Bwys Cymru

"Wedyn gofynnodd yr arolwg a ddylid anelu at gytundeb trawsbleidiol ar gyfer rhestr fer ar gyfer ymgeiswyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn unig er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth ym maes cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o blaid hynny. "Byddai'n hyfryd sicrhau bod pob cymuned wedi'i chynrychioli".

Race Council Cymru – Gogledd Cymru

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yn arbennig yn y grwpiau oedran hŷn, mae unigolion Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaid a Charibiaidd Du yn llawer mwy tebygol na phobl Wyn Brydeinig o roi gwybod am un neu fwy o broblemau â'r frest a phroblemau anadlu, problemau â'r galon, pwysedd gwaed neu gylchrediad, a diabetes.³⁸ Mae tystiolaeth yn awgrymu bod grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu achosion o wahaniaethu mewn perthynas â darparu gofal iechyd. Er enghraifft, yn 2017, lluniodd Mudiad y Teithwyr adroddiad yn ymchwilio i brofiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ragfarn a gwahaniaethu. Yn seiliedig ar arolwg ar-lein o 214 o aelodau o'r gymuned o bob cwr o'r DU, canfu Mudiad y Teithwyr fod 30% yn profi achosion o wahaniaethu mewn perthynas â chael gafael ar ofal iechyd.³⁹ Yn yr un modd, mae un o bob pum person Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (19 y cant), gan gynnwys 24 y cant o bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Asiaidd, wedi profi rhyw fath o driniaeth annheg gan staff gofal iechyd gan eu bod yn bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.⁴⁰ Fel yr eglurodd adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19, mae unigolion o rai lleiafrifoedd ethnig hefyd yn wynebu anfantais gymdeithasol ac economaidd a all arwain at debygolrwydd uwch y bydd eu hiechyd yn wael.⁴¹

Gall y trawma a'r anawsterau cymdeithasol ac economaidd posibl sy'n gysylltiedig â mudo hefyd gael effaith uniongyrchol ar iechyd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches gyfraddau uchel a chyson o PTSD ac iselder, gan dynnu sylw at yr angen i ddarparu gofal iechyd meddwl hirdymor parhaus y tu hwnt i'r cyfnod ailsefydlu cychwynnol.⁴²

O adroddiadau cymunedol

Staff iechyd a gofal, ansawdd gofal, mynediad ac amseroedd aros: soniodd llawer o'r ymatebwyr am ddiffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol gan rai aelodau o staff iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, pobl yn cael cynnig triniaethau a oedd yn cynnwys ychydig o alcohol neu gynhyrchion anifeiliaid. Nododd sawl sefydliad fod cleientiaid wedi wynebu casineb neu hiliaeth; gan amrywio o ddiffyg parch, staff yn edrych amynt ac yn eu trin yn wahanol, hyd at gael eu hanwybyddu'n llwyr oherwydd eu llafaredd neu eu hymddangosiad. Nododd eraill nad oeddent wedi gallu cael gwasanaeth penodol am nad oedd ganddynt gyfeiriad sefydlog, nad oedd staff yn eu credu neu yn eu cymryd o ddifrif, neu nad oedd ganddynt unrhyw ffordd o gael gafael ar nawdd cyhoeddus oherwydd eu statws mewnffudo. I rai cymunedau penodol, iaith oedd y rhwystr allweddol. Gallai hyn arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys methu â disgrifio symptomau, a dryswch ynghylch sut i gymryd meddyginiaeth a ragnodwyd. Roedd pryderon hefyd o ran cael gafael ar ofal iechyd sylfaenol, gan gynnwys apwyntiadau meddygon

teulu, ac amseroedd aros estynedig. Yn deillio o hyn, gwnaed cais am newid mewn diwylliant ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn iddynt allu deall y materion a allai effeithio ar bobl o wahanol ethnigrwyddau yn well ac ymgysylltu â nhw gan ddangos sensitifrwydd diwylliannol a pharch. Gwnaed cais hefyd am weithlu mwy amrywiol, er mwyn helpu i wella profiadau a chanlyniadau i'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Canlyniadau gwael, a'r effaith ar iechyd meddwl:

Nododd rhai ymatebwyr bod y cyfyngiadau ychwanegol roeddent yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wasanaethau, a'u profiadau negyddol wrth gael gofal a chymorth, yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles. Cyfeiriwyd at COVID-19 hefyd a'r ffordd y mae'r pandemig wedi cael effaith ddwys ac anghymesur ar rai cymunedau. Soniodd ymatebwyr hefyd am yr heriau sy'n gysylltiedig ag ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Unwaith eto, nodwyd bod COVID-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa hon, yn enwedig i bobl hŷn. Yn gyffredinol, roedd iechyd meddwl yn bryder allweddol, yn enwedig gan fod gan rai cymunedau anghenion penodol, neu eu bod yn fwy tebygol o wynebu materion iechyd meddwl penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi wynebu trawma sylweddol. Ochr yn ochr â hyn, nodwyd llawer o brofiadau cadarnhaol o bobl yn cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd, gan gynnwys sylwadau am ansawdd uchel a chydwybodolrwydd y gofal yr oedd pobl wedi'i gael.

38 Platt L and Warwick R. (2020). COVID-19 and Ethnic Inequalities in England and Wales. FISCAL STUDIES, cyfrol 41, rhif 2, tud. 259–289 – www.onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/1475-5890.12228 – cyrchwyd 29/01/2021.

39 The Traveller Movement (2017). The pervasive discrimination and prejudice experienced by Gypsy, Roma and Traveller communities. www.travellermovement.org.uk/phocadownload/userupload/reports/last-acceptable-form-of-racism-traveller-movement-report.pdf – cyrchwyd 05/02/2021

40 Stonewall. (2018). LGBT in Britain: Adroddiad iechyd – www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_health.pdf – cyrchwyd 29/01/2021

41 Bécares L. Which ethnic groups have the poorest health? *Ethnic health inequalities M 1991 to 2011*. Centre on Dynamics of Ethnicity (CoDE) Briefing, Manceinion: Prifysgol Manceinion, 2013

42 Blackmore R, Boyle JA, Fazel M, Ranasinha S, Gray KM, Fitzgerald G, et al. (2020) The prevalence of mental illness in refugees and asylum seekers: A systematic review and meta-analysis. *PLoS Med* 17(9):e1003337. www.doi.org/10.1371/journal.pmed.1003337

“Iaith oedd y rhwystr mwyaf; dywedodd cyfranogwyr nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf wrthym fod y ffaith nad oedd cyfieithwyr ar gael yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf wedi arwain at gamddiagnosis, neu at sefyllfa lle nad oedd y claf yn gallu deall y diagnosis a’r driniaeth”.

Race Council Cymru – Gogledd Cymru

“Yn aml, soniodd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil am eu hiechyd meddwl a’r effaith sylweddol y mae hiliaeth wedi’i chael arno. Maent wedi dadlau o blaid gwasanaethau iechyd meddwl gwell yng Nghymru ac o blaid cynyddu nifer y cwnselwyr o gefndiroedd ethnig tebyg”.

Panel Cynghori Is-Sahara

Y system cyfiawnder troseddol

Yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol oedd â’r cyfraddau stopio a chwilio uchaf ym mhob ardal heddlu yr oedd data ar gael ar ei chyfer. Ar gyfer pob 1,000 o bobl wyn, cafodd pedwar eu stopio a’u chwilio, o gymharu â 38 ar gyfer pob 1,000 o bobl Ddu⁴³.

Yn 2019, roedd 91 o bobl Ddu o Gymru yn y carchar am bob 10,000 o’r boblogaeth, o gymharu ag 14 o bobl Wyn, 28 o bobl Asiaidd a 41 o bobl Gymysg fesul 10,000 o’r boblogaeth⁴⁴.

O’r 4,023 o droseddau casineb a gofnodwyd ledled pedair Ardal yr Heddlu yng Nghymru yn 2019/20, troseddau casineb hiliol oedd 2,634 (65%) ohonynt⁴⁵.

O adroddiadau cymunedol

Troseddau casineb, a diffyg cymorth gan yr awdurdod: Nododd rhai ymatebwyr eu bod wedi dioddef troseddau casineb. Gwnaethant dynnu sylw at yr effaith hirdymor y gall troseddau o’r fath ei chael, gan gynnwys gorbryder am y digwyddiad ei hun, ond hefyd y profiadau a’r ymchwiliadau a ddilynodd. Yn aml, ni chaiff y troseddau hyn eu cosbi, gan na roddwyd gwybod amdanynt, neu oherwydd diffygion yn y systemau erlyn. Yn gysylltiedig â hyn, roedd teimlad bod diffyg cymorth gan ffigyrau mewn awdurdod, er enghraifft, gan ysgolion, busnesau a chymunedau yn ystod y cyfnod yn dilyn digwyddiadau o’r fath. Roedd rhai yn teimlo mai’r naratif canlyniadol oedd bod y ‘system wedi torri’.

Roedd hyn yn arwain at sefyllfa lle nad oedd nifer cynyddol o ddiodefwyr yn rhoi gwybod am y digwyddiad, gan nad oeddent yn teimlo y gallent ymddiried yn y rheini a fyddai’n gyfrifol am brosesu eu cwynion. Roedd hyn yn groes i’r fam gyffredinol bod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo’n ddiogel o fewn eu cymuned eu hunain.

Hiliaeth sefydliadol – plismona a mewnfudo:

Soniodd rhai ymatebwyr am eu profiadau, ac am arferion fel proffilio hiliol, fel tystiolaeth o hiliaeth sefydliadol yn yr Heddlu. Roedd rhai yn teimlo bod dihidrwydd tuag at ddiodefwyr troseddau, a chanfyddiad nad oedd yr Heddlu yn barod i ymgysylltu â throseddau casineb yn ymwneud â hil a phrosesu’r troseddau hynny. Dywedodd pobl fod hyn wedi llywio eu barn am y system cyfiawnder troseddol. Ochr yn ochr â hyn, tynnodd rhai sylw hefyd at hiliaeth sefydliadol o fewn y gwasanaeth mewnfudo, yn seiliedig ar eu profiad bywyd personol.

“O blith y cyfranogwyr a oedd wedi dioddef trosedd casineb ac wedi rhoi gwybod amdani, dim ond un cyfranogwr a ddywedodd ei fod yn fodlon ar y canlyniad. Roedd y rheini a roddodd wybod am drosedd o’r farn naill ai nad oedd gan yr heddlu lawer o ddiddordeb neu na wnaeth yr heddlu ddigon o waith dilynol mewn perthynas â’r achos. Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym eu bod o’r farn nad oedd swyddogion yr heddlu yn cael eu hyfforddi’n briodol i ddeall effaith troseddau casineb, a’u bod yn dangos rhagfarn”.

43 Ethnicity Facts and Figures (2020). Stop and search. Llywodraeth y DU. www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/policing/stop-and-search/latest – cyrchwyd 09/02/2021

44 Canolfan Llywodraethiant Cymru (2020). Prison, probation and sentencing in Wales: 2019 Factfile. Prifysgol Caerdydd. www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0010/2446129/Prison,-Probation-and-Sentencing-in-Wales-2019-Factfile.pdf – cyrchwyd 09/02/2021

45 Y Swyddfa Gartref (2020). Hate crime, England and Wales, 2019 to 2020 – www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020 – cyrchwyd 29/01/2021

Fforwm Ieuencid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Cenedlaethol Cymru

“Credaf fod y system fewnfudo yn y DU yn wahaniaethol. Mae’n araf iawn ac mae’n anodd cael gwybod beth sy’n digwydd. Os byddwch yn chwilio am ddiogelwch, mae gorfod aros pedair blynedd neu fwy i gael gwybod a allwch aros yn achosi cryn dipyn o straen, ac nid yw’n system deg na dyngarol yn fy marn i. Yr unig brofiad sydd gennyf o’r heddlu yw pan wnaethant gymryd fy olion bysedd”.

TGP Cymru

Tai

Mae hanner y boblogaeth Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent, o gymharu ag ychydig llai na thraean o’r boblogaeth wyn. Mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy’n rhentu yn fwy tebygol o fyw mewn eiddo rhent preifat yn hytrach nag eiddo rhent cymdeithasol. Gwyddom o Arolwg Cyflwr Tai Cymru (2017-18) mai’r sector rhent preifat yn gyffredinol sydd â’r stoc dai hynaf a bod ganddo gyfran uwch o dai o ansawdd gwael (e.e. yn cynnwys lleithder neu beryglon eraill).⁴⁶

O blith yr aelwydydd hynny a wnaeth gais i awdurdodau lleol yn 2018-19 am gymorth tai gan eu bod yn wynebu bygythiad o fod yn ddigartref, roedd 8 y cant o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Fodd bynnag, mae 14 y cant o aelwydydd yr asesir eu bod yn anfwriadol ddigartref a bod ganddynt anghenion â blaenoriaeth yn dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac o’u plith, derbyniodd 83 y cant gynnig o lety addas sefydlog.⁴⁷

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 1.1 miliwn o aelwydydd gorlawn yng Nghymru a Lloegr, lle roedd llai o ystafelloedd gwely na’r nifer tybiannol a argymhellir gan y safon ar gyfer ystafelloedd gwely. Roedd gan bron hanner (47.9%) yr aelwydydd hyn Berson Cyswllt y Cartref (HRP) o grŵp ethnig lleiafrifol (grŵp heblaw Gwyn Prydeinig). Roedd aelwydydd lle roedd Person Cyswllt y Cartref o grŵp ethnig lleiafrifol yn cynrychioli 16.1% o’r holl aelwydydd, ond dim ond 1 o bob 9 (11.1%) o’r 16.1 miliwn o aelwydydd wedi’u tanfeddiannu yng Nghymru a Lloegr. Roedd aelwydydd lle roedd Person Cyswllt y Cartref o grŵp ethnig Bangladeshaidd yn cynnwys canran uwch (30.2%) o aelwydydd gorlawn na’r rheini lle roedd Person Cyswllt y Cartref o unrhyw grŵp ethnig arall. Roedd Person Cyswllt y Cartref o grŵp ethnig lleiafrifol mewn o leiaf 4 allan o 5 o aelwydydd gorlawn y pum awdurdod lleol â’r gyfran fwyaf o aelwydydd gorlawn⁴⁸.

O adroddiadau cymunedol

Argaeledd a fforddiadwyedd: t roedd barn gyffredinol mai prinder pob math o lety a deiliadaeth oedd y ffactor mwyaf a oedd yn atal pobl rhag cael llety o ansawdd da. Roedd hyn yn amlwg iawn, er enghraifft, ymhlith cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr. Roedd pryderon sylweddol hefyd o ran fforddiadwyedd. Dywedodd sawl ymatebydd fod y cyflogau isel a’r lefelau isel o gyflogaeth a oedd yn amlwg yn eu cymunedau yn ei gwneud hi’n anos sicrhau llety addas i’w rentu, ac yn cynyddu’r risg y byddent yn cael eu troi allan hefyd. Pryder allweddol arall oedd anallu llawer o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ymuno â’r farchnad dai. Roedd cyflogau isel ac achosion systemig i wahaniaethu yn golygu nad oedd mor hawdd i rai grwpiau penodol gael morgais a phrynu eu cartrefi eu hunain.

Ymdrin â landlordiaid, tai gorlawn ac amodau tai gwael: Roedd llawer o heriau hefyd yn gysylltiedig â byw mewn llety rhent, yn y sector tai preifat a’r sector tai cymdeithasol. Nododd llawer yr anawsterau a wynebir wrth geisio cael gwaith atgyweirio wedi’i wneud, ac roedd llawer o’r farn bod y broblem hon wedi gwaethygu yn ystod pandemig COVID-19. Nododd eraill eu bod wedi dioddef achosion o hiliaeth a gwahaniaethu gan landlordiaid. Roedd tai gorlawn hefyd yn broblem allweddol, oherwydd maint bach cryn dipyn o’r llety fforddiadwy, ynghyd â’r posibilrwydd y byddai angen i nifer mawr o bobl fyw yn y gofod hwnnw. Tynnwyd sylw hefyd at amodau tai gwael, fel lleithder neu gyflwr gwael cyffredinol eiddo, felly hefyd ddiffyg dodrefn mewn llety rhent preifat a thai cymdeithasol. I’r rheini

46 Llywodraeth Cymru (2020). Coronafeirws (COVID-19) a’r boblogaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig (BAME) yng Nghymru. <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/coronafeirws-covid-19-ar-boblogaeth-pobl-dduon-asiadd-a-lleiarioedd-ethnig-bame-683.pdf>

47 Llywodraeth Cymru (2019). Llesiant Cymru: 2018-2019 – www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/well-being-of-wales-2019-590.pdf – cyrchwyd 29/01/2021

48 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011). Overcrowding and Under-Occupation by Ethnic Group, 2011 – www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105214050/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census-analysis/overcrowding-and-under-occupation-by-ethnic-group--2011/rpt-overcrowding.html – accessed 29/01/2021

a oedd yn byw mewn llety rhent, dywedwyd bod y manau a rennir yn achosi heriau penodol, gan gynnwys bod grwpiau lleiafrifol yn cael eu targedu oherwydd eu hil neu eu cefndir.

“Nid oes digon o lety i’r holl Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru; mae llawer o Sipsiwn yng Nghymru bellach yn byw mewn tai ond byddai’n well ganddynt fyw mewn Trelar. Mae angen adeiladu mwy o safleoedd ledled Cymru. Rwyf wedi bod yn cymryd rhan yn yr Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a’r grwpiau llywio ac yn anffodus, fel cymuned, ni bob amser yw’r rhai olaf i gael gwybod beth sy’n digwydd. Mae angen i’r cyngor siarad mwy â ni a gofyn ein barn”.

TGP Cymru

“Y prif fater a nodwyd oedd bod angen cydnabod yr angen am dai amlgenhedlaeth. Wrth drefnu tai cymdeithasol, yn aml, nid oedd yr angen hwn yn cael ei ystyried, a oedd yn aml yn golygu bod tenantiaid yn byw mewn tai gorlawn nad oeddent yn diwallu eu hanghenion.

Race Council Cymru – Casnewydd

Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

O adroddiadau cymunedol

Cynrychiolaeth ddiwylliannol, derbyn ac ymgysylltu: Roedd ymdeimlad cryf ymhlith llawer o gymunedau lleiafrifol ynghylch y ffaith nad oeddent yn cael eu cynrychioli’n ddigonol o fewn diwylliant ehangach yng Nghymru. Roedd hyn yn gysylltiedig â threfedigaethedd, a phortread systemig o’r ‘lleill’ o ran mudwyr a’r rheini o wahanol ffydd, traddodiadau a hanes. Roedd ymdeimlad nad oedd cymdeithas ehangach yn derbyn rhai lleiafrifoedd yn gyffredinol, gan arwain at achosion o wahaniaethu a hiliaeth yn eu bywydau beunyddiol. Fodd bynnag, soniodd rhai am waith ymgysylltu cadarnhaol iawn gan gymunedau ehangach wrth geisio ymgysylltu â phobl o wahanol safbwyntiau a hunaniaethau. Roedd pryderon lle nad oedd ymdrechion i ymgysylltu a derbyn, fod hyn yn arwain at golli hunaniaeth ddiwylliannol yn y cymunedau hynny.

Goblygiadau cyfreithiol a goblygiadau polisi, a’r camau gweithredu sydd eu hangen: roedd rhai adroddiadau yn awgrymu bod diffyg cynrychiolaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn bwydo i mewn i ymatebion cyfreithiol a sefydliadol. Roedd hyn yn ffurfioli ac yn gwaethygu anghydraddoldebau ac achosion o wahaniaethu ar sail hil ym mhob rhan o’r gymdeithas yng Nghymru. Ystyriwyd ei bod hi’n hanfodol dangos yr amrywiaeth o ddiwylliannau sydd bellach yn byw yng Nghymru yn well er mwyn goresgyn y broblem hon, ac er mwyn sicrhau y caiff pob diwylliant a phob cefndir eu derbyn a’u deall. Pwysleisiwyd bod yn rhaid defnyddio’r celfyddydau a pherfformiad i wneud hyn mewn ffordd barchus a dilys.

“Dywedwyd wrthym fod rhai o’r bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a gymerodd ran yn yr arolwg hwn yn teimlo eu bod wedi’u gwahanu oddi wrth eu hanes a’u diwylliant nhw eu hunain ac nad ydynt yn byw mewn amgylchedd lle y gallant ailgysylltu. Mewn lleoliadau gwledig, mae mwy o angen dangos amrywiaeth ddiwylliannol leol.”

Race Council Cymru – Gorllewin Cymru

“Ni ddylai dull gweithredu dilys ar gyfer datrys y mater hwn, o dan unrhyw amgylchiadau, gynnwys sefydliadau nac unigolion nad oes ganddynt brofiad o hybu’r cymunedau hyn yn rheolaidd. Byddai angen i’r gwaith hwn fod yn ddilys a helpu i feithrin cryfder economaidd y cymunedau hyn, gan helpu i greu cysylltiadau hiliol cydlynus yng Nghymru. At hynny, bydd yn pwysleisio pwysigrwydd pobl Ddu yn adrodd straeon Du, gan ddychwelyd pŵer y naratif i berchenogion dilys y naratif.”

Mae Bywydau Du o Bwys Cymru

15. Asesiad Effaith o'r Cynllun Gweithredu

Cwblhawyd templed ar gyfer Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae'n ddogfen weithredol, a gaiff ei diwygio wrth i'r Cynllun gael ei gwblhau a'i roi ar waith. Diben yr Asesiad Effaith Integredig yw nodi gweledigaeth, diben, gwerthoedd, nodau a chymau gweithredu Llywodraeth Cymru i ymdrin ag anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru, ac i ystyried yr effaith negyddol a chadarnhaol bosibl ar wahanol grwpiau a meysydd polisi.

Mae cydweithwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol wedi cyfrannu at yr Asesiad Effaith Integredig.

Ar hyn o bryd, mae gweledigaeth, diben, gwerthoedd, nodau a chymau gweithredu'r Cynllun yn debygol o effeithio ar lawer o bobl ledled Cymru, yn enwedig y rheini o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, drwy fynd i'r afael yn uniongyrchol â hiliaeth. Yn ogystal, rhagwelir y caiff y Cynllun ei berchenogi a'i roi ar waith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac y caiff ei roi ar waith mewn ffordd ragweithiol. Dim ond drwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, a defnyddio profiadau bywyd ac arbenigedd cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel canolbwynt, y gallwn helpu i sicrhau y caiff y Cynllun effaith barhaus.

Atodiadau

Atodiad 1: Steering Group Terms of Reference

Diben

Ein diben wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol newydd yw ysgogi newid diwylliant yn Llywodraeth Cymru, mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mewn busnesau ac o fewn cymdeithas yng Nghymru, er mwyn ymdrin â hiliaeth strwythurol a systemig. Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn anelu at drawsnewid profiadau a chyfleoedd bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru ac at sicrhau y caiff cyfraniad pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ei ddathlu a'i adlewyrchu ac y rhoddir yr un pwysigrwydd iddo â'u cyfoedion Gwyn.

Rôl y Grŵp Llywio yw helpu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, y newid diwylliant angenrheidiol a'r camau gweithredu ymarferol drwy gynnig gwybodaeth, cymorth a her wrth ei ddatblygu.

Cyfansoddiad y Grŵp Llywio

Bydd y Grŵp Llywio yn dod â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol â phrofiad bywyd ynghyd ag uwch-wneuthurwyr polisi sy'n gyfrifol am y themâu polisi y nodwyd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

Disgwylir i swyddogion polisi perthnasol fynychu digwyddiadau a bod yn rhan o'r broses hyd nes y caiff y Cynllun Gweithredu ei gyhoeddi. Gwahoddir aelodau allanol i gymryd rhan yn gyson.

Caiff y Grŵp Llywio ei gyd-gadeirio gan yr Athro Emmanuel Ogbonna, Prifysgol Caerdydd a Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru.

Bydd yn rhan o ddull cyd-awduro a gaiff ei fabwysiadu er mwyn datblygu'r Cynllun. Bydd Fforwm Hil Cymru yn darparu goruchwyliaeth strategol.

Tasgau allweddol

- Hyrwyddo, cefnogi a herio gwaith y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol fel rhan o'r broses gyd-awduro.
- Gwneud cynnydd wrth ddatblygu'r cynllun a gaiff ei adolygu.
- Cyflwyno safbwyntiau ehangach wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu gan grwpiau, fforymau, meysydd cymunedol neu feysydd polisi perthnasol.
- Sicrhau bod anghenion a chryfderau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn parhau wrth wraidd trafodaethau.
- Ystyried elfennau croestoriadol cydraddoldeb a sicrhau y cânt eu hadlewyrchu yn y Cynllun Gweithredu.
- Sicrhau bod dull Hawliau Dynol yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu.
- Sicrhau bod y Ddeddf Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oll yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.
- Rhoi cyngor ar wahanol elfennau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, gan gynnwys y weledigaeth, y gwerthoedd, y nodau a'r camau gweithredu.
- Datblygu fframwaith llywodraethu a fydd yn sail i'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar waith a gwaith ar gydraddoldeb hiliol yn y dyfodol.
- Rhannu a pharchu gwahanol fathau o wybodaeth – profiadau bywyd, dulliau ysgogi polisi, methiannau a llwyddiannau yn y gorffennol, arferion gorau, gwaith ymchwil, doethineb llawr gwlad, profiad o weithio yn y Llywodraeth a'r tu allan iddi.
- Sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn rhoi pwyslais cadarn ar atebolrwydd ac yn defnyddio'r dulliau ysgogi sydd ar gael er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

Ffyrdd o weithio

Gofynnir i'r Grŵp Llywio a phob aelod ohono ymrwymo i'r canlynol:

- cael sgysiau anodd mewn ffordd gefnogol er mwyn i ni gyd ddysgu a darparu amgylchedd diogel ar gyfer cynnal y sgysiau hyn
- sicrhau bod profiadau bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn parhau wrth wraidd y sgwrs a thrafod croestoriadedd
- gwerthfawrogi gwahanol fathau o wybodaeth
- neilltuo amser i fynychu cyfarfodydd ac ymgymryd â gwaith rhwng y cyfarfodydd hynny
- bod yn agored i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gallu darparu enghreifftiau o'r ffordd y caiff cydraddoldebau eu hintegreiddio / y mae cydraddoldebau wedi'u hintegreiddio yn y broses o ymgymryd â gwaith.

Dull cyd-awduro a llywodraethu ehangach

TCaiff y broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ei nodweddu gan ddull cyd-awduro. Bydd gan y Grŵp Llywio ran bwysig i'w chwarae ond bydd ffyrdd eraill y gellir cynnwys amrywiaeth lawer ehangach o bobl yn uniongyrchol yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu.

Bydd arweinwyr polisi perthnasol a Thîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau a chymunedau wrth ddatblygu rhannau penodol o'r Cynllun Gweithredu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio mecanweithiau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft drwy sefydliadau partner y rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant, rhwydweithiau a phartneriaid ehangach a chyda sefydliadau llawr gwlad (drwy'r cyllid ymgysylltu â'r gymuned) gan anelu at roi trefniadau tymor hwy ar waith.

Bydd Fforwm Hil Cymru yn darparu trosolwg strategol o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, a bydd y Grŵp Llywio yn cynnal gwaith cymorth manylach.

Llinell amser

Bydd y Grŵp Llywio yn cyfarfod bob tair wythnos, fwy neu lai, i ddechrau.

Bydd y Grŵp Llywio yn gweithredu tan fis Mawrth 2021 a hyd nes y caiff y Cynllun Gweithredu ei gyhoeddi. Caiff trefniadau llywodraethu newydd eu cynnig a byddant yn barod i'w rhoi ar waith ar ôl etholiadau'r Senedd.

Aelodau

Bydd y grwpiau neu'r sefydliadau canlynol yn cyflwyno cynrychiolydd. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl y caiff eraill wahoddiad i ymuno wrth i'r gwaith ddatblygu. Caiff uwch-swyddogion polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru hefyd eu cynrychioli.

- Fforwm Hil Cymru
- Grŵp Cyngorol Iechyd Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19
- Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar COVID-19
- Is-grŵp Asesu Risg COVID-19
- Archwilio Henebion Cyhoeddus yng Nghymru
- Gweithgor cymunedau, cyfraniadau a chynefin: profiadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r cwricwlwm newydd
- TUC Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cynrychiolydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Clymblaid Ffoaduriaid Cymru
- Rhwydwaith Staff Ethnig Lleafrifol Llywodraeth Cymru
- Tîm Cymorth Lleafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST)
- CLILC
- Fforwm Ffydd Cymru
- GIG Cymru

Ysgrifenyddiaeth

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i'r Grŵp Llywio.

Atodiad 2: Terminoleg

Croestoriadedd

Mae croestoriadedd yn cyfeirio at y ffaith bod gan bobl o grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd statysau cymdeithasol eraill (e.e. rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws mewnfudo, crefydd/ffydd, anabledd ac ati) sy'n dylanwadu ar eu profiadau, eu hanghenion a'u canlyniadau.

Amrywiaeth

Y gwahaniaeth rhwng grwpiau, gan gynnwys y grwpiau gwarchoddedig.

Cynhwysiant

Galluogi pobl i gyfranogi'n llawn yn yr hyn a wnawn.

Camau gweithredu cadarnhaol

Mesurau a ganiateir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y gellir ystyried yn gyfreithlon eu bod yn annog ac yn hyfforddi pobl o grwpiau a gaiff eu tangynrychioli er mwyn helpu i oresgyn anfanteision.

Gwahaniaethu cadarnhaol

Trin un person yn fwy ffafriol na pherson arall am fod ganddo nodwedd warchoddedig.

Nodwedd warchoddedig

Oedran, anabledd, hunaniaeth a mynegiant o ran rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Atodiad 3: Grwpiau'r Grant Cymunedol

Rydym hefyd yn ddiolchgar i lawer o grwpiau a sefydliadau a gyflwynodd adroddiadau deallus ar brofiadau eu cymunedau, naill ai drwy waith y Grant Cymunedol, neu drwy anfon eu hadroddiadau atom, cynnal digwyddiadau a chymryd rhan mewn sgysia. Maent yn cynnwys y canlynol:

Antur Teifi

Avant Cymru

BLM Cymru a Race Council Cymru

Canolfan Astudiaethau Islamaidd Prifysgol Cymru a Chyngor Mwslimiaid Cymru

Sefydliad Henna

Ymddiriedolaeth Menywod Hyatt

KIRAN

Mudiad Meithrin

Fforwm Ieuenctid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol Cenedlaethol

Cymdeithas BME Castell-nedd Port Talbot

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru

RCC – Rhanbarth Caerdydd

RCC – Rhanbarth Casnewydd

RCC – Rhanbarth Gogledd Cymru

RCC – Rhanbarth Abertawe

RCC – Rhanbarth Gorllewin Cymru

Panel Cyngori Is-Sahara

Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani

Women Connect First

TGP Cymru

Diverse Cymru

Cymdeithas Ddiwylliannol Hindŵ (Cymru)

Cymdeithas Datblygu Horn (HDA)

Atodiad 4: Mentoriaid Cymunedol

Mae'r 'Mentoriaid Cymunedol' canlynol wedi helpu swyddogion polisi drwy gynnig eu gwybodaeth a'u profiadau, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn yn fawr.

1. Jacqueline Alcinder
2. Aisha Ali
3. Cindy Ikie
4. Michelle Alexis
5. Mohid Khan
6. Star Mayo
7. Indu Deglurkar
8. Juhela Rahman-Daultry
9. Richard Desir
10. Yaina Samuels
11. Abubakar Askira
12. Daljit Nijjer
13. Jan Birch
14. Saadia Abubakar,
15. Helal Uddin
16. Thomas Hendy